



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

EBRILL 2018

Incorporating

EC HARRIS
BUILT ASSET
CONSULTANCY



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron Digital ISBN 978-1-78859-792-0

Mae Arcadis Consulting (UK) Limited yn gwmni preifat cyfyngedig a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestredig: 02212959). Swyddfa gofrestredig, Arcadis House, 34 York Way, London, N1 9AB. Rhan o Grŵp o Gwmnïai Arcadis ynghyd ag endidau eraill yn y DU.

Hawlfraint © 2015 Arcadis. Cedwir pob hawl. arcadis.com

RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Newidiadau
0.1	18.12.2017	ST	Strwythur yr Adroddiad Drafft
0.2	11.01.2018	ST	Adroddiad Interim Drafft ar gyfer Adolygiad LIC
0.3	20.02.2018	ST	Adroddiad Interim Drafft ar gyfer ail gam Adolygiad LIC a chyfraniadau
0.4	26.03.2018	ST/DH	Drafft Terfynol ar gyfer yr Ymgynghoriad

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 26 Mawrth 2018 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y “Cleient”) yn unol â’r telerau ac amodau penodi, (y “Penodiad”) rhwng y Cleient ac Error! No text of specified style in document. (“Arcadis”) at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na’i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o’r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

CYNNWYS

CRYNODEB ANNHECHNEGOL.....I

1	CYFLWYNIAD	1
1.1	Cefndir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	1
1.2	Diben Adroddiad Interim yr ACI.....	3
1.3	Trosolwg o Ddatblygiad yr ACI a'r NDF Hyd yn Hyn	3
1.4	Crynodeb o Gwmpasu'r ACI	5
1.5	Crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Hyd yn Hyn.....	6
1.6	Ymagwedd a Methodoleg Arfarnu'r ACI.....	7
2	ARFARNIAD O AMCANION YR NDF.....	10
2.1	Amcanion yr NDF yr Ymgynghorir arnynt (19 Chwefror 2018)	10
3	OPSIYNAU ERAILL YR NDF	12
3.1	Crynodeb o'r Asesiad o Opsiynau Eraill (24 Tachwedd 2018)	14
3.2	Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir.....	16
4	OPSIWN A FFEFRIR YR NDF	20
4.1	Crynodeb o'r Asesiad	20
4.2	Argymhellion	22
4.3	Yr Opsiwn a Ffefrir yr Ymgynghorir arno (19 Chwefror 2018)	23
5	YMGYNGHORI A'R CAMAU NESAF.....	30
	Fframwaith yr ACI	31
	Asesiad B1	40
	Arfarnu Opsiynau Eraill	56
	Yr Opsiynau Eraill.....	57
	Opsiynau Eraill a Aseswyd: 24 Tachwedd 2017	86
	Asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir.....	114

ATODIADAU

ATODIAD A

Fframwaith yr ACI

ATODIAD B

Asesiad B1

ATODIAD C

Arfarnu'r Opsiynau Eraill

Yr Opsiynau Eraill

Opsiynau Eraill a Aseswyd: 24 Tachwedd 2017

ATODIAD D

Asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir

Crynodeb Annhechnegol

Cefndir a Diben yr Adroddiad hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a fydd yn darparu cyd-destun gofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd yn dylanwadu ar gynllunio defnydd tir a sut y bydd cymunedau yn datblygu, felly mae'n bwysig ein bod ni'n deall yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl y gallai'r NDF eu cael wrth i ni ei ddatblygu. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn datblygu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Bwriad yr ACI yw sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi'u hymwreiddio yn yr NDF o'r cychwyn cyntaf. Golyga hyn y byddwn ni'n edrych ar yr effeithiau posibl y gallai'r NDF eu cael ar agweddau megis: yr amgylchedd, yr economi, y gymdeithas, iechyd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, hawliau plant, newid yn yr hinsawdd a materion gwledig. Rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar bob cam o'r broses hon.

Mae cyfres o amcanion wedi'u datblygu ar gyfer yr NDF ynghyd â phedwar opsiwn gofodol strategol lefel-uchel a fydd yn helpu i bennu cyfeiriad yr NDF sy'n datblygu. Yn sgil dadansoddiad o'r opsiynau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Opsiwn a Ffefrif. Ystyriwyd hefyd opsiwn meincnodi o beidio â chynhyrchu NDF. Mae pob un o'r amcanion a'r opsiynau o ran yr NDF wedi'u harfarnu gan ddefnyddio methodoleg arfarnu'r ACI, yr ymgynghorwyd arni yn ystod Cam Cwmpasu'r ACI yn haf 2017 (gweler [gwefan](#) Llywodraeth Cymru i gael gweld y manylion).

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn ddogfen lefel uchel sy'n egluro'r broses arfarnu a sut y mae hon yn helpu i lywio'r NDF. Mae'n cynnwys arfarniad o amcanion yr NDF, yr opsiynau strategol a sut y cafodd y rhain eu mireinio i ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrif. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn ceisio'ch barn ar ba un a oes unrhyw opsiynau realistig eraill ar wahân i'r rhai hynny a aseswyd eisoes yn rhan o'r NDF, a'ch barn chi ar yr arfarniad a gynhaliwyd eisoes. Er enghraifft, a ydych yn cytuno â'r Opsiwn a Ffefrif fel y caiff ei gyflwyno? Sut y byddech chi yn ei wella? A oes unrhyw Opsiwn a Ffefrif arall a fyddai'n fwy cynaliadwy yn eich barn chi? Sut beth fyddai hwn?

Ymgynghorir hefyd ar Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Dyma ddechrau asesu'r potensial i'r NDF gael effaith ar safleoedd cadwraeth natur penodol o bwysigrwydd rhyngwladol.

Crynodeb o'r Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r NDF yn ystod gaeaf 2016/17. Roedd yn cynnwys casglu tystiolaeth a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi materion gofodol posibl. Bu'r tasgau hyn yn gymorth i ddatblygu'r syniadau cychwynnol ar gyfer amcanion ac opsiynau strategol posibl yr NDF. Dechreuodd y gwaith ar yr ACI a'r HRA yn ystod gwanwyn 2017, gan gynnwys llunio Adroddiad Cwmpasu'r ACI, a gafodd ei lywio gan waith ymgynghori, yn cynnwys gweithdai rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth ar gyfer yr HRA.

Mae Adroddiad Cwmpasu'r ACI yn pennu'r fframwaith ar gyfer asesu'r NDF ac fe'i defnyddiwyd yn haf/hydref 2017 i lywio datblygiad amcanion ac opsiynau'r NDF. Cynhaliwyd cyfres arall o ddigwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref 2017 a chofnodwyd y canlyniadau. Roedd y rhain wedi helpu i lywio'r opsiynau fwy fyth.

Ym mis Tachwedd 2017, roedd yr amcanion a'r opsiynau cychwynnol yn destun ACI a chafodd y canlyniadau eu bwydo yn ôl i'r tîm NDF i ddylanwadu ar eu gwaith datblygu. Bu'r fersiwn newydd o'r amcanion a'r opsiynau wedyn yn destun ACI a Sgrinio HRA Rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2017/18. Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau ar yr ACI ar y cam hwn.

Datblygwyd cyfres o amcanion drafft ar gyfer yr NDF gan Lywodraeth Cymru. Cafodd pob un o'r amcanion hyn eu profi drwy'r ACI i wneud yn siŵr eu bod wedi'u cyfochri ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Cynhaliwyd profion ar ddwy fersiwn o amcanion yr NDF, a chawsant eu mireinio bob tro yn dilyn adborth a gafwyd drwy'r broses ACI. Caiff yr arfarniadau hyn eu cyflwyno yn Atodiad B yr adroddiad hwn. Mae 12 amcan terfynol drafft yr NDF hefyd wedi'u cyflwyno er mwyn ymgynghori arnynt, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Roedd yr argymhellion yn cynnwys, er enghraifft, atgyfnerthu'r amcan ar y dirwedd, gan wneud yr amcanion yn fyrrach a rhoi mwy o bwyslais iddynt, gan gynnwys cyfeiriad at gynllunio morol ac ychwanegu amcan yn ymwneud ag adeiladu cymunedau cydlynus. Mae'r tabl yn Atodiad B yn dangos bod y mwyafrif o argymhellion yr ACI wedi'u hymgorffori.

Arfarniad o'r Opsiynau Eraill

Datblygwyd pedwar opsiwn strategol arall gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

1. Opsiwn sy'n canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf
2. Opsiwn sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru
3. Opsiwn sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd
4. Opsiwn sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

Ystyriwyd hefyd opsiwn meincnodi o beidio â llunio NDF. Cafodd pob opsiwn ei arfarnu drwy'r ACI. Bu'r broses yn ailadroddol, ac mae'r arfarniad wedi helpu i lywio datblygiad yr Opsiwn a Ffeirir o blith yr opsiynau eraill. Mae Atodiad C yn cyflwyno canfyddiadau'r asesiad o'r opsiynau.

I grynhoi, ystyriwyd mai Opsiwn 1 oedd y lleiaf cynaliadwy ac ystyriwyd y gallai gael effeithiau negyddol o bosibl o ran anghydraddoldebau iechyd, cydlyniant cymdeithasol a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Byddai'n cynnig buddiannau cryf i'r economi mewn rhai ardaloedd, ond ni fyddai'n fuddiol i Gymru yn ei chyfarwydd a byddai ardaloedd gwledig, a rhai ardaloedd trefol, sy'n wynebu anawsterau economaidd ar hyn o bryd, ar eu colled. Byddai Opsiwn 2 yn arwain at ymagwedd fwy gwasgaredig at dwf, ar sail anghenion lleol. Byddai'r opsiwn hwn yn arbennig o dda i gymunedau lleol yn nhermau addysg, iechyd, cydlyniant cymdeithasol a hefyd yn nhermau amddiffyniad amgylcheddol. Byddai Opsiwn 3 hefyd yn fuddiol i iechyd a chysylltu cymunedau lleol. Byddai hefyd yn annog effeithlonrwydd ynni, yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn addasu i newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol. Fodd bynnag, o ran Opsiwn 3, nid oedd yn glir pa un a fyddai dewis lleoliadau datblygu yn bennaf ar sail lleihau allyriadau carbon a newid yn yr hinsawdd hefyd yn golygu y gallai arwain at effeithiau andwyol ar agweddau megis y dirwedd, treftadaeth neu ecoleg. Roedd Opsiwn 4 yn canolbwyntio'n gryf iawn ar ddiogelu'r amgylchedd naturiol, a fyddai hefyd yn fuddiol o ran cadernid yn wyneb newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o adnoddau naturiol. O blith yr opsiynau i gyd, gallai Opsiwn 4 fod â'r potensial mwyaf i gyfyngu ar dwf economaidd a pheidio â darparu ar gyfer anghenion tai. Pe na fyddai NDF yn cael ei lunio o gwbl, byddai cyfle yn cael ei golli i greu dull mwy cenedlaethol a chyffannol o fynd i'r afael â materion pwysig megis newid yn yr hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ar yr un pryd, ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac economaidd cyfredol.

Arfarniad o'r Opsiwn a Ffeirir

Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirir gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy ganfyddiadau'r ACI. Cafodd holl ganlyniadau'r arfarniad - yn gadarnhaol, negyddol a niwtral - eu hystyried wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirir. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn Atodiad D yn amlygu'r canfyddiadau a sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirir, sydd wedi ceisio dethol yr agweddau gorau, wedi'u hasesu yn erbyn amcanion yr ACI ac sy'n bodloni amcanion yr NDF, o blith pob un o'r opsiynau eraill a chynnig ymagwedd gytbwys tuag at ddatblygu.

I grynhoi, roedd yr Opsiwn a Ffeirir wedi perfformio'n dda yn yr ACI. Mae'n ceisio darparu fframwaith polisi cadarn a fydd yn fuddiol i iechyd a llesiant ac yn lleihau'r gwahaniaethau yn hynny o beth rhwng yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol. Mae'n cynnwys manylion hefyd ar fuddiannau o ran cydlyniant cymunedol, y Gymraeg, anghenion tai a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae cysylltedd a seilwaith digidol yn bwysig hefyd, a allai gynyddu mynediad ffisegol ar gyfleoedd cyflogaeth i fwy o gymunedau ledled Cymru. Mae'n cydnabod bod yn rhaid i'r system gynllunio adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, yn gwella sgiliau ac yn gwella ffyniant i bawb. Gallai'r ymagwedd ranbarthol, gan gynnwys nodi dinas-ranbarthau ac ardaloedd y fargen twf, esgor ar fuddion economaidd pellach, gan ddarparu canolbwynt strategol ar gyfer buddsoddiad. Mae lleihau allyriadau carbon a diogelu yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd yn themâu canolog. Ceir pwyslais cryf hefyd ar wella cysylltedd cymunedau drwy gerdded a beicio, trafnidiaeth gynaliadwy a chynhyrchu ynni gwyrdd. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad ar gyfer gwella ac ehangu'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol. Mae hefyd yn ceisio diogelu a gwella tirweddau, morweddau, safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, yn ogystal ag atgyfnerthu ecosystemau a hyrwyddo seilwaith gwyrdd.

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) i ddarparu cyd-destun gofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r NDF yn rhan bwysig o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am yr NDF a'r system gynllunio ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru. Bydd yr NDF yn dylanwadu ar sut y mae cymunedau'n datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl y gallai eu cael wrth i ni ddatblygu'r NDF. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn datblygu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Bydd y dull integredig hwn o gynnal yr arfarniad yn sicrhau ein bod yn edrych ar y cyfraniad y gall yr NDF ei wneud i saith nod llesiant cenedlaethol Cymru ac yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy ar bob cam, fel y darperir ar ei chyfer yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Mae'r Adroddiad Cwmpasu¹ yn rhoi eglurhad pellach am y berthynas rhwng yr NDF, yr ACI a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys sut y mae'r saith nod llesiant wedi'u hintegreiddio i'r ACI a sut y mae'r 'dulliau o weithio' wedi llywio'r gwaith hyd yn hyn. Mae hefyd yn cynnig esboniad o sut y mae'r NDF yn cydweddu â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 'Ffyniant i Bawb'².

Bydd yr NDF yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a bydd yn rhan bwysig o'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Bydd yn pennu gweledigaeth ofodol ar gyfer y system gynllunio gyfan, gan gynnwys materion megis ynni, trafnidiaeth a seilwaith a bydd yn llywio penderfyniadau a wnaed ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Bydd yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (ranbarthol) a Chynlluniau Datblygu Lleol (lleol) ac yn cefnogi'r broses o bennu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Bydd yn fframwaith lefel uchel, gan eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a bydd yn canolbwyntio ar gefnogi cyflawniad amcanion ar lefel genedlaethol a pholisi'r Llywodraeth. Caiff yr NDF ei adolygu bob 5 mlynedd.

Lle bo'r NDF yn nodi bod angen seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, bydd y system gynllunio yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i gefnogi darpariaeth y seilwaith hwn. Mae'r system gynllunio, yn bwysig iawn, yn sicrhau y caiff y seilwaith ei ddarparu mewn modd integredig ac y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau buddiannau. Mae prosiectau ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod yn arwyddocaol, naill ai yn nhermau eu graddfa, neu'r ffaith y bydd eu cyfraniad at gyflawni nodau llesiant a chynhwysiant yr NDF yn rhoi lefel uchel o sicrwydd ac yn helpu i gydgyssylltu buddsoddiad preifat a chyhoeddus.

Mae'r asesiad hwn yn ofynnol gan sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC 'ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol)'³, a droswyd yn uniongyrchol i gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA)⁴. Mae Adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yn mewnosod adran newydd, sef Adran 60B (1) (b) s 60, 60A, 60B a 60C. Mae Adran 60B (1) (b) yn mynnu'n benodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnal arfarniad o gynaliadwyedd y polisiau yn yr NDF a bod yn rhaid i'r asesiad hwn gynnwys gofynion y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol ac ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Un o'r dulliau allweddol o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r angen i gymryd ymagwedd integredig tuag at yr hyn a wnawn. O ystyried natur a chwmpas yr NDF, rydym wedi ceisio integreiddio ein hymagwedd at yr SA ac SEA ag asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn caniatáu i ni edrych ar y darlun ehangach wrth ystyried goblygiadau a chyfleoedd cynaliadwyedd sy'n esgor o'r NDF. Mae Ffigur 1-1 yn cyflwyno'r asesiadau effaith ychwanegol a ymgorfforwyd yn y broses ACI.

¹ <http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy>


² Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Medi 2017, ar gael: <http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

³ Cyfarwydddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd

⁴ Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (OS 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, 'Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004' (OS 2004/1633)

Ffigur 1-1 Asesiadau effaith i'w cynnwys ynghyd â SA/SEA a'u statws

Asesiadau Effaith Integredig



OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31847

Mae rhai o'r asesiadau effaith hyn statudol a rhai yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru fel y disgrifir yn Adran 2 o'r Adroddiad Cwmpasu.

Mae integreiddio'r asesiadau eraill hyn yn sicrhau ymagwedd gydweithredol ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn modd cyson a thryloyw. Mae hyn yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr ar gyfer nodi materion a chyfleoedd, asesu effeithiau gan gynnwys effeithiau anuniongyrchol a chronnus, a monitro mewn modd cyfannol. Mae rhagor o eglurhad am sut y cafodd y

prosesau arfarnu hyn eu cynnwys yn yr ACI, yn ogystal â sut y cawsant eu hintegreiddio i Fframwaith amcanion yr ACI a'r cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau, yn Adroddiad Cwmpasu yr ACI.

1.2 Diben Adroddiad Interim yr ACI

Mae Adroddiad Interim yr ACI yn cynrychioli camau B1 a B2 o'r broses ACI. Caiff camau'r broses ACI eu nodi yn Ffigur 1-2.

Bwriedir i'r adroddiad anstatudol hwn fod yn lefel uchel, gan adrodd ar y camau cychwynnol o fireinio'r opsiynau strategol ar gyfer yr NDF. Nodir bod cwmpas yr asesiad o'r NDF yn seiliedig ar y fframwaith asesu ar gyfer yr amcanion, a ddatblygwyd yn ystod cam Cwmpasu'r ACI. Mae'r asesiad yn un lefel uchel ar y cam hwn, gan adlewyrchu cylch gwaith cenedlaethol yr NDF a'i ddiben. Nodir bod yr asesiad wedi ystyried yr hyn y gallai'r NDF ei gyflawni o bosibl, a'i gwmpas cenedlaethol. Mae'n cydnabod, felly, swyddogaeth a dylanwad rhanddeiliaid eraill, er enghraifft, darparwyr addysg neu fyrdau iechyd, wrth gyflawni nodau cyffredin, er bod y rhain y tu allan i'r system gynllunio. Mae'r asesiad yn adlewyrchu'r potensial i'r NDF lywio cynllunio defnydd tir ar raddfa genedlaethol ac nid yw'r ceisio rhoi canllawiau dylunio lleol penodol, er y bydd angen ymlynu at ei egwyddorion wrth baratoi cynlluniau ar haenau is.


Mae'r asesiad o amcanion ac opsiynau'r NDF yn galluogi proses fwy tryloyw a chadarn, gan ei gwneud yn bosibl i'r tîm NDF ddatblygu'r agweddau hyn, sydd wedyn wedi arwain at ddatblygu'r opsiwn a ffeirif ar gyfer yr NDF. Bu'r broses o asesu'r NDF yn ailadroddol, â thrafodaethau rhwng y timau ACI ac NDF, gan gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella neu opsiynau amgen, fel sy'n briodol. Mae hyn wedi llywio'r gwaith o nodi'r opsiwn a ffeirif, ac mae cynnwys yr opsiwn hwnnw hefyd wedi bod yn destun asesiad lefel uchel ar y cam hwn. Caiff trosolwg manylach o broses yr NDF gan gynnwys ble y mae'r ACI wedi cyfrannu, ei gyflwyno yn Nhabl 1-1. Mae'r broses gydweithredol wedi cynnwys gweithdy gyda thîm yr NDF, i drafod y materion sy'n datblygu; yn ogystal â chyfarfodydd aml a chyfnodau adolygu anffurfiol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw egluro'r broses asesu ailadroddol, a sut y mae hon yn llywio'r NDF. Rydym hefyd yn ceisio'ch barn chi ar pa un a oes unrhyw opsiynau eraill realistig ar wahân i'r opsiynau hynny a aseswyd eisoes yn rhan o'r NDF, a'ch barn ar yr asesiadau ailadroddol a gynhaliwyd eisoes, er enghraifft a ydych yn cytuno â'r opsiwn a ffeirif fel y caiff ei gyflwyno? Sut y byddech chi yn ei wella? A oes unrhyw Opsiwn a Ffeirif amgen a fyddai'n fwy cynaliadwy yn eich barn chi? Sut beth fyddai hwn?

1.3 Trosolwg o Ddatblygiad yr ACI a'r NDF Hyd yn Hyn

Mae Ffigur 1-2 yn cyflwyno sut y mae camau'r NDF yn cydweddu â'r camau SEA ffurfiol a'r asesiadau integredig eraill.

Ffigur 1-2: Camau yn y Broses ACI (addaswyd o ODPM 2005) a Chamau Datblygu'r NDF



1.3.1 Casglu Tystiolaeth, Gwaith Cwmpasu'r ACI ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dechreuodd y gwaith o baratoi'r NDF â phroses o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cychwynnodd y gwaith hwn yn ystod gaeaf 2016/17 gyda chais am dystiolaeth ar gyfer yr NDF yn cynnwys cais am brosiectau. Dilynwyd hyn gan gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd mewn pedwar lleoliad ar draws y wlad er mwyn helpu i nodi materion gofodol allweddol ar gyfer yr NDF. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, sgriiniwyd yr NDF i bennu pa un a oedd angen SEA ffurfiol ai peidio. Cadarnhawyd y gofyniad hwn, ac ar y sail hon, aethpwyd ati i ddatblygu'r ACI.

Yng ngwanwyn 2017, gwnaed rhagor o waith i nodi materion ar gyfer yr NDF yn dilyn y digwyddiadau ymgysylltu. Ar y cam hwn, cafodd syniadau cychwynnol eu datblygu ar gyfer amcanion ac opsiynau strategol posibl yr NDF. Dechreuodd Cam A o'r ACI (Cwmpasu) hefyd ar yr adeg hon, a oedd yn cynnwys mwy o gasglu tystiolaeth a dadansoddi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd, a chafodd hyn oll ei gydblythu â thystiolaeth yr NDF. Yn dilyn gweithdy cwmpasu a gynhaliwyd ym mis Mai 2017, lluniwyd Adroddiad Cwmpasu yr ACI, a oedd yn nodi'r dystiolaeth hon a hefyd yn diffinio cwmpas yr ACI a oedd yn datblygu. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar hyn yn ystod haf 2017. Ar y cyd â'r gwaith hwn, casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), â'r nod o asesu goblygiadau'r NDF ar gyfer safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd – yr hyn a elwir yn Safleoedd Ewropeaidd. Yn ogystal â chasglu tystiolaeth ar gyfer yr HRA, nodwyd ambell reol synnwyr y fawd i helpu i lywio datblygiad yr NDF o ran osgoi effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd.

Yn ystod ymgynghoriad cwmpasu'r ACI, cynhaliwyd trafodaethau, gan gynnwys trafodaethau ag ymgynghoreion allanol, ar ganfyddiadau'r Adroddiad Cwmpasu a'r fframwaith o amcanion a chwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau. Lluniwyd hefyd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.3.2 Datblygu Amcanion ac Opsiynau, Ymgysylltu Pellach, Sgrinio ACI a HRA

Gan gyfeirio at yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad, dechreuwyd arni yn ystod haf/hydref 2017 ar ddatblygu ymhellach amcanion ac opsiynau strategol amlinellol yr NDF. Roedd y broses hon yn tynnu ar yr holl waith a wnaed hyd at y pwynt hwnnw, er enghraifft, y sail dystiolaeth, cofnodion o'r digwyddiad ymgysylltu a'r ymgynghoriad a'r ACI a HRA a oedd yn datblygu. Cynhaliwyd hefyd waith Sgrinio HRA lefel uchel ar yr adeg hon hefyd. Yna, cafodd yr amcanion a'r opsiynau eu cynnwys mewn pecyn cyn-ddigwyddiad ar gyfer y gwaith ymgysylltu a oedd ar y gorwel ar yr amcanion a'r opsiynau a oedd yn dod i'r amlwg. Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref 2017 a chofnodwyd y canlyniadau.

Ym mis Tachwedd 2017, roedd yr amcanion a'r opsiynau cychwynnol yn destun ACI a chafodd y canlyniadau eu bwydo yn ôl i dîm yr NDF er mwyn dylanwadu ar y gwaith o'u datblygu ymhellach. Yna roedd y fersiwn nesaf o'r amcanion a'r opsiynau yn destun ACI a Sgrinio HRA Rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2017/18. Mae'r Adroddiad Interim hwn yn dogfennu canfyddiadau'r ACI ar y cam hwn.

1.4 Crynodeb o Gwmpasu'r ACI

Mae'r Adroddiad Cwmpasu terfynol (Ebrill 2018) yn cynrychioli cam cychwynnol yr ACI. Mae'n dilyn ymagwedd integredig a lywiwyd drwy ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid ac yn dilyn y fethodoleg a nodir yn y canllawiau⁵ cyhoeddedig, gan geisio:

- Pennu cwmpas a lefel maylder yr ACI;
- Nodi cynlluniau, polisiau, rhaglenni a mentrau a fydd yn llywio'r broses ACI a'r NDF;
- Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ac amgylcheddol yng Nghymru ar raddfa genedlaethol;
- Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
- Chyflwyno fframwaith ar gyfer yr ACI, y gellir arfarnu'r NDF yn ei erbyn.

⁵ ODPM (2005) *Canllaw Ymarferol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gymhwyso Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd*

Yr Adroddiad Cwmpasu drafft ar gyfer ACI yr NDF oedd un o'r camau cyntaf yn y gwaith ymgysylltu a chydweithredu ar gyfer yr NDF. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2017. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy yn gynnar ym mis Mai 2017 gyda rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli'r ystod o brosesau asesu a fyddai'n cael eu hintegreiddio i'r ACI. Anfonwyd Adroddiad Cwmpasu yr ACI i Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw er mwyn iddynt wneud sylwadau arno. Fe'i hanfonwyd hefyd i ymgynghoreion statudol dros y ffin, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Historic England, er mwyn iddynt hwy hefyd gyflwyno eu sylwadau.

Mae'r ymatebion i'r sylwadau a ddaeth i law a sut y gwnaethant ddylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI, wedi'u nodi yn adroddiad yr ymgynghoriad, sydd ar gael yma⁶. Mae Fframwaith yr ACI a gyflwynir yn Atodiad A wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r sylwadau a ddaeth i law.

Ers cyhoeddi'r Adroddiad Cwmpasu, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb⁷. Mae'r cynllun hwn wedi dylanwadu ar ddatblygiad opsiynau'r NDF. Ei fwriad yw tyfu'r economi a lleihau anghydraddoldebau.

1.5 Crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Hyd yn Hyn

Mae Cyfarwydddeb y Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol fflora a ffawna (y 'Cyfarwydddeb Cynefinoedd') yn mynnu bod unrhyw gynllun neu raglen y mae'n debygol y caiff effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (cSAC), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig bosibl (pSPA) a safleoedd Ramsar), nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle at ddibenion cadwraeth natur, yn destun Asesiad Priodol. Cafodd y Gyfarwydddeb ei throsi i gyfraith y DU drwy gyfrwng y Rheoliadau Cynefinoedd⁸. Cyfeirir at y broses yn ei chyfarwydd fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Ystyrir y tebygolrwydd o effeithiau arwyddocaol (a elwir hefyd yn sgrinio HRA) i benderfynu pa un a fyddai'r NDF (naill ai ar ei ben ei hun a/neu ynghyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn creu effaith andwyol ar gyfarwydd safle 2000, yn nhermau ei amcanion cadwraeth a buddiannau cymwys. Bydd canlyniadau'r Adroddiad Sgrinio HRA, ac unrhyw asesiadau dilynol, yn cael eu hadlewyrchu a'u hintegreiddio, lle bo angen, i'r ACI, yn rhan o'r broses ailadroddol. Mae'r dynodiadau o berthnasedd i'r HRA wedi'u cyflwyno yn Ffigur 1 (Atodiad B) Ardaloedd Cadwraeth Natur Dynodedig, yn yr Adroddiad Cwmpasu.

Ymgynghorir ar Adroddiad Sgrinio HRA Rhagarweiniol ynghyd â'r Adroddiad Interim ACI hwn a'r Adroddiad ar y Prif Faterion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffeirif yr NDF. Mae'r ddogfen yn cynnig sgrinio rhagarweiniol ar gyfer yr effeithiau posibl o ganlyniad i'r mathau o bolisiau / mathau tebygol o ddatblygiadau a allai ddeillio o Opsiwn a Ffeirif yr NDF. Mewn rhai achosion, bu'n bosibl defnyddio'r gwaith sgrinio i eithrio amcan/is-amcan rhag asesiad pellach. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw'n hawdd gweld potensial ar gyfer effaith arwyddocaol tebygol ar y cam hwn a bydd angen mwy o sgrinio HRA ar bolisiau a chynigion yr NDF drafft wrth iddo ddatblygu.

Roedd cam cyntaf yr HRA ar gyfer yr NDF wedi cynnwys datblygu offeryn i alluogi gwiriad syml i weld a allai cynnig strategol ar gyfer unrhyw elfennau gofodol o'r NDF gael effaith ar un safle neu fwy. Roedd hwn ar ffurf ffeil System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS). I gyd-fynd â hwn, crëwyd dogfen 'Synnwyr y Fawd'. Roedd y ddogfen yn cynnig trosolwg o'r categorïau eang y gellir eu defnyddio i ddosbarthu safleoedd Ewropeaidd, ynghyd â manylion y mathau o effeithiau a allai ddigwydd o ganlyniad i amryw fathau o ddatblygiadau yn gysylltiedig â'r NDF a sut y gallent effeithio ar wahanol fathau o safleoedd Ewropeaidd mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r ddogfen Synnwyr y Fawd wedi'i defnyddio gan dîm yr NDF i lywio eu penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd.

⁶ <https://beta.gov.wales/integrated-sustainability-appraisal-scoping-report-national-development-framework>

⁷ Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017, Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd, ar gael: <http://gov.wales/topics/businessandconomy/welsh-economy/economic-action-plan/?lang=cy>

⁸ Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (O.S. 2008/301) yn atgyfnerthu Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 â diwygiadau dilynol. Mae'r Rheoliadau yn trosi Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC, ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt (Cyfarwydddeb Cynefinoedd y CE), yn gyfraith genedlaethol. Maent hefyd yn trosi elfennau o Gyfarwydddeb Adar Gwyllt yr UE yng Nghymru a Lloegr.

1.6 Ymagwedd a Methodoleg Arfarnu'r ACI

Bwriad yr ACI yw ei gwneud yn bosibl i egwyddorion datblygu cynaliadwy gael eu hymwreiddio yn yr NDF o'r cychwyn cyntaf. Mae'r fframwaith arfarnu o amcanion a chwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau wedi'i ddylunio i ymwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy, yng nghyd-destun yr hyn y gallai'r NDF ei gyflawni o bosibl. Mae pob cam o'r ACI wedi'i gynnal gan ddefnyddio'r broses ailadroddol, gydag adborth a chyfathrebu rhwng timau'r NDF a'r ACI. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn bosibl i'r NDF gael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n hybu cynaliadwydd.

Mae Adran 1 yn rhoi eglurhad pellach ar gwmpas ac ymagwedd yr asesiad. Ar ben hyn, caiff egwyddorion sylfaenol yr arfarniad eu hamlinellu yn yr Adroddiad Cwmpasu (adran 5.1) ac maent yn adlewyrchu'r gofynion yn y Canllaw Ymarferol i'r SEA (gweler y troednodyn yn adran 1.3). I grynhoi, byddai'r arfarniad yn un ansoddol yn bennaf, ac yn cael ei gynnal gan ymarferwyr SA proffesiynol.

Mae'r dulliau o weithio wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad yr NDF, ac o reidrwydd felly, yr ACI. Rhoddir trosolwg o'n dull o weithio yn Nhabl 1-1.

Tabl 1-1: Dulliau o Weithio a'r ACI

Edrych i'r tymor hir
Adroddiad Interim
Mae'r Adroddiad Interim yn nodi sut y mae'r Opsiwn a Ffeirif ac amcanion yr NDF wedi'u datblygu. Mae'r broses o'u hasesu yn erbyn Fframwaith yr ACI wedi amlygu'r opsiynau mwy a llai cynaliadwy dros gyfnod 20 mlynedd y cynllun, gan gynnwys agweddau sydd yn rhai tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Mae'r Opsiwn a Ffeirif ac amcanion yr NDF wedi'u llywio gan ganlyniadau'r asesiadau hyn.
Ymagwedd integredig
Adroddiad Interim
Mae'r Adroddiad Interim yn nodi canfyddiadau'r asesiad o opsiynau ac amcanion yr NDF wrth iddynt gael eu datblygu yn erbyn Fframwaith yr ACI. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn bosibl i fabwysiadu ymagwedd integredig wrth asesu, gan amlygu synergeddau neu wrthdrawiadau rhwng y cynigion sydd wedi helpu i lywio'r Opsiwn a Ffeirif a'r sêd derfynol o amcanion yr NDF. Mae'r Adroddiad Interim hefyd yn cynnwys asesiad o gydnawsedd amcanion yr NDF er mwyn sicrhau bod unrhyw wrthdrawiadau neu gyfleoedd yn cael eu hamlygu ar y cam cynnar hwn. Mae'r ymagwedd draws-lywodraethol wedi parhau, wrth i weithgor yr ACI adolygu a rhoi sylwadau technegol ar yr asesiad.
Cynnwys pobl
Adroddiad Interim
Mae'r Adroddiad Interim hwn, er nad yn ofynnol drwy broses statudol, yn ei gwneud yn bosibl i adrodd hanes sut y mae'r Opsiwn a Ffeirif a'r amcanion wedi'u datblygu, gan fod o gymorth i ddeall yr dewisiadau a wnaed, a fydd o gymorth i'r broses ymgynghori. Bydd yr Adroddiad Interim hwn hefyd yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr ag Adroddiad Ymgynghori ar y Prif Faterion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffeirif yr NDF, a bydd amryw ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed ac yn bwydo i gamau nesaf y broses NDF.
Cydweithredu ag eraill
Adroddiad Interim
Mae'r Adroddiad Interim hwn yn nodi canfyddiadau'r asesiad yn erbyn Fframwaith yr ACI. Cafodd Fframwaith yr ACI ei lywio drwy gam yr Adroddiad Cwmpasu gan ystod o randdeiliaid. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i gydweithredu.
Atal
Adroddiad Interim
Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cyflwyno'r amryw gamau a drafftiau a luniwyd er mwyn cyrraedd yr Opsiwn a Ffeirif a'r amcanion terfynol. Mae'r asesiad yn nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau gan gynnwys mynd i'r afael â sgoriau negyddol a manteisio i'r eithaf ar sgoriau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirif mor gynaliadwy ag sy'n bosibl. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn destun ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod yr holl faterion a chyfleoedd yn cael eu nodi ar y cam cynnar hwn yn natblygiad yr NDF.

Fframwaith yr ACI (Atodiad A) yw'r prif offeryn asesu ac mae'n cynnwys cyfres o amcanion cynaliadwyedd (yn cynnwys materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol), a ddefnyddiwyd i roi prawf ar berfformiad y cynllun sy'n cael ei asesu. Mae'r rhain yn cysylltu â'r wybodaeth llinell sylfaen, ac yn nodi'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol, a'r cynlluniau, rhaglenni a strategaethau perthnasol, sy'n sail i'r asesiad. Mae'r fframwaith hefyd yn tynnu ynghyd yr holl asesiadau integredig eraill. Er nad yw'r Gyfarwydddeb SEA yn mynnu bod amcanion cynaliadwyedd yn cael eu defnyddio, maent yn offeryn cydnabyddedig wrth gynnal ACI.

Nodir bod yr ymagwedd yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau SEA. Mae Adran 2.2 Adroddiad Cwmpasu'r ACI yn rhoi manylion am y gofynion statudol ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg; ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Rhoddir crynodeb hefyd o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd; ac asesiadau yn ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Newid yn yr Hinsawdd; a Datblygu Economaidd.

Roedd yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn cynnwys y camau canlynol (cyfeirir at Ffigur 1-2):

1. B1: Adolygu amcanion yr NDF yn erbyn amcanion yr ACI (gweler yr allwedd yn Nhabl 1-2 a Fframwaith yr ACI yn Atodiad A);
2. B2: Adolygu'r opsiynau eraill yn erbyn amcanion yr ACI gan ddefnyddio'r tablau arfarnu opsiynau (a elwir hefyd yn matricesau arfarnu) a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (gweler yr allwedd yn Nhabl 1-3 a Fframwaith yr ACI yn Atodiad A);
3. B2: Paratoi cyfres o argymhellion i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu a mireinio'r opsiynau ymhellach;
4. B2: Adolygu'r opsiwn a ffeirif yn erbyn amcanion yr ACI gan ddefnyddio tablau arfarnu'r opsiynay, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (gweler yr allwedd yn Nhabl 1-3 a Fframwaith yr ACI yn Atodiad A); a
5. B2: Paratoi cyfres bellach o argymhellion i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu a mireinio'r Opsiwn a Ffeirif ymhellach.

Mae'r tablau a ganlyn yn cyflwyno'r dull sgorio ar gyfer pob un o'r asesiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae Tabl 1-2 yn cyflwyno'r allwedd ar gyfer yr asesiad cydnawsedd cyffredinol o amcanion yr NDF yn erbyn amcanion yr ACI. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cymhariaeth lefel uchel, er mwyn nodi unrhyw effeithiau allweddol ar gynaliadwyedd yn gynnar yn y broses. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i'r ACI wneud argymhellion cynnar, er mwyn i sail yr NDF adlewyrchu'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol i Gymru.

Mae Tabl 1-3 yn cyflwyno'r allwedd ar gyfer yr asesiad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif. O'i ddefnyddio ochr yn ochr â Fframwaith yr ACI (Atodiad A), mae'n ei gwneud yn bosibl i effeithiau arwyddocaol o bosibl ar gynaliadwyedd, boed yn gadarnhaol neu negyddol, gael eu tynnu allan o'r asesiad, gan ei gwneud yn bosibl i greu fframwaith o argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r NDF ar y cam hwn. Nodwyd hefyd sut y mae'r argymhellion hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth. Mae Tabl 1-4 yn rhoi diffiniad o'r derminoleg o'r mathau o effeithiau sydd, ynghyd â'r effeithiau uniongyrchol, wedi'u hystyried yn yr asesiad.

Tabl 1-2: B1 Allwedd i amcanion cydnawsedd

✓ = Mae'r amcanion yn gydnaws

✗ = Nid yw'r amcanion yn gydnaws

0 = Nid oes cysylltiad rhwng yr amcanion

? = Mae'r cysylltiad rhwng yr amcanion yn ansicr/ddibynnol a fesurau gweithredu

Tabl 1-3: Allwedd Asesu ar gyfer yr Asesiad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif

Sgorio'r Asesiad	
++	Cadarnhaol cryf – yn debygol o arwain at gynnydd tuag at yr amcan
+	Cadarnhaol gwan – yn debygol o arwain at gynnydd cyfyngedig iawn tuag at yr amcan
0	Canlyniad niwtral
+/-	Amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol posibl
?	Canlyniad ansicr

-	Negyddol gwan – yn debygol o gael effaith andwyol cyfyngedig iawn ar gyflawni'r amcan
--	Negyddol cryf – yn debygol o gael effaith andwyol cyfyngedig ar gyflawni'r amcan

Tabl 1-4: Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cronnus a Synergyddol

Math o Effaith	Diffiniad
Eilaidd (neu anuniongyrchol)	Effeithiau nad ydynt o ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun (NDF) ond maent yn digwydd bellter o'r effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth.
Cronnus	Mae effeithiau'n digwydd, er enghraifft, lle bo sawl datblygiad yn cael effaith anarwyddocaol ar eu pen eu hunain, ond o'u rhoi at ei gilydd, mae'r effaith yn arwyddocaol; neu lle bo sawl effaith unigol o'r cynllun (e.e. swm, llwch a gweledol) yn cael effaith gyfunol.
Synergyddol	Mae effeithiau'n rhyngweithio i greu effaith y mae ei chyfanswm yn fwy na swm yr effeithiau unigol.

Ffynhonnell: Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwydddeb SEA, ODPM

Mae ein hymagwedd integredig tuag at asesu effaith yr NDF yn tynnu ynghyd asesiadau allweddol yn un fframwaith arfarnu. Wedi'i osod yng nghyd-destun y saith nod llesiant, mae'r amryw feysydd i'w hystyried yn cynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a hynny nawr ac yn y dyfodol. Mae Tabl 1-5 yn dangos sut y mae gofynion yr asesiadau effaith wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr ACI o'r amcanion a ddefnyddir i arfarnu'r NDF.

Tabl 1-5: Asesiadau effaith integredig a phrif amcanion yr ACI sy'n berthnasol

Asesiad Effaith	Prif Amcan(ion) yr ACI	Wedi'u sgrinio i mewn?
Iechyd	1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 a 17	Ydynt
Cydraddoldebau	1, 2, 3, 4, 10, 11 a 12	Ydynt
Y Gymraeg	3, 4, 5	Ydynt
Prawfesur Gwledig	2, 3, 4, 5, 10, 11, 12, 13, 16 a 17	Ydynt
Hawliau Plant	1, 2, 3, 10, 11 a 12	Ydynt
Newid yn yr Hinsawdd	2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 16 a 17	Ydynt
Datblygu Economaidd	1, 3, 4, 6 a 17	Ydynt

2 ARFARNIAD O AMCANION YR NDF

Cynhaliwyd yr asesiad cydnawsedd o amcanion yr NDF mewn tri cham. Mae manylion yr asesiadau hyn wedi'u cyflwyno yn Atodiad B ac maent wedi arwain at fireinio'r amcanion fel y cyflwynir yn Adran 2.1 isod. Mae'r amcanion drafft terfynol hyn ar gael yn rhan o'r ymgynghoriad ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Mae'r sylwadau a roddir yn Nhabl B-2 o Atodiad B yn cyflwyno proses ailadroddol yr asesiad, a sut yr ystyriwyd yr argymhellion, lle y bônt yn berthnasol. Dengys hyn fod y mwyafrif o argymhellion yr ACI wedi'u hymgorffori yn yr NDF. Mae hyn wedi cynnwys y gwelliannau canlynol, a fydd yn gwella'r potensial i amcanion yr NDF gyfrannu at ddatblygu mwy cynaliadwy, o'u cymharu â fersiynau blaenorol.

- Atgyfnerthwyd yr ystyriaeth o'r dirwedd (amcan 6 yr NDF);
- Amcanion yr NDF wedi'u byrhau, eu symleiddio lle bo angen, ac wedi cael pwyslais mwy pendant;
- Testun ychwanegol wedi'i ychwanegu at amcan 4 yn ymwneud â chadw'r boblogaeth, er mwyn cryfhau cymunedau;
- Cyfeiriad at gynllunio morol wedi'i ychwanegu (amcan 6 yr NDF);
- Testun wedi'i ychwanegu i gynnwys ystyriaeth o lygredd (amcan 6 yr NDF);
- Gwella amcan y Gymraeg i gynnwys ystyriaeth o seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau; ac
- Ychwanegu amcan NDF ychwanegol yn ymwneud â chymunedau cydlynus.

2.1 Amcanion yr NDF yr Ymgynghorir arnynt (19 Chwefror 2018)

Hon yw'r fersiwn o'r Opsiwn a Ffeirif yr ymgynghorir arni, sydd wedi cymryd canfyddiadau'r ACI i ystyriaeth.

1. Newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

- 1.1 Galluogi'r newid i economi carbon isel.
- 1.2 Galluogi'r gwaith o reoli ac addasu ar gyfer canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd.
- 1.3 Cefnogi datgarboneiddio yng Nghymru, a helpu i gyrraedd targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

2. Ffyniant economaidd ac adfywio

- 2.1 Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer darparu seilwaith i gefnogi ffyniant economaidd i bawb a thwf gwyrdd.
- 2.2 Cefnogi'r sectorau cenedlaethol a sylfaenol; a thwf ac arloesi mewn economi carbon isel.
- 2.3 Cefnogi economïau rhanbarthol cryf.
- 2.4 Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a darparu cyfeiriad strategol i fentrau adfywio.

3. Dinas-Ranbarthau a Bargeinion Twf

- 3.1 Cefnogi'r gwaith o gyflwyno bargeinion dinas-ranbarthau a bargeinion twf ledled Cymru.

4. Cymru Wledig

- 4.1 Ei gwneud yn bosibl i ddarparu swyddi, gwasanaethau a seilwaith i gryfhau cymunedau gwledig a chadw pobl ifanc.
- 4.2 Cefnogi cadernid ac arallgyfeirio yn yr economi wledig.

5. Tai

- 5.1 Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer tai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad, wedi'u cyplysu â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol ac ardaloedd twf.

6. Adnoddau Naturiol, Economi Gylchol a Llifogydd

- 6.1 Cryfhau cadernid asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd

wedi'u dynodi.

6.2 Cefnogi'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a hwyluso'r broses o adfer natur.

6.3 Amddiffyn, hyrwyddo a gwella tirweddau pwysig yn genedlaethol.

6.4 Rhoi cyfeiriad strategol i reoli ac addasu i'r bygythiad posibl o lifogydd.

6.5 Sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau, lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau a chefnogi datblygiad yr economi gylchol.

6.6 Cefnogi'r gwaith o leihau llygredd a gwella ansawdd aer, sŵn a dŵr.

6.7 Cefnogi cyflawni amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

7. Diwylliant a Threftadaeth

7.1 Diogelu, hyrwyddo a helaethu asedau diwylliannol a hanesyddol cenedlaethol.

7.2 Cefnogi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau cenedlaethol newydd ym maes diwylliant.

8. Trafnidiaeth

8.1 Cefnogi gostyngiad yn nifer y cerbydau preifat sy'n teithio a thwf mewn cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

8.2 Hwyluso'r gwaith o gyflwyno a gwella seilwaith trafndiaeth allweddol i ddatgarboneiddio teithio.

9. Yr Iaith Gymraeg

9.1 Cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau a helpu i greu'r amodau i wireddu amcanion iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

10. Iechyd a Lles

10.1 Cefnogi ffyrdd o fyw iach ac egniol a gwella mynediad at wasanaethau.

10.2 Cefnogi'r gwaith o leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru.

11. Seilwaith digidol

11.1 Cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol a helpu i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o gael 100% o ddarpariaeth i wasanaethau band eang a thelathrebu ledled Cymru.

12. Cymunedau Cydlynus

12.1 Cefnogi'r gwaith o sicrhau cymunedau cydlynus.

3 OPSIYNAU ERAILL YR NDF

Datblygwyd pedwar opsiwn arall ar gyfer yr NDF ynghyd ag opsiwn meincnodi, sef peidio â llunio NDF. Roedd pob opsiwn yn destun ACI ym mis Tachwedd 2017. Gellir gweld disgrifiad llawn o opsiynau eraill yr NDF yn Atodiad C. Cafodd pob un o'r opsiynau eraill eu strwythuro fel a ganlyn:

- Trosolwg cryno
- Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?
- Trosolwg llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?
- Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?
- Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?
- Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?

Mae trosolwg cryno pob opsiwn wedi'i nodi isod:

Opsiwn Arall 1 – Opsiwn i ganolbwyntio twf yn ardaloedd cryfaf y farchnad.

Trosolwg Cryno

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio datblygiad a thwf hirdymor Cymru o amgylch ardaloedd cryfaf y farchnad. Ei nod yw cefnogi twf economaidd yn yr ardaloedd lle mae'r marchnadoedd ar eu cryfaf ac sydd â'r potensial gorau i dyfu. Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod bod i lawer o amcanion – amddifadedd, adfywio, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, iaith, gwytnwch adnoddau naturiol – gysylltiad uniongyrchol â ffynnu economaidd.

Rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('y Fframwaith') fydd llywio'r twf tuag at yr ardaloedd hyn a darparu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi twf. Wrth ddarparu seilwaith o bwys, bydd yn arfer dull o'r brig-i-lawr. Bydd yn gwneud dewisiadau clir ynghylch pa rannau o Gymru fydd yn tyfu a sut y dylent dyfu. Bydd y system gynllunio yn ymateb i gyfleoedd i gefnogi twf economaidd ac ni fydd yn cyfyngu ar fuddsoddi, na pheri oedi mewn buddsoddi, yn yr ardaloedd twf a nodwyd.

Opsiwn Arall 2 – Opsiwn i ganolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru.

Trosolwg Cryno

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar Gymru gyfan. Ceisia fynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu, a hynny drwy ddull gwasgarog, nad yw'n ceisio blaenoriaethu un ardal yn hytrach na'r llall. Bydd amcanion hirdymor yn cael eu cyflawni drwy gamau gweithredu a buddsoddi ledled Cymru. Fe'u cyflawnir hefyd drwy roi cefnogaeth uniongyrchol i gymunedau lleol er mwyn sicrhau atebion o'r-gwaelod-i-fyny i broblemau cenedlaethol. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau y bydd cymunedau lleol, cryf, gan ddarparu swyddi, tai, gwasanaethau a chyfleusterau y mae arnynt eu hangen. Bydd hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar bobl a'u lles ac ar gynaliadwyedd.

Rôl y Fframwaith fydd lledaenu twf a seilwaith ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r ardaloedd lle'r mae'r angen mwyaf a lle mae'r marchnadoedd gwannaf. Bydd yn dal i ganolbwyntio'n bendant ar gyflawni'r amcanion cenedlaethol. Bydd yn cydlynu'r camau gweithredu yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Opsiwn Arall 3 – Opsiwn i gyflawni amcanion datgarboneiddio ac amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Trosolwg Cryno

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'n gofalu mai ein hymateb i'r materion hyn sy'n cael prif sylw'r Fframwaith. Mae llu o dystiolaeth sy'n ategu'r angen i weithredu ar frys ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Mae rôl hanfodol i'r system gynllunio o ran hwyluso newid yn gymdeithas garbon-isel drwy sicrhau bod i ddatgarboneiddio le blaenllaw mewn dewisiadau ynghylch defnydd tir. Bydd targedau ynni adnewyddadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr, ynghyd â'r cyllidebau sy'n datblygu ynghylch carbon, yn llywio'r strategaeth ofodol hon yn sylweddol. Yn benodol, canolbwyntia'r Fframwaith hwn ar y modd y defnyddir tir, y berthynas rhwng gwahanol fathau o ddefnydd tir a'r modd y'u cysylltir. Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd ein haneddiadau'n tyfu ac yn cysylltu â'i gilydd. Hefyd pwysleisir deall canlyniadau'r dewisiadau a wnawn a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwneud pethau'n wahanol.

Bydd patrymau trefol a gwledig presennol yn cael eu haddasu i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi newidiadau o bwys o ran patrymau datblygu a ffurf trefi, gan gynnwys yn yr ardaloedd sydd ohoni, os bydd angen newidiadau o'r fath i gyflawni amcanion ac i gyfrannu at greu economi garbon-isel.

Opsiwn Arall 4 – Opsiwn i ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Trosolwg Cryno

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n cydnabod y bydd rheoli anghynaliadwy'n cael effaith andwyol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'n fframwaith cadarnhaol i helpu i sylweddoli gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein hadnoddau naturiol a sicrhau bod cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol yn gallu ymaddasu ac yn gallu gwrthsefyll newid. Drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau llygredd, bydd y Fframwaith hwn o gymorth i wneud yr ecosystemau a'r fioamrywiaeth sydd gennym yn fwy gwydn. Rhydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth gyfle i ddatblygu swyddi o safon ledled Cymru ac i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor.

Byddai'r Fframwaith hwn yn defnyddio tystiolaeth sylfaenol i lywio'r datblygu tuag at y mannau mwyaf addas, gan roi blaenoriaeth bendant i'r goblygiadau o ran adnoddau naturiol wrth benderfynu ar faterion gofodol. Bydd yn canolbwyntio'n fawr ar sut y deuir i benderfyniadau a hefyd ar yr amcanion y dylid eu cyflawni, gan ddefnyddio statws cynllun datblygu'r Fframwaith i sicrhau y gwreiddir y prif egwyddorion yn ddwfn yn holl haenau'r broses benderfynu.

Yr Opsiwn Meincnodi – Peidio â llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Trosolwg Cryno a Pham y lluniwyd yr opsiwn hwn?

Peidio â llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fyddai'r opsiwn hwn. Byddai'r cynllun presennol, sef Cynllun Gofodol Cymru, yn parhau'n gynllun gofodol cenedlaethol. Nid yw Cynllun Gofodol Cymru yn un ac iddo statws cynllun datblygu.

O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) mae'n ofynnol llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nid yw hwn yn opsiwn realistig felly.

Y mae'n gyfle er hynny i ystyried yr hyn a fyddai'n digwydd pe na bai Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei lunio a sut y byddid yn dod i benderfyniadau cynllunio strategol cenedlaethol. Mae'n feincnod pwysig wrth geisio deall yr opsiynau posibl eraill.

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn dal yn gynllun strategol pwysig ac mae llawer o'r dulliau polisi allweddol yn dal yn ddilys. Un o'i wendidau yw'r ffaith nad oes iddo statws cynllun datblygu na'r gallu i ddylanwadu ar benderfynu. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn newid. Byddai gallu'r system gynllunio i ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r amcanion datgarboneiddio sydd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyfyngu i gamau gweithredu lleol a hynny heb safbwynt strategol rhydwantol.

Pam yr ydym ni'n asesu'r 'Opsiwn Meincnodi'?

Bydd yr NDF yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Mae'n bwysig i'r ACI asesu opsiynau amgen rhesymol i'r NDF sy'n datblygu, gan gynnwys amryw opsiynau sy'n cynnwys opsiwn 'gwneud dim/busnes fel arfer' - a fyddai'n golygu cadw Cynllun Gofodol Cymru. Bydd hyn yn asesu goblygiadau ac effeithiau disodli Cynllun Gofodol Cymru a chael NDF yn ei le, gan fod y Gyfarwydddeb SEA yn mynnu y rhoddir ystyriaeth i agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r esblygiad tebygol heb y cynllun, ynghyd â nodweddion amgylcheddol ardaloedd lle mae'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol. Bydd agweddau eraill hefyd yn cael eu hystyried yn rhan o'r opsiwn 'gwneud dim', megis dylanwad allanol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu'r heddlu ar welliannau mewn lefelau troseddau neu iechyd er enghraifft, gan nad yw'r Cynllun Gofodol Cymru yn gweithredu ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, dylanwad cynllunio fydd prif ystyriaeth yr asesiad.

3.1 Crynodeb o'r Asesiad o Opsiynau Eraill (24 Tachwedd 2018)

Mae Tabl 3-1 yn cyflwyno crynodeb o sgoriau'r asesiad ar gyfer pob un o'r opsiynau eraill a ddisgrifir uchod. Mae'r tablau llawn, sy'n cynnwys sylwadau, wedi'u cyflwyno yn Atodiad C.

Fel y gwelir yn y tabl cryno, Opsiwn Arall 1 (opsiwn sy'n canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf) sy'n perfformio waethaf wrth ei asesu yn erbyn amcanion yr ACI. Rhagwelir effeithiau negyddol cryf yn erbyn 3 o amcanion yr ACI (yn ymwneud ag iechyd a llesiant; cydlyniant cymunedol a chydaddoldeb; a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau). Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn. Gallai'r cynnydd mewn ffyniant ar draws yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf arwain at gynydd mewn anghydraddoldeb, rhwng ardaloedd trefol a gwledig, ac yn enwedig ardaloedd o amddifadedd presennol megis y Cymoedd ac arfordir y Gogledd. Nid yw'r opsiwn wedi'i ategu gan egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, felly ceir potensial i ddatblygiadau yn yr ardaloedd twf gael eu harwain yn bennaf gan nodau economaidd, a fyddai'n arwain o bosibl at effeithiau negyddol. Ceir rhai manteision i'r opsiwn hwn, o ran bod yr opsiwn yn ceisio cyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ond mae'n canolbwyntio ar ardaloedd twf penodol yn hytrach nag ar bob rhan o Gymru. Mae'n annhebygol felly y bydd yn cyfrannu at gynhwysiant economaidd ledled y wlad. Serch hyn, mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol arwyddocaol o ran gwella mynediad at swyddi mewn ardaloedd twf, cynyddu nifer y bobl sy'n fodlon â'u swyddi a chreu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad a thwf a datblygu sgiliau, yn arbennig mewn dinas-ranbarthau.

Roedd Opsiwn Arall 2 (opsiwn sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau cryfion ar draws Cymru) wedi perfformio yn well o lawer nag Opsiwn Arall 1, a rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn chwech o

amcanion yr ACI (yn ymwneud ag: addysg; iechyd a llesiant; ansawdd aer; cysylltedd cymunedau; cydlyniant cymunedau a chydarddoldeb; a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol). Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ymagwedd wasgaredig ar sail anghenion lleol, a allai leihau anghydarddoldebau ac arwain at gynydd mewn buddion ar draws yr holl gymunedau. Gallai gwella hygyrchedd o fewn cymunedau gwledig a throï'r llanw o ran lleihad yn y boblogaeth arwain at gynydd mewn mynediad a hyfywedd o ran darparu cyfleusterau, gan gynnwys mannau agored a chynyddu mynediad at yr amgylchedd naturiol, a allai gael effeithiau buddiol pwysig. Mae'r opsiwn yn cefnogi creu cymunedau cynaliadwy, lleoedd wedi'u dylunio a'u cynllunio'n dda a fyddai'n gallu addasu i risgiau newid yn yr hinsawdd. Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol cryf i'r opsiwn hwn.

Roedd yr asesiad o Opsiwn Arall 3 (opsiwn i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd) hefyd wedi arwain at ragfynegi effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn chwech o amcanion yr ACI (yn ymwneud ag iechyd a llesiant; effeithlonrwydd ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr; cysylltedd cymunedau a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol). Byddai'r opsiwn hwn yn rhagweld risgiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried y rhain, wedi'u llywio ganddynt ac yn gydnerth yn wyneb y risgiau hyn. Rhydd bwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd aneddiadau yn tyfu ac yn cysylltu, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol arwyddocaol. Mae'r opsiwn hefyd yn ceisio helpu cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn. Rhagwelwyd ansicrwydd o ran yr opsiwn hwn. Bydd yr NDF yn cefnogi newidiadau mawr i batrymau datblygu a ffurfiau trefol, er mwyn cyfrannu at wireddu economi carbon isel. Mae beth y mae hyn yn ei olygu o ran datblygiadau adeiledig yn aneglur ac fe allai olygu datblygu mwy o dai a seilwaith mewn lleoliadau 'cynaliadwy', a allai gael effaith negyddol ar y dirwedd; sŵn a llygredd; ardaloedd o lonyddwch ac asedau treftadaeth. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r lleoliadau mwyaf priodol ac yn darparu fframwaith i gefnogi ei ddarpariaeth. Mae potensial i rai datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy gael effeithiau arwyddocaol ar y dirwedd (a'r treflun a'r forwedd) ac effeithiau gweledol, ond bydd hyn yn dibynnu ar y dyluniad a'r lleoliad. Yn ogystal, ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pa un a allai'r opsiwn arwain at effeithiau negyddol cronus ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth; gan y gallai llawer o'r ardaloedd y dywedir eu bod yn addas ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy gynnwys safleoedd maes glas heb eu datblygu ger cymunedau gwledig presennol.

Rhagfynegwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn saith o amcanion yr ACI yn yr asesiad o Opsiwn Arall 4 (opsiwn sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy) (yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr; gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd; ansawdd aer; ansawdd y dŵr; tirweddau a threfluniau; bioamrywiaeth a geoamrywiaeth; a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol). Mae'r opsiwn yn cynnwys pwyslais sylweddol ar wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, yn seiliedig ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) sydd â'r nod o greu Cymru yn wlad carbon-isel, economi werdd, sy'n barod i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Byddai'r opsiwn yn ceisio cyflawni egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys lleihau llygredd, gan osgoi'r effeithiau. Mae'n canolbwyntio'n gryf iawn ar gadwraeth yr amgylchedd naturiol, er ei fod hefyd yn hyrwyddo elfen o ddatblygu gwledig. Mae'n cydnabod y ffordd y mae'r amgylchedd naturiol yn ategu cynaliadwydd economaidd ac mae'n rhoi pwyslais cryf iawn ar ddiogelu'r amgylchedd.

Ni ragfynegwyd unrhyw effeithiau cryf ar gyfer yr opsiwn 'gwneud dim'. Er y byddai Cynllun Gofodol Cymru a pholisïau eraill yn parhau ar waith heb yr NDF, byddai tueddiadau megis amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y De a rhai o drefi arfordirol y Gogledd, yn debygol o barhau, gan arwain at gyfuniad o effeithiau a allai fod yn gadarnhaol neu negyddol heb weithredu'r NDF. Yn ogystal, heb gyfeiriad strategol yr NDF, mae'n bosibl na fydd modd gwireddu'r potensial i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chymryd ymagwedd genedlaethol tuag at reoli amgylcheddol a'r perygl o lifogydd, a hynny wrth gymhwyso datblygiadau newydd a thwf economaidd.

Tabl 3-1: Crynodeb o'r Asesiad o Opsiynau Eraill

Amcan yr ACI	Opsiwn Arall				
	1	2	3	4	5
1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd	+/-	++	+	+/-	+

Amcan yr ACI	Opsiwn Arall				
	1	2	3	4	5
am oes					
2. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	--	++	++	+	+
3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	+	+	+	+/-	+/-
4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	+/-	+	+	-	+/-
5. Cyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg a llesiant y Gymraeg	+/-	+	+	+	+
6. Creu amodau lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	-	+	++	++	+
7. Annog gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	-	+	++	++	+
8. Annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer	-	++	++	++	+/-
9. Cyfrannu at ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr	+/-	+	+	++	+
10. Gwella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp	+/-	++	++	+	+
11. Creu'r amodau ar gyfer gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb	--	++	+	+	+
12. Annog darpariaeth tai fforddiadwy, diogel, o ansawdd da, sy'n diwallu anghenion a nodwyd	+/-	+	+/-	-	+/-
13. Annog gwaith i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau	-	+/-	?	++	-
14. Annog cadwraeth a gwella asedau treftadaeth	-	+	?	+	+
15. Annog diogelu a hyrwyddo diwylliant Cymru	+/-	+	+	+	+
16. Annog cadwraeth a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	+/-	+	+/-	++	+
17. Annog defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol	--	++	++	++	+/-

3.2 Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir

Mae Atodiad C yn cyflwyno canfyddiadau'r asesiad o opsiynau'r NDF. Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy'r broses ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a bu'r profion yn gymorth i lywio datblygiad yr Opsiwn a Ffefrir. Rhoddwyd ystyriaeth i holl ganlyniadau'r profion - cadarnhaol, negyddol a niwtral - yr erbyn yr holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn yr Atodiad yn tynnu sylw at y canfyddiadau a sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Rhoddwyd ystyriaeth i effeithiau pob un o'r opsiynau yn erbyn pob un o amcanion yr ACI.

Mae'r Opsiwn a Ffefrir yn opsiwn hybrid sydd wedi ceisio ymgorffori llawer o fuddion yr opsiynau eraill. Mae Tabl 3-2 yn rhoi crynodeb o ba fuddion o bob opsiwn arall sydd wedi'u cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir.

Tabl 3-2: Crynodeb o Elfennau sydd wedi'u cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir

Amcan yr ACI	Opsiynau a berfformiodd yn gadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn	Agweddau perthnasol a gafodd eu cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir (Cyfeirnod yr Opsiwn a Ffefrir wedi'i roi yn y cromfachau – gweler Adran 4)
1	2, 3	• Creu cymunedau sy'n fwy cydlynus a chydrradd (P3, P2, PE9, AS1) • Pwysigrwydd seilwaith cymdeithasol wrth greu lleoedd (P3, AS1) • Gwyrddio'r datboblogeiddio gwledig (R1, R2, R3, R4, PE6) • Gwelliannau i gysylltedd digidol (PE3) Mewn ymateb i'r ansicrwydd posibl a nodir gan Arcadis o ran cyflawni heb yr ysgogiadau economaidd a'r cryfderau y gellid eu cyflawni o dan opsiwn 1 (Strategaeth Ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf) mae pwyslais cryf yn yr opsiwn a ffefrir ar gefnogi amcanion economaidd (P3, PE5, PE6, PE7, PE9).
2	2, 3, 4, 5	• Gwellu hygyrchedd mewn cymunedau gwledig a gwyrddio'r cwmp yn y boblogaeth (P3, AS1, AS4, R4) • Cynyddu mynediad at yr amgylchedd naturiol (P2, DN3, DN5) • Cymunedau cynaliadwy wedi'u cynllunio a'u dylunio'n dda (P2, P3, AS1, AS4, R1) • Ymaddasu i risgiau o ran y newid yn yr hinsawdd/ gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd (P1, P2) • Cyflawni prosiect ynni adnewyddadwy bach (P2, PE2) • Datgarboneiddio'r economi (P1, PE8) • Wrth ddefnyddio lleoliadau cynaliadwy, gwellu cysylltedd a chynyddu dulliau teithio llesol (P2, AS4) • Pwyslais ar gymunedau gwledig (P2, P3, R4, R5) • Lleihau llygredd aer, llygredd dŵr a mathau eraill o lygredd (P1, P2, P3, DN2) • Cynyddu mannau gwyrdd (DN3, DN5) • Gwellu darpariaeth gwasanaethau iechyd (P2, R3, R4)
3	1, 2, 3	• Cyfrannu at gynhwysiant economaidd ledled y wlad (P1, P3, PE3, PE5, PE6, AS1) • Gwellu mynediad at swyddi mewn ardaloedd twf (P1, PE4, PE5, PE6, PE7, AS1) • Dinas-ranbarthau (PE5, PE6, AS1, R3) • Cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad (P1, PE1, PE3, PE4, PE5) • Cefnogi arbenigedd a chlystyrau mewn rhai ardaloedd (R1, R5) • Seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol (PE8, R3, R4)
4	2, 3	• Cefnogi amrywiaeth yr economi leol (P3, PE5, PE6, PE9, PE10, AS1, R1) • Cymorth i BBaChau, y trydydd sector a micro-fusnesau (P3, PE5, PE6, R1) • Gwellu'r economi gwledig ac amrywio gwledig (P3, PE4, PE5, PE6, AS1, R1, R4, R5) • Cymorth ar gyfer economi gynaliadwy a thwf mewn sectorau sy'n gysylltiedig â hyn (P1, PE4, PE5, PE6, R1) • Cyflawni seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy (P3, PE8, AS4, R3,

Amcan yr ACI	Opsiynau a berfformiodd yn gadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn	Agweddau perthnasol a gafodd eu cynnwys yn yr Opsiwn a Ffeifrif (Cyfeirnod yr Opsiwn a Ffeifrif wedi'i roi yn y cromfachau – gweler Adran 4)
		R4) Mewn ymateb i'r potensial i gyfyngu ar gystadleurwydd a thwrf economaidd a buddsoddiad a nodwyd gan Arcadis drwy ganolbwyntio ar dwf gwyrdd a datgarboneiddio, mae'r Opsiwn a Ffeifrif yn cynnwys pwyslais cryf ar gefnogi amrywiaeth o gyfleoedd twf a buddsoddiad (R1, R3, R5, PE5, PE6, PE9)
5	2, 3, 4, 5	- Pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn cyfleoedd lleol (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1) - Cymunedau mwy cynaliadwy (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1) - Ceisio gwyrddroi'r datboblogeiddio gwledig, gan arwain at gynnydd yn hyfywedd a bywyd cymunedau gwledig, gan gynnwys y rhai Cymraeg eu hiaith (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1, R4, R5)
6	2, 3, 4	- Lleihau allyriadau niweidiol (P1, P2, P3, DN2, DN5, PE8) - Datblygu patrwm cynaliadwy o fyw trwy ddylunio cynaliadwy a dewisiadau lleoliadol (P1, P2, P3, DN2, AS1, R3, R4) - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (P1, P3) - Lleihau'r angen i deithio trwy ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy (P1, P2, P3) - Galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol (P2, PE2) - Lleihau'r angen i deithio (P2, P3, PE3, AS4)
7	3, 4	- Rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) - Rhagweld ac ymaddasu i'r risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) - Meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8)
8	2, 3, 4	- Lleihau teithio ar hyd y prif goridorau traffig yn yr ardaloedd trefol mwy a helpu i wasgaru hyn i gymunedau ehangach (P1, P2, P3, DN2, PE8, R1) - Lleihau'r angen i deithio (P1, P2, P3, AS1) - Annog cerdded, beicio a gweithio o gartref (P1, P2, P3, PE3, AS4) - Datblygu mentrau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned (P1, P2, PE2)
9	2, 3, 4	- Defnydd effeithlon o ddŵr a lleihau llygredd (P2, P3, DN1, DN2) - Cynnal yr amgylchedd naturiol a fyddai'n cynnwys ansawdd ac adnoddau dŵr (P2, P3, DN1, DN2) - Cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (P3, DN1, DN2)
10	2, 3	- Cefnogi teithio llesol (P2, AS4) - Lleihau defnydd o geir preifat (P1, PE3, AS1, R1) - Sicrhau bod mynediad lleol at swyddi a gwasanaethau (P3, PE3, PE6, AS1, R1, R3, R4, R5)

Amcan yr ACI	Opsiynau a berfformiodd yn gadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn	Agweddau perthnasol a gafodd eu cynnwys yn yr Opsiwn a Ffeifrif (Cyfeirnod yr Opsiwn a Ffeifrif wedi'i roi yn y cromfachau – gweler Adran 4)
		- Darparu seilwaith cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig (P2, P3, PE9, R1, R3, R4) - Gwyrddroi'r cwmp yn y boblogaeth wledig (PE3, PE6, AS1, R1, R4, R5) - Sicrhau cysylltedd rhwng gwahanol fathau o ddefnydd (AS1, R1, R3, R4) - Blaenoriaethu cerdded, beicio, trydaneiddio'r rheilffordd a thrafnidiaeth gyhoeddus (P2, PE8,)
11	2, 3, 4	- Lleihau anghydraddoldebau (P2, P3, DN2, PE9, AS1, R1) - Sicrhau mynediad i bawb at gyfleusterau, gwasanaethau a thai (P2, P3, PE3, AS1, R1) - Canolbwyntio ar gefnogi ardaloedd gwledig (P3, PE2, PE6, R4, R5) - Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd (P1, P2, P3, DN, AS42, R4)
12	2	- Pwyslais ar gyflawni ledled Cymru (P2, P3, AS1, AS2, AS3, R2, R3, R4) - Darparu tai fforddiadwy o safon i ddiwallu anghenion pobl (P2, P3, AS1, AS2, AS3) Nododd profion yr opsiynau bryderon o ran darparu tai ar raddfa fwy a diwallu'r anghenion a nodir. Mae rhannau AS3 a R2 yr opsiwn a ffeifrif yn ymdrin â'r materion hyn, ac yn ceisio darparu cyfeiriad cenedlaethol a gofodol trwy'r NDF ar gyfer darparu tai ledled Cymru.
13	4	- Cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a thirweddau (P1, P3, DN1, DN2, DN3, DN4, PE10) - Gwella'r amgylchedd naturiol a thirweddau (P1, DN1, DN2, DN3, DN4, PE10) - Cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau a mannau lleol (P2, DN3, DN5, AS1)
14	2, 4	- Cydnabod pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth (DN3, DN6, PE10) - Cydnabod pwysigrwydd tirweddau hanesyddol (DN3, DN6, PE10) - Cydnabod ac ystyried y berthynas rhwng treftadaeth ac amcanion eraill (e.e. ynni) (DN3, DN6, PE10)
15	2, 3, 4	- Sicrhau pwyslais lleol (P3, DN6, PE6, R1, R3, R4) - Gwella mynediad at asedau a gweithgareddau treftadaeth ddiwylliannol (P2, P3, DN5, DN6, AS1, AS4, R3, R4) - Cydnabod yr amgylchedd naturiol a threftadaeth yn rhan nodweddiadol o ddiwylliant Cymru (DN1, DN3)
16	2, 4	- Meithrin cadernid mewn ecosystemau a chynefinoedd (P1, P2, P3, DN1, DN2, DN4) - Blaenoriaethu goblygiadau adnoddau naturiol (P1, P2, DN1, DN2, DN4)
17	2, 3, 4	Cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, DN3, PE1, PE4, R1)

Amcan yr ACI	Opsiynau a berfformiodd yn gadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn	Agweddau perthnasol a gafodd eu cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir (Cyfeirnod yr Opsiwn a Ffefrir wedi'i roi yn y cromfachau – gweler Adran 4)
		- Cefnogi atebion sydd wedi'u seilio ar natur (P1, P2, DN1, DN2, DN5) - Cynyddu cadernid mewn ecosystemau a chynefinoedd (P2, P3, DN2, DN4)

4 OPSIWN A FFEFRIR YR NDF

Yn dilyn yr asesiad o'r Opsiynau Eraill, mireiniodd tîm Llywodraeth Cymru opsiynau'r NDF, gan ddatblygu Opsiwn a Ffefrir. Mae'r fersiwn a gaiff ei hasesu yn rhan o'r broses asesu hon wedi'i chynnwys yn Atodiad D. Defnyddiwyd adborth o'r ACI ar yr Opsiwn a Ffefrir i fireinio'r Opsiwn a Ffefrir terfynol, sef yr opsiwn dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn, ochr yn ochr ag Adroddiad Interim yr ACI.

Mae'r Opsiwn a Ffefrir wedi'i ddatblygu ar sail pum thema, sy'n adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru, argraffiad 10:

- Creu lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

Ar y cam hwn, mae'r Opsiwn a Ffefrir wedi'i asesu ar lefel uchel. Bydd asesiad manwl pellach yn cael ei gynnal ar y cam ACI nesaf, sef asesiad o'r NDF drafft. Mae Tabl 4-1 yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r asesiad. Gellir gweld y tablau asesu llawn, a'r fersiwn o'r Opsiwn a Ffefrir a aseswyd, yn Atodiad D.

4.1 Crynodeb o'r Asesiad

Yn gryno, rhagfynegwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn chwech o amcanion yr ACI, heb unrhyw effeithiau negyddol cryf wedi'u rhagfynegi. Rhagfynegwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn amcan 2 yr ACI (iechyd a llesiant); 3 (cyflogaeth); 4 (twf economaidd); 10 (cysylltedd cymunedau); 11 (cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb); a 17 (defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol). Rhagfynegwyd y byddai dau o amcanion yr ACI yn arwain at gyfuniad o effeithiau cadarnhaol a negyddol. Mae argymhellion ar gyfer gwelliannau i ystod o amcanion yr ACI wedi'u nodi yn Adran 4.2.

Nod yr NDF yw darparu fframwaith polisi cryf, i sicrhau bod canlyniadau iechyd a llesiant, ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, wrth wraidd penderfyniadau ar gynllunio gofodol. Bwriad yr ymagwedd ranbarthol yw sicrhau na chaiff cymunedau o amddifadedd a chymunedau dan anfantais eu heffeithio'n anghymesur gan anghydraddoldebau iechyd, ac fe allai arwain at gynnwys yn y mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ar ben hyn, mae'r agenda datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yn ceisio creu cydnerthedd cenedlaethol i effeithiau newid yn yr hinsawdd, sydd yn debygol o arwain at fuddion iechyd a llesiant cronrus a hirdymor. Mae'r thema 'Creu lleoedd' troswaol, a'r Opsiwn a Ffefrir yn fwy cyffredinol, yn cynnwys manylion yn ymwneud â'r elfennau sy'n pennu cydlyniant cymunedol, a all gynnwys elfennau megis y Gymraeg, anghenion tai, cysylltedd a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae creu cyfleoedd ar gyfer gwella cysylltedd cymunedau, gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a mynediad cynaliadwy at gyfleusterau yn thema allweddol o'r Opsiwn a Ffefrir ac mae'n sail i lawer o'r polisiâu strategol, gan arwain at fuddion arwyddocaol o bosibl.

'Lleoedd Cynaliadwy' yw nod yr NDF. Mae cysylltedd a seilwaith digidol yn elfennau o hyn, a allai gynyddu mynediad ffisegol at gyfleoedd cyflogaeth i fwy o gymunedau ledled Cymru. Mae'r thema 'creu lleoedd' troswaol hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cynhwysiant economaidd yn egwyddor bwysig o'r NDF, a bod yn rhaid i'r system gynllunio adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd ac yn cynnig amgylchedd lle gall busnesau dyfu a ffynnu. Un o nodau allweddol yr Opsiwn a Ffefrir yw y bydd Cymru yn

dod yn wlad ffyniannus a sicr. Elfen allweddol o'r newid hwn yw economi carbon isel, a allai esgor ar gyfleoedd a fyddai'n creu amrywiaeth eang o fuddion. Gallai'r ymagwedd ranbarthol, gan gynnwys nodi dinas-ranbarthau ac ardaloedd y fargen twf, esgor ar fuddion economaidd pellach, gan gynnig canolbwynt strategol ar gyfer buddsoddiad.

Datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yw un o seiliau allweddol yr NDF, ac mae agweddau sy'n ymwneud â hyn wedi'u hintegreiddio yn yr Opsiwn a Ffefrif. Gallai mesurau megis newid i economi carbon isel (PE4), gan gefnogi nodau datgarboneiddio strategol Llywodraeth Cymru, arwain at fuddion sylweddol. Gallai hyn gael ei gryfhau ymhellach gan bwyslais cadarn yr Opsiwn a Ffefrif ar wella cysylltedd cymunedau drwy fesurau teithio llesol (AS1, AS4, R3 a R4), datgarboneiddio trafndiaeth (rhan o PE8), cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel (PE1, PE2), a gweithredu mesurau seilwaith gwyrdd (DN5) a gwelliannau amgylcheddol eraill (DN3 a DN4). Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd presennol, a'i ehangu (AS5 a rhan o PE8), er mwyn lleihau tagfeydd yn y tymor byr neu'r tymor canolig, ond yn y tymor hwy, gallai hyn arwain at gynnydd yng nghyffwrdd y traffig, gan esgor ar effeithiau negyddol o ran allyriadau nwyon tŷ gwyrdd ac ansawdd aer, er bod yr effaith hon yn ansicr. At ei gilydd, gellid gweld effeithiau cadarnhaol gwan, yn arbennig ar gyfer ansawdd aer lleol, wrth i ffyrdd newydd a adeilidir helpu i wella ansawdd aer mewn cymunedau. Yn ogystal, er bod tai 'o ansawdd uchel' wedi'i nodi yn y thema 'Creu lleoedd', nid yw wedi'i gynnwys yn y blaenoriaethau strategol, a allai arwain at ansicrwydd posibl o ran cyflawni'r agenda datgarboneiddio.

Dylai'r polisiâu a gynhwysir yn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', gan gynnwys gwarchod a gwella tirweddau, morweddau a safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd o bwys cenedlaethol (DN3), yn ogystal ag atgyfnerthu cydnertheddd ecosystemau (DN4) a hwyluso seilwaith gwyrdd (DN5), arwain at effeithiau cadarnhaol ar gyfer y dirwedd ac ecoleg. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad i wella'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a'i ehangu (AS5), i leihau tagfeydd yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond yn y tymor hwy, gallai hyn arwain at gynnydd yng nghyffwrdd y traffig gan arwain at effeithiau negyddol, yn enwedig o ran llygredd sŵn yn y De-ddwyrain. Gallai hyn gael ei waethgu fwy fyth gan Bolisi R3, yn ymwneud â datblygu dinas-ranbarthau ac ardaloedd twf, a allai hefyd gael effeithiau negyddol o ran y trefflun. Fodd bynnag, gallai'r polisi seilwaith gwyrdd (DN5) liniaru'r effeithiau hyn i ryw raddau. Gallai effeithiau negyddol posibl pellach ar y dirwedd ddeillio o brosiectau seilwaith ynni adnewyddadwy neu brosiectau trafndiaeth o bwys cenedlaethol. Fodd bynnag, gallai'r effeithiau gael eu lliniaru ar lefel y prosiect neu gan bolisiâu cynllunio penodol. Gallai polisiâu sy'n ymwneud â datblygu ardaloedd mwy gwledig, megis R1, R2, a R4, arwain at effeithiau negyddol ar ardaloedd o lonyddwch ac ardaloedd awyr dywyll.

Tabl 4-1: Crynodeb o Asesiad yr Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeifrif

Amcan yr ACI	Opsiwn a Ffeifrif
1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	+
2. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	++
3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	++
4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	++
5. Cyfrannu at warchod y Gymraeg a llesiant y Gymraeg	+
6. Creu'r amodau lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	+/-
7. Annog gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	+
8. Annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer	+
9. Cyfrannu at ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr	+
10. Gwella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp	++
11. Creu'r amodau ar gyfer gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb	++
12. Annog darpariaeth tai fforddiadwy, diogel, o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd	+
13. Annog gwaith i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau	+/-
14. Annog cadwraeth a gwella asedau treftadaeth	+
15. Annog diogelu a hyrwyddo diwylliant Cymru	+
16. Annog cadwraeth a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	+/-
17. Annog defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol	++

4.2 Argymhellion

Er y rhagfynegir effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd, ystyriwyd drwy'r ACI fod yna le i gryfhau'r potensial i'r NDF gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol yn arbennig. Er mwyn gwella'r potensial i'r Opsiwn a Ffeifrif gyfrannu tuag at amcanion yr ACI, gwnaed nifer o argymhellion, a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru. Cofnodir yr argymhellion hyn, a sut y cawsant eu hystyried, yn Atodiad D.

Gwnaed y diwygiadau uniongyrchol a ganlyn ar gyfer yr Opsiwn a Ffeifrif drafft terfynol, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn:

- Mae nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi'i gynnwys yn yr Opsiwn a Ffeifrif, a hynny yn yr adran Creu Lleuedd o dan 'Cymunedau Cydlynus a'r Gymraeg'
- Mae polisi DN2 wedi'i ailddrafftio i gynnwys osgoi perygl llifogydd.

Er bod argymhellion wedi'u gwneud yn erbyn pob un o amcanion yr ACI, ystyriwyd na ddylid gwneud ond y ddau newid uchod ar y cam hwn o ddrafftio'r NDF. Mae'r rhesymau allweddol pam na chafodd newidiadau eraill eu gwneud ar y cam hwn yn perthyn yn fras i'r ddau gategori a ganlyn:

- Dylid darllen yr NDF fel cyfanwaith ac mae'r darpariaethau i fynd i'r afael ag argymhellion penodol o'r ACI eisoes wedi'u trafod yn rhan arall o'r Opsiwn a Ffefrir.
- Mae'r cam presennol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r NDF, gan osod yr amcanion strategol allweddol a chyfeiriad gofodol ar gyfer paratoi'r NDF. Mae rhai o'r newidiadau a awgrymwyd yn fanwl iawn ac yn fwy addas i'w hystyried ar gam nesaf y broses, pan fydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni amcanion yr NDF.
- Ers ail-ddrafftio'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, mae'r geiriad y cyfeiriwyd ato yn argymhelliad yr ACI wedi'i dynnu o'r testun neu nid yw'r argymhelliad yn berthnasol mwyach.

4.3 Yr Opsiwn a Ffefrir yr Ymgynghorir arno (19 Chwefror 2018)

Hon yw'r fersiwn o'r Opsiwn a Ffefrir yr ymgynghorir arno, sydd wedi rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau'r ACI.

Opsiwn a Ffefrir yr NDF: Lleoedd Cynaliadwy

Yr Opsiwn a Ffefrir

Mae'r opsiwn a ffefrir yn amlinellu'r fframwaith gofodol ar gyfer datblygu'r Fframwaith. Mae'n nodi'r materion gofodol a fydd yn cael eu cynnwys a bydd yn sail i ddatblygu'r Fframwaith o haf 2018 ymlaen. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r opsiwn a ffefrir, gan nodi'r tri amcan creu lleoedd trosfwaol y dylai pob penderfyniad eu cefnogi, ac mewn pedwar maes thematig, y materion eraill y bydd y Fframwaith yn eu cynnwys ac yn darparu cyfeiriad gofodol iddynt. Mae'r amcanion creu lleoedd a'r meysydd thematig yn adlewyrchu strwythur arfaethedig Polisi Cynllunio Cymru.

Lleoedd Cynaliadwy

Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran allweddol i'w chwarae er mwyn creu lleoedd cynaliadwy. Mae'n darparu fframwaith i gyflawni ein hamcanion gofodol ac yn cydgysylltu camau gweithredu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yn 2040.

Mae'r Opsiwn a Ffefrir yn amlinellu fframwaith ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'n nodi'r materion gofodol yr ymdrinnir â hwy a'r cyfeiriad strategol ar gyfer y polisiau a fydd yn y Fframwaith. Cyflwynir yr Opsiwn a Ffefrir drwy 5 maes:-

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

Dylid darllen yr Opsiwn a Ffefrir, a'r Fframwaith a fydd yn cael ei ddatblygu maes o law, ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu polisiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu'r cyd-destun llawn ar gyfer y themâu a'r cyfeiriad er mwyn paratoi'r Fframwaith. Bydd y Fframwaith yn amlinellu elfennau gofodol y polisi cynllunio cenedlaethol ac ni fydd yn ailadrodd cynnwys Polisi Cynllunio Cymru. Drwy weithio gyda'i gilydd bydd Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith yn ein helpu i sicrhau lleoedd cynaliadwy.

Creu Lleoedd

Er mwyn helpu i greu lleoedd cynaliadwy, bydd y Fframwaith yn sicrhau bod creu lleoedd yn elfen ganolog o'r system cynllunio datblygu. Bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar dair agwedd ofodol o'r thema Creu Lleoedd – datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd; iechyd a llesiant; a chymunedau cydlynus a'r iaith Gymraeg.

Yn unol â'r dull gweithredu a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, y thema creu lleoedd yw'r egwyddor gyntaf a ddefnyddir i ystyried dewisiadau gofodol. Rhaid i benderfyniadau i gefnogi themâu eraill ddangos yn gyntaf eu bod yn gydnaws â'r thema creu lleoedd.

Bydd polisiâu a dewisiadau gofodol sy'n cael eu gwneud yn y Fframwaith yn cefnogi amcanion datgarboneiddio, gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, iechyd a llesiant, cymunedau cydlynus a'r iaith Gymraeg. Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn sail i bob penderfyniad a wneir yn y dyfodol dan y Fframwaith.

P1 Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd

Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol drwy hwyluso twf glân a datgarboneiddio, a bydd yn helpu i ddatblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd newid i gymdeithas carbon isel yn arwain at gyfleoedd yn ymwneud â thwf glân a swyddi o safon, ac yn dod â manteision ehangach, gan gynnwys gwell lleoedd i fyw a gweithio ynddynt, aer a dŵr glân a gwell canlyniadau iechyd. Mae cyflawni nodau datgarboneiddio strategol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050, yn ysgogydd allweddol y mae'n rhaid i bob cynllun datblygu ei gefnogi.

P2 Iechyd a Llesiant

Bydd y Fframwaith yn darparu fframwaith polisi cryf a fydd yn nodi bod rhaid i iechyd corfforol a meddyliol a chanlyniadau llesiant, ar ein cyfer ni heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fod yn rhan ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau gofodol. Bydd y Fframwaith yn cydnabod y gall problemau iechyd gael mwy o effaith ar gymunedau difreintiedig a chymunedau sydd dan anfantais, a bydd ei bwyslais rhanbarthol yn golygu bod modd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol.

Rhaid i'r Fframwaith, a chynlluniau datblygu eraill, gydlynw'r gwaith o ddarparu seilwaith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys iechyd ac addysg, yn gysylltiedig ac yn hygyrch. Bydd y Fframwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i benderfynyddion cyffredinol iechyd. Er enghraifft, bydd camau er mwyn gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a pholisïau trafnidiaeth yn gwella ansawdd aer a dŵr ac yn darparu seilwaith cerdded a beicio a seilwaith gwyrdd i gefnogi ffyrdd iachach o fyw. Bydd lleihau tlodi tanwydd, drwy'r gefnogaeth i gynhyrchu ynni datganoledig, lleol a darparu tai o safon, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl.

P3 Cymunedau Cydlynus a'r Iaith Gymraeg

Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol yn y broses o greu cymunedau cydlynus. Mae cynllunio defnydd tir cryf a chynhwysol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymunedau heddiw a chymunedau'r dyfodol wedi'u cynllunio'n dda ac yn deg i bawb. Rhaid i'r system gynllunio chwarae ei rhan er mwyn sicrhau nad oes neb dan anfantais oherwydd pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw, a rhaid iddi gefnogi camau i roi sylw i'r problemau sy'n bodoli.

Rhaid i gynlluniau datblygu ar bob lefel sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghydraddoldeb iechyd ac anghydraddoldeb economaidd; bod pob aelod o'r gymdeithas yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys iechyd, addysg a seilwaith digidol; bod y system gynllunio'n hwyluso'r broses o ddarparu tir ar gyfer tai o safon sy'n diwallu anghenion y gymdeithas gyfan, mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn gysylltiedig; a bod cymunedau'n gallu gwrthsefyll bygythiadau amgylcheddol fel lifogydd, llygredd ac ansawdd aer gwael.

Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod cymunedau Gymraeg eu hiaith yn cael eu cefnogi ac yn creu amodau a fydd yn galluogi'r iaith i ffynnu. Bydd y Fframwaith yn cefnogi cymunedau drwy alluogi cyfleoedd cyflogaeth priodol a chynllunio ar gyfer darparu cartrefi newydd, fel bod newid yn y boblogaeth yn cael ei rheoli'n ofalus ac yn helpu i greu'r amodau er mwyn cyflawni amcanion iaith Gymraeg Llywodraeth

Cymru, gan gynnwys 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae cynhwysiant economaidd yn egwyddor bwysig a rhaid i'r system gynllunio adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd a darparu amgylchedd lle gall busnesau dyfu a ffynnu. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod seilwaith modern o safon, ffactor allweddol sy'n galluogi cystadleurwydd a chynhyrchiant, wedi'i gynllunio'n dda i fod yn gatalydd ar gyfer adfywio ehangach a chefnogi cymunedau bywiog.

Themâu

Mae'r adrannau a ganlyn o'r Opsiwn a Ffeifrif yn nodi'r mater gofodol y bydd y Fframwaith yn ei ystyried a'r cyfeiriad strategol lefel uchel ar gyfer datblygu polisïau'r Fframwaith yn y dyfodol. Mae'r **materion gofodol** yn faterion y gellir eu deall yn ofodol ac sydd â dimensiwn pwysig yn genedlaethol. Mae'r **cyfeiriad polisi strategol** yn darparu trosolwg lefel uchel o'r polisïau y gallai'r Fframwaith eu cynnwys a beth y byddant yn ceisio ei gyflawni. Nid ydynt yn bolisïau terfynol ac ni ddylent gael eu hystyried felly. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos y sail dros ddatblygu'r Fframwaith wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

Lleoedd Unigryw a Naturiol

Er mwyn helpu i greu Lleoedd Unigryw a Naturiol, mae Strategaeth Ofodol y Fframwaith yn canolbwyntio ar ein hadnoddau naturiol a'n diwylliant a'n treftadaeth unigryw. Bydd y cyfeiriad polisi a gofodol isod yn rhoi ffurf i'r Fframwaith.

Mater Gofodol

- DN1** Nodi adnoddau naturiol cenedlaethol.
- DN2** Nodi ardaloedd lle mae risg amgylcheddol ar hyn o bryd a lle gallai risg amgylcheddol fod yn y dyfodol.
- DN3** Bydd tirweddau, morweddau, safleoedd gwarchod natur a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu nodi. Bydd cyfleoedd ar gyfer twf, ehangu, mwy o gysylltedd a gwella yn cael eu nodi.
- DN4** Bydd ecosystemau o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu nodi.
- DN5** Bydd seilwaith gwyrdd o

Cyfeiriad Polisi Strategol

- Bydd polisïau'r Fframwaith yn cynnal ac yn gwella adnoddau naturiol, yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ac yn lleihau defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol.
- Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid i ddatblygiad newydd osgoi ardaloedd lle mae risg amgylcheddol a datblygu'r gallu i wrthsefyll risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd, ansawdd aer, ansawdd dŵr, tymheredd yn codi, colli cynefinoedd ac ecosystemau.
- Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid diogelu a gwella tirweddau, morweddau, safleoedd gwarchod natur a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid cryfhau gwytnwch ecosystemau o bwysigrwydd cenedlaethol drwy fwy o amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr a'r gallu i addasu.
- Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid

	bwysigrwydd cenedlaethol a chyfleoedd ar gyfer seilwaith newydd yn cael eu nodi.	diogelu a gwella a hwyluso'r gwaith o ddarparu seilwaith gwyrdd newydd.
DN6	Bydd asedau hanesyddol a diwylliannol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu nodi. Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiad diwylliannol cenedlaethol newydd yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid diogelu, hyrwyddo a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol, ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu datblygiad diwylliannol cenedlaethol newydd.

Lleoedd Cynhyrchol a Mentrus

Er mwyn helpu i greu Lleoedd Cynhyrchol a Mentrus, mae Strategaeth Ofodol y Fframwaith yn canolbwyntio ar sectorau allweddol a darparu seilwaith trafndiaeth, ynni a digidol modern, gwydn a charbon isel. Bydd y cyfeiriad polisi a gofodol isod yn rhoi ffurf i'r Fframwaith.

Mater Gofodol

Cyfeiriad Polisi Strategol

PE1	Bydd seilwaith cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei nodi. Bydd lleoliadau ar gyfer seilwaith cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd ar raddfa genedlaethol yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn ein helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 70 y cant o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2030, a chapasiti ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol yng Nghymru yn cyrraedd 1 GW erbyn 2030. Bydd y polisïau'n cefnogi cynhyrchu drwy dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel amrywiol a seilwaith storio a dosbarthu.
PE2	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith cynhyrchu a dosbarthu ynni datganoledig, lleol gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru.
PE3	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith digidol modern drwy Gymru gyfan, a byddant yn nodi bod rhaid ystyried capasiti technolegol wrth gynllunio datblygiad, seilwaith (gan gynnwys seilwaith trafndiaeth) ac ardaloedd twf ac adfywio newydd.
PE4	Bydd ardaloedd cyflogaeth, mwynau a gwastraff o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu nodi. Bydd lleoliadau ar gyfer twf newydd o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig â seilwaith cysylltedd ac ardaloedd twf, yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau sy'n helpu i gyflawni amcanion datgarboneiddio, newid i economi carbon isel, a'r economi gylchol.
PE5	Lleoliadau sy'n bodoli'n barod a lleoliadau newydd ar gyfer sectorau twf economaidd o bwysigrwydd	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau cenedlaethol allweddol. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys

	cenedlaethol.	hwyluso'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi eu twf.
PE6	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith i gefnogi twf, gan gynnwys twf yn y sectorau sylfaenol, sy'n cynnwys y sectorau gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu ledled Cymru.
PE7	Cymru – y ffin â Lloegr	Bydd polisïau'r Fframwaith yn hybu datblygu economaidd, defnydd tir a chynllunio trafndiaeth gofodol trawsffiniol, er mwyn sicrhau cynifer ag sy'n bosibl o ganlyniadau cadarnhaol, hirdymor i ranbarthau Cymru a'r rhanbarthau cyfagos.
PE8	Bydd ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu nodi. Bydd cynigion ar gyfer buddsoddiad seilwaith newydd, gan gynnwys trydaneiddio rheilffyrdd, canolfannau trafndiaeth gyhoeddus a chynlluniau metro yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer buddsoddiad yn y seilwaith trafndiaeth cenedlaethol presennol, ac mewn seilwaith trafndiaeth cenedlaethol newydd er mwyn datgarboneiddio'r sector trafndiaeth, gwella cysylltedd, effeithlonrwydd ac ansawdd aer.
PE9	Bydd ardaloedd adfywio sydd wedi'u targedu'n genedlaethol yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid i weithgareddau adfywio gefnogi manteision iechyd a lles a chanolbwyntio ar adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwydd a darparu amgylchedd i fusnesau dyfu a ffynnu.
PE10	Bydd dynodiadau'r Cynllun Morol Cenedlaethol a phrosiectau cenedlaethol sydd â chysylltiad morol-daearyl yn cael eu nodi.	Bydd polisïau'r Fframwaith yn darparu fframwaith i sicrhau bod prosiectau a pholisïau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r systemau cynllunio morol-daearyl yn cael eu cyflawni.

Lleoedd Actif a Chymdeithasol

Er mwyn helpu i greu Lleoedd Actif a Chymdeithasol, mae Strategaeth Ofodol y Fframwaith yn canolbwyntio ar ddull integredig o ddarparu seilwaith tai a theithio llesol strategol. Bydd y cyfeiriad polisi a gofodol isod yn rhoi ffurf i'r Fframwaith.

Mater Gofodol

Cyfeiriad Polisi Strategol

AS1	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid i ddatblygiad tai strategol fod wedi'i gysylltu â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol (gan gynnwys iechyd ac addysg) ac ardaloedd twf; a chefnogi'r nod o ddarparu gwell swyddi a chyfleusterau yn nes at adref.
AS2	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi bod rhaid i ddatblygiad tai strategol ddiwallu anghenion pawb a bod rhaid ystyried pa fath o dai sydd eu hangen ochr yn ochr ag ystyriaethau lleoliad a nifer.
AS3	Cymru gyfan	Bydd polisïau'r Fframwaith yn nodi

AS4 Bydd seilwaith teithio llesol cenedlaethol (yn cynnwys cerdded a beicio) yn cael ei nodi. Bydd gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol cenedlaethol presennol (yn cynnwys cerdded a beicio), a chyfleoedd ar gyfer seilwaith teithio llesol cenedlaethol newydd yn cael eu nodi.	amcanestyniad cenedlaethol, seiliedig ar bolisi, o'r boblogaeth a'r angen am dai, a fydd yn cynnwys ystod ar gyfer Cymru gyfan o niferoedd tai ar gyfer cyfnod y cynllun. Bydd polisiâu'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol cenedlaethol presennol (yn cynnwys cerdded a beicio) a seilwaith teithio llesol cenedlaethol newydd.
---	---

Rhanbarthau Cymru Mae Strategaeth Ofodol y Fframwaith yn darparu cyfeiriad ar gyfer y tri rhanbarth sydd yng Nghymru – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Er mwyn helpu i greu rhanbarthau cryf, gwydn ac unigryw, mae Strategaeth Ofodol y Fframwaith yn canolbwyntio ar dai strategol, darparu seilwaith cydgysylltiedig mewn ardaloedd borgen ddinesig a borgen twf a chefnogaeth i ardaloedd gwledig. Bydd y cyfeiriad polisi a gofodol isod yn rhoi ffurf i'r Fframwaith.	
<i>Mater Gofodol</i>	<i>Cyfeiriad Polisi Strategol</i>
R1 Bydd tri rhanbarth yn cael eu nodi – Gogledd Cymru, Canol a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.	Bydd polisiâu'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y fframwaith yn cefnogi twf sy'n seiliedig ar gryfderau penodol y rhanbarthau, er mwyn creu economïau mwy amrywiol a gwydn, a chymunedau cysylltiedig, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng rhanbarthau.
R2 Bydd tri rhanbarth yn cael eu nodi – Gogledd Cymru, Canol a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.	Bydd polisiâu'r Fframwaith yn nodi amcanestyniadau poblogaeth a thai rhanbarthol, seiliedig ar bolisi, ar gyfer pob rhanbarth, a fydd yn cynnwys ystod ranbarthol o niferoedd tai ar gyfer cyfnod y cynllun.
R3 Bydd ardaloedd dinas-ranbarthau a bargeinion twf yn cael eu nodi.	Bydd polisiâu'r Fframwaith yn darparu fframwaith ar gyfer ardaloedd dinas-ranbarthau a bargeinion twf cysylltiedig, hygyrch, sydd wedi'u cynllunio'n dda drwy ddarparu seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol, tai a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol cenedlaethol a rhanbarthol wedi'u cydgysylltu.

darparu fframwaith i hwyluso seilwaith ledled Cymru gyfan nawr ac yn y dyfodol, cydnabod bo technoleg newydd yn newid yn barhaus ac nid yw'n wybyddus beth fydd y gofynion o ran seilwaith ar hyn o bryd. Mae'r NDF yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru o gyflawni cwrdd o 100% ar gyfer band eang a gwasanaethau telathrebu ledled Cymru, a dylid darparu hyn ar lefel leol a rhanbarthol.	dan ddaear. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effeithiau hyn drwy ystyriaethau polisi manwl. Awgrymir y gellid byrhau geiriad yr amcan, i ddileu'r manylion am weithrediad yr amcan.	Cymru.	dan ddaear. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effeithiau hyn drwy ystyriaethau polisi manwl. Mae'r amcan wedi'i ei wneud yn fwy cryno, gan adlewyrchu'r argymhelliad yn y fersiwn flaenorol o'r asesiad.		Cymru.	
		12.Cymunedau Cydlynus			12.Cymunedau Cydlynus	
		12.1 Cefnogi cyflawni cymunedau cydlynus.	Mae Amcanion yr NDF yn gydnaws ag Amcanion yr ACI ar y cyfan, ond nid oes cysylltiad clir wedi'i wneud â'r amcanion amgylcheddol, gan fod manylion pellach ynglŷn â mesurau gweithredu yn anhysbys ar hyn o bryd. Gallai cyflawni	Ystyrir bod cydlyniant cymunedol yn ehangach na dim ond iechyd a llesiant ac mae angen eu cadw ar wahân.	12.1 Cefnogi cyflawni cymunedau cydlynus	Nid oes angen newid.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Fersiwn Gyntaf	Sylwadau ACI	Ail Fersiwn	Sylwadau ACI	Rhesymau dros y newidiadau rhwng y fersiwn gyntaf a'r ail	Trydedd Fersiwn	Rhesymau dros y newidiadau rhwng yr ail a'r drydedd fersiwn
			'cymunedau' gynnwys rhaglenni adeiladu sylweddol, a allai achosi effeithiau amgylcheddol negyddol. Awgrymir y gellid cynnwys yr amcan yn amcan 10, gan yr ystyrir y byddai llawer o'r canlyniadau neu'r goblygiadau polisi yn debyg.			

ATODIAD C

Arfarnu'r Opsiynau Eraill

Yr Opsiynau Eraill

Opsiwn 1

Opsiwn Arall 1 – Strategaeth ofodol a fydd yn canolbwyntio'r twf yn ardaloedd cryfaf y farchnad
Trosolwg Cryno
Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio datblygiad a thwf hirdymor Cymru o amgylch ardaloedd cryfaf y farchnad. Ei nod yw cefnogi twf economaidd yn yr ardaloedd lle mae'r marchnadoedd ar eu cryfaf ac sydd â'r potensial gorau i dyfu. Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod bod i lawer o amcanion – amddifadedd, adfywio, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, iaith, cadernid adnoddau naturiol – gysylltiad uniongyrchol â ffynnu economaidd. Rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('y Fframwaith') fydd llywio'r twf tuag at yr ardaloedd hyn a darparu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi twf. Wrth ddarparu seilwaith o bwys, bydd yn arfer dull o'r-brig-i-lawr. Bydd yn gwneud opsiynau clir ynghylch pa rannau o Gymru fydd yn tyfu a sut y dylent dyfu. Bydd y system gynllunio yn ymateb i gyfleoedd i gefnogi twf economaidd ac ni fydd yn cyfyngu ar fuddsoddi, na pheri oedi mewn buddsoddi, yn yr ardaloedd twf a nodwyd.
Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?
Roedd cytundeb barn yn ystod yr ymgysylltu ar ddechrau 2017 ynghylch yr angen am gynllun gofodol cenedlaethol i ddarparu fframwaith ar gyfer seilwaith ac iddo bwys cenedlaethol. Nodwyd pwysigrwydd yr angen am fwy o sicrwydd a darparu cyflym. Cydnabuwyd hefyd mai'r haen gynllunio genedlaethol yw'r un briodol ar gyfer cynllunio anghenion cenedlaethol. Ni all cynllunio lleol a rhanbarthol gydbwyso effeithiau lleol â buddiannau cenedlaethol yn hawdd. Dywedwyd wrthym fod angen dull o'r-brig-i-lawr clir i ymdrin â materion cenedlaethol. Cydnabuwyd bod llawer o'r heriau a wynebier yng Nghymru yn deillio o faterion economaidd ac y gellir mynd i'r afael â llawer o faterion iechyd, amddifadedd, llesiant ac eraill drwy wella amgylchiadau economaidd. Yn y tymor hir, mae angen cefnogi economi ddeinamig, sy'n tyfu. Cydnabuwyd y daw busnesau cryf a buddsoddi newydd â sawl budd i Gymru. Mae angen cefnogi buddsoddi a thwf economaidd. Nodwyd bod meddylfryd 'cadw ar wahân' a dulliau nas cydlynwyd yn golygu nad yw buddsoddi yn canolbwyntio ar nod clir a bod diffyg cysondeb i benderfyniadau'r system gynllunio. Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar dwf economaidd yn gyfle i sicrhau mai'r un nod sy'n sail, ym mhob haen, i bob penderfyniad ynghylch defnydd tir. Mae angen sicrhau canolbwynt economaidd, clir. Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.
Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?
Asedau Diwylliannol O ran treftadaeth, chwaraeon a datblygu'r celfyddydau, mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi

darparu asedau presennol a newydd os daw cyfleoedd economaidd yn sgil yr asedau hynny. Mae'n cydnabod y dylai'r rhain fod yn ddichonadwy'n economaidd ac mae'n hyrwyddo defnydd masnachol a thai priodol yn gysylltiedig â hwy, er mwyn sicrhau'r potensial economaidd i'r eithaf. Cefnogir prosiectau adfywio a ysgogir gan ddiwylliant os dânt â chyfleoedd uniongyrchol i greu twf economaidd. Cefnogir datblygiadau o bob maint a chyfleoedd croes-gymorthdalau â datblygiadau eraill. Ni flaenoriaethir prosiectau diwylliannol oni allant ddangos gwerth economaidd.
Tai Bernir bod adeiladu tai yn sbardun economaidd sylweddol ynddo'i hun, ac iddo effaith bosibl, lawer mwy ar economïau lleol. Hwylusir datblygu tai os yw'n diwallu gofynion y farchnad, gan helpu i ddenu llafurlu medrus a'i gadw. Canolbwyntir yn benodol ar ddarparu tai newydd mewn ardaloedd y gellir cymudo ohonynt i ardaloedd twf economaidd. Neilltuir tir newydd sylweddol ar gyfer datblygu, gan ryddhau safleoedd mawr mewn aneddiadau neu oddi'u hamgylch, os oes angen. Gall hyn gynnwys rheoli rhyddhau meysydd glas, yn dilyn adolygiadau polisi a chapasiti. Hybir mentrau tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle ceir llawer o dwf economaidd, a hynny er mwyn diwallu anghenion gweithwyr allweddol. Llywir datblygu tai marchnad tuag at yr ardaloedd hynny sy'n ddeniadol i'r farchnad, a bydd yr ardaloedd nad ydynt yn ddeniadol iddi yn ddibynnol ar fuddsoddi cyhoeddus yn unig. Cefnogir cyfleoedd croes-gymorthdalau o ran tai â datblygiadau eraill.
Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni Y sector preifat sy'n sbarduno buddsoddi mewn ynni. Mae patrymau datblygu yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar y technolegau mwyaf dichonadwy gan gynnwys datblygiadau ynni gwynt. (Cynlluniau mawr sy'n cael y sylw pennaf.) Byddai datblygiadau ar y môr yn cael eu hwyluso drwy seilwaith priodol ar y tir. Mae cyfleoedd am swyddi 'gwyrrdd' yn y sectorau hyn yn uchel ar yr agenda. O safbwynt economaidd yr ymdrinnir â materion sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd, megis y môr yn codi fwyfwy a llifogydd. Cymerir camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn i'r graddau y maent yn lleihau'r risgiau o ran twf. Cefnogir amcanion datgarboneiddio os dânt â chyfleoedd economaidd a thwf. Wrth neilltuo tir economaidd, ystyrir y newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau'r risgiau i fusnes.
Seilwaith band eang a seilwaith digidol Mae telathrebu a thechnoleg ddigidol yn un o'r prif flaenoriaethau. Mae'r Fframwaith yn cefnogi darparu'r seilwaith gofynnol drwy'r farchnad, a hefyd yn annog bod capasiti technolegol yn rhan annatod o ddylunio adeiladau newydd, seilwaith (gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth) ac ardaloedd trefol sy'n ehangu ac adfywio. Bydd seilwaith yn cael ei ddarparu ar sail y galw yn y farchnad yn unig ac er mwyn gwasanaethu'r ardaloedd lle mae'r potensial mwyaf o ran twf.
Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd Mae'r Fframwaith hwn yn ymateb i'r galw yn y farchnad a hefyd i'r angen, ac mae'n seiliedig ar ymgysylltu pwrpasol â busnes a diwylliant. Mae'r pwyslais ar ofalu bod mwy o dir ar gael a hefyd ar leihau costau datblygu busnes. Neilltuir tir newydd sylweddol ar gyfer datblygu, gan ryddhau safleoedd yn yr aneddiadau neu oddi'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau safleoedd maes glas, yn dilyn adolygiadau polisi a chapasiti. Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu masnachol yn y mannau mwyaf dichonadwy, gan gynnwys mewn trefi ac ar eu cyrion. Ni fyddai datblygu yng nghanol trefi yn cael mwy o flaenoriaeth na datblygu ar gyrion trefi. Y farchnad fyddai'n pennu'r lleoliad mwyaf dichonadwy. Byddai safleoedd tir llwyd (gan gynnwys y rheini a ddefnyddir) sy'n ddeniadol i'r farchnad yn cael eu rhyddhau at ddibenion economaidd newydd. Mae Ardaloedd Menter yn ganolbwynt allweddol o ran ymyriadau. Adolygir ymrwymadau presennol i adfywio cymunedol, er mwyn i fuddsoddi yn y

dyfodol dargedu'r bobl hynny sydd â'r potensial economaidd mwyaf sylweddol yn hytrach na'r rheini y mae arnynt yr angen cymdeithasol mwyaf. Bydd tlodi'n cael ei drechu drwy wneud Cymru gyfan yn fwy ffyniannus yn hytrach na thrwy ganolbwyntio ar ardaloedd penodol.

Cymru Wledig

Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi gwneud pob rhan o Gymru yn fwy ffyniannus, er y bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar yr ardaloedd trefol mwyaf proffidiol a dim ond lle y bydd y farchnad yn sbarduno hynny y bydd yn cefnogi buddsoddi sylweddol yn ardaloedd gwledig Cymru. Ni fydd yn ceisio gwrth-droi diboblogi a bydd wrthi'n ddyfal yn rhoi cyfleoedd i bobl symud i ardaloedd mwy ffyniannus lle ceir gwell gwasanaethau er mwyn hybu amcanion twf. Byddai'r gefnogaeth i amaethyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd. Byddai Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael cefnogaeth oherwydd eu gwerth economaidd.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Dinasoedd yw prif sbardun yr economi a dinasoedd sy'n hoelio'r sylw mwyaf o ran buddsoddi economaidd. Mae'r rhanbarthau ehangach yn darparu gweithwyr, a hefyd gwsmeriaid posibl. Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi ymyriadau rhanbarthol ehangach sy'n gwella'r cynhyrchiant economaidd. Mae gweithlu deiniad, mwy yn darparu cronfa fwy o weithwyr ac mae hyn yn apelio at y farchnad. Er y bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi egwyddorion dinas-ranbarthau, bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar y craidd economaidd mwyaf proffidiol. Rhagwelir y bydd y budd a ddaw yn sgil twf yn lledu ar draws y rhanbarth gydag amser, a hynny'n seiliedig ar hygyrchedd.

Trafnidiaeth

Bwrir ymlaen â phrosiectau seilwaith strategol mawr, megis prosiectau metro, a hynny'n uniongyrchol drwy'r Fframwaith i alluogi twf mawr ac i hwyluso rhyddhau tir. Bydd seilwaith ffyrdd a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu gwella. Hybir cysylltiadau mewnol (rhwng y dinas-ranbarthau) a chysylltiadau allanol, a hynny drwy deithiau yn yr awyr, ar y môr ac ar drenau cyflym. Mae proffil rhyngwladol yn bwysig i hyrwyddo Cymru ac i ddenu buddsoddi. Bwrir ymlaen â phrosiectau sy'n hybu cysylltedd allanol. Bydd cysylltiadau trafndiaeth â phyrth allweddol yn cael eu gwella'n sylweddol i helpu i ysgogi buddsoddi sector preifat, a hynny gan ymateb i anghenion byd busnes. Un o'r prif flaenoriaethau fydd hwyluso cludo nwyddau rhyngwladol drwy byrth allweddol, ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd. Hwylusir ehangu Maes Awyr Caerdydd os oes angen, gwella'r seilwaith sy'n ei gynnal, a chyfleoedd economaidd i dyfu, a hynny ar safle'r maes awyr ac o'i amgylch.

Adnoddau Naturiol

Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi gwireddu potensial economaidd adnoddau naturiol Cymru. Byddai hefyd yn ategu egwyddor yr economi gylchol ac yn sicrhau y gwiredir potensial economaidd llawn yr holl adnoddau, gan gynnwys gwastraff. Y sector preifat fyddai'n sbarduno'r buddsoddi. Cydnabyddir y gallai ansawdd amgylchedd fod yn elfen gref o bosibl, o ran sbarduno twf, a olyga bod Cymru'n denu ymwelwyr a buddsoddwyr posibl.

Bydd dynodiadau ecolegol, bioamrywiaethol a thirweddol, yn enwedig yn lleol ac yn rhanbarthol, yn cael eu hadolygu os ydynt yn atal twf a darparu seilwaith ffisegol. Yn ystod cyfnod y Fframwaith, bydd rôl dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn cael ei hadolygu, yn enwedig yng ngoleuni Brexit, er mwyn deall eu rôl yn ategu blaenoriaethau economaidd cenedlaethol. Gellid rhyddhau tir amaethyddol, gan gynnwys y tir gorau, at ddibenion eraill.

Y Gymraeg

Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob menter sy'n hybu twf economaidd ac sydd, drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd, yn helpu i gadw siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd â'r potensial economaidd cryfaf a bydd yn hybu mudo o blith siaradwyr Cymraeg, o ardaloedd gwannaf y farchnad i'w hardaloedd cryfaf.

Iechyd

Mae sicrhau iechyd da a llesiant yn fodd i wireddu potensial economaidd. Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio twf a gwasanaethau yn yr ardaloedd trefol cryfaf. Bydd cyfleusterau iechyd yn cael eu cynllunio i hybu twf.

Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?

- Bernir mai dinasoedd a'u rhanbarthau yw'r sbardun pennaf. Canolbwyntir y twf yn yr ardaloedd hyn. Bydd llai o dwf yng Nghanolbarth Cymru, mewn trefi bach ac mewn ardaloedd adfywio.
- Wrth fynd ati i nodi prosiectau trafndiaeth cenedlaethol, y sylfaen fydd eu potensial i hwyluso twf economaidd, yn enwedig yn ardaloedd cryfaf y farchnad. Bydd cysylltedd mewnol yn cael ei wella drwy fuddsoddi sylweddol mewn seilwaith aml-fodd. Eir ati'n ddyfal i wella cysylltedd allanol, gan gynnwys cysylltiadau gwell yn yr awyr ac ar y môr, a chysylltiadau trenau cyflym newydd i Loegr a'r tu hwnt, i Ewrop. Caiff cysylltiadau cludo nwyddau rhwng cyfandir Ewrop ac Iwerddon eu gwella hefyd.
- Ceir buddsoddi sylweddol yn y seilwaith trafndiaeth, y seilwaith ynni a'r seilwaith digidol gan eu bod yn allweddol i sbarduno twf. Rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau sy'n gwella cysylltedd fwyaf ac sy'n cefnogi'r amrywiaeth ehangaf o amcanion.
- Caiff buddsoddi cyhoeddus mewn seilwaith newydd ei sbarduno gan yr awydd i hwyluso buddsoddi newydd a'i ddenu, yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad eisoes yn gryf ac yn yr ardaloedd â'r potensial economaidd mwyaf.
- Byddai nodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn bwysig, gan roi arweiniad clir gan y Llywodraeth, sicrwydd a hwyluso penderfynu.
- Bydd cyfraddau uwch o ran datblygu tai a datblygu economaidd a mwy o gymryd tir, yn gyffredinol.
- Rhyddheir safleoedd maes glas i'w datblygu, a bydd y datblygu'n canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd eisoes yn fwyaf hygyrch ac mewn ardaloedd lle mae'r farchnad yn gref.
- Symleiddir rheolaeth gynllunio yn yr ardaloedd buddsoddi blaenoriaethol a chaiff rhai cyfundrefnau amgylcheddol eu hymlacio, yn enwedig yn lleol, os yw'r gofynion deddfwriaethol yn golygu bod modd gwneud hynny.
- Mae'r rheolaeth gynllunio yn llai rhagnodol. Er enghraifft, caiff polisi cynllunio ehangach, y prawf cymalog ac egwyddor agosatrwydd, eu hymlacio i roi opsiynau gofodol ehangach.
- Canolbwyntia'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ar gysylltiadau â'r economi, o ran

penderfyniadau lleoliad a sectorau'r farchnad (ee tai gweithwyr allweddol).

- Canolbwyntia mentrau amgylcheddol ar greu lleoedd ac felly maent yn cyd-fynd â'r ardaloedd sydd â'r potensial buddsoddi economaidd mwyaf. Cydnabyddir bod ansawdd amgylchedd yn sbarduno twf ond mae llai o bwyslais ar gyfiawnder amgylcheddol. Nid eir ar ôl manteision lluosog o reidrwydd.
- Mae'r busnesau eu hunain yn ceisio bod yn fwy cynaliadwy wrth weithredu a mynd ati i ddefnyddio ynni'n effeithlon ac fe'u cynorthwyr i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau'r effeithiau economaidd posibl.
- Y sector preifat sy'n arwain buddsoddi yn y sector ynni ac mewn gwastraff, gan olygu bod amrywio o ran y math ddarpariaeth a'i lefel.

Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

Asedau Diwylliannol

Caiff buddsoddi cenedlaethol mewn asedau diwylliannol ei sbarduno'n economaidd ac mae'r buddsoddi wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad, a hynny'n rhan o becyn o fentrau buddsoddi ehangach.

Tai

Mae tai preifat a thai cymdeithasol wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad. Drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, mae'r Fframwaith wedi hwyluso ehangu trefol o bwys a rhyddhau safleoedd maes glas. Mae'r rhannau o Gymru sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn yn ymdrin â materion lleol yn unig ac nid oes iddynt rôl strategol genedlaethol.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Darparwyd seilwaith cenedlaethol yn uniongyrchol drwy'r Fframwaith a chysonwyd holl haenau'r system gynllunio er mwyn cynorthwyo eu darparu'n hwylus. Yr ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf o ran cynhyrchu ynni gwynt, ynni haul, ynni llanw a mathau eraill o ynni sy'n cael y sylw pennaf yn achos datblygiadau newydd. Hwylusir seilwaith y grid, y seilwaith trawsyrru a'r seilwaith storio. Rhoddwyd cefnogaeth gref i gyfleoedd economaidd newydd yn y sectorau hyn.

Band eang a seilwaith digidol

Cysonwyd holl haenau'r system gynllunio i gefnogi darparu seilwaith. Y farchnad sy'n penderfynu ar y buddsoddi ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd

Mae hyn wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad, a hynny yn seiliedig ar ddarparu seilwaith newydd o ran trafndiaeth, ynni a thelathrebu a chyfarwyddyd clir i'r system defnydd tir gefnogi'r twf yn yr ardaloedd hyn.

Cymru Wledig

Rhoddwyd cefnogaeth iddi er mwyn sicrhau diogelwch cyflenwadau bwyd, ynni a dŵr er budd y gymdeithas yn gyffredinol. Dim ond o'r farchnad y daeth buddsoddi newydd ac ni fu ymyrryd pwrpasol i wrth-droi diboblogi na thueddiadau cymdeithasol eraill.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Bu cefnogaeth gref i ddinas-ranbarthau yng Nghaerdydd, yn Abertawe ac yn y Gogledd-ddwyrain. Mae buddsoddi mewn seilwaith newydd wedi cynorthwyo eu twf, a hwyluswyd hynny yn sgil cysoni holl haenau'r system defnydd tir.

Trafnidiaeth

Darparwyd seilwaith cenedlaethol yn uniongyrchol drwy'r Fframwaith ac mae holl haenau'r system gynllunio yn gyson â'i gilydd er mwyn hwyluso'r darparu. Canolbwyntiwyd ar gefnogi ardaloedd twf cryfaf y farchnad ac ar wella'r cysylltiadau rhyngwladol, sef y rhai sy'n hybu twf economaidd.

Adnoddau Naturiol

Dan ddylanwad y farchnad, mae realeiddio economaidd adnoddau naturiol wedi cael ei hybu'n fawr ledled Cymru.

Y Gymraeg

Canolbwyntiwyd yn bennaf ar wella iechyd economaidd Cymru. Cefnogwyd cyfleoedd i hybu'r Gymraeg o safbwynt economaidd yn hytrach na gofodol. Mae siaradwyr Cymraeg o'r cadarnleoedd traddodiadol yn y Gogledd-orllewin ac yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin wedi mudo i ardaloedd twf cryfaf y farchnad.

Iechyd

Cynlluniwyd darparu gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn cefnogi ardaloedd twf.

Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?

O blaid

Roedd teimlad cryf fod dinasoedd yn sbarduno'r economi ac nad yw'n realistig meddwl y gellir cyflawni amcanion twf cenedlaethol heb ganolbwyntio'n bendant ac yn glir arnynt. Mae'n angenrheidiol darparu seilwaith i gefnogi dinasoedd a'u rhanbarthau a chefnogid hyn yn gyffredinol. Yn y pen draw, y rhain yw'r ardaloedd lle mae'r mwyafrif o bobl Cymru yn byw ac yn gweithio.

Mae pwysigrwydd nodi seilwaith allweddol, a darparu fframwaith i sicrhau y'i darperir yn hwylus, yn rôl allweddol i'r Fframwaith. Wrth wneud hyn, bydd y Fframwaith yn rhoi arweiniad cenedlaethol, clir. Drwy ganolbwyntio'r twf mewn ardaloedd trefol allweddol, bydd yn helpu i lywio buddsoddi darparwyr cyfleustodau cenedlaethol. Gall canolbwyntio'r buddsoddi mewn ardal lai (yn hytrach nag yng Nghymru gyfan) fod o gymorth i sicrhau cyllid ac anfon neges glir i ddarpar fuddsoddwyr.

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r cyfle i sbarduno prosiectau cenedlaethol yn genedlaethol ac i ddarparu strategaeth ofodol glir i holl bolisiâu eraill y Llywodraeth. Mae hyn yn eisiau ar hyn o bryd. Er y pryderon a ddaw yn sgil dull sy'n seiliedig ar y farchnad, mae'n bwysig cydnabod mai gwlad dlawd yw Cymru. Er mwyn newid pethau, rhaid wrth y math hwn o ganolbwyntio sylw economaidd, a ysgogir yn genedlaethol.

Gall yr opsiwn hwn fod o gymorth i oresgyn rhwystrau gwleidyddol lleol. Mae'n cydnabod hefyd y bod angen ichi greu ffyniant er mwyn mynd i'r afael ag amcanion amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol eraill. Mae peidio â chysylltu ffynnu economaidd â chanlyniadau eraill, ynghyd â'r gred y gallwn wneud popeth i'r un graddau, yn ein hatal rhag mynd i'r afael â rhai o'r prif faterion sy'n effeithio ar Gymru. Er ein bod yn llawn bwriadau da, nid yw hyn yn rhoi'r arweiniad angenrheidiol ac mae'n fodd inni osgoi penderfyniadau anodd. Byddai'r opsiwn hwn yn gam bwysig i symud Cymru yn ei blaen a hyn yw hanfod penderfynu strategol hirdymor.

Yn erbyn

Roedd teimlad cryf mai'r gwrthwyneb i gynllunio hirdymor oedd yr opsiwn hwn. Dim ond

dangos lle mae Cymru arni nawr a wna ac nid yw'n ceisio sicrhau newid gwirioneddol. Mae'n cynnal y patrymau twf presennol. Nid yw'n darparu strategaeth ofodol i Gymru gyfan. Ni fyddai'n gweddnewid dim, fel arall yn wir.

Ni fydd canolbwyntio ar y dinasoedd a'r canolfannau trefol cryfaf yn mynd i'r afael â materion y tu allan i'r union ardaloedd hyn. Bydd yn dwysáu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli eisoes ac yn peri anghydraddoldebau newydd, gan na chefnogir yr ardaloedd y tu allan i'r rhanbarthau twf a ffeirif. Nid o safbwynt economaidd yn unig y dylid ystyried amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Os hoelir y sylw'n llwyr ar yr hyn sy'n denu'r farchnad, mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni'r amcanion hyn. Mae dull o'r fath yn groes i'r Ddeddf Llesiant.

Roedd yn amlwg bod twf economaidd yn bwysig. O'i gynllunio a'i asesu'n briodol, mae iddo ganlyniadau cadarnhaol a ddaw ag amrywiaeth mawr o fanteision. Eto i gyd, ni ellir gadael i'r farchnad yn unig bennu datblygiad gofodol, hirdymor Cymru. Mae'r system gynllunio yno i ddylanwadu ar dwf ac ar y modd y dylai ein lleoedd newid i sicrhau'r budd ehangaf sy'n bosibl. Beth sy'n digwydd os oes cwymp yn y farchnad? Wedi'r cyfan, onid ystyried a chynllunio er budd hirdymor y genedl gyfan yw rôl y Llywodraeth?

Nid rhwystr i'w oresgyn yw ansawdd amgylchedd. Mae'n ychwanegu gwerth ac mae'n hanfodol i'n lles. Nid yw'r opsiwn hwn yn ystyried yr amgylchedd a'r perygl yw y ceisia fudd economaidd byrdymor ar draul cadernid amgylcheddol hirdymor. Ni fyddai'n sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byrdymor yw'r farchnad ac nid materion strategol sy'n hoelio'i sylw. Mynegwyd pryder mawr ynghylch colli tir amaethyddol, gan gynnwys o bosibl y tir fferm gorau, o ganlyniad i'w ddefnyddio at ddibenion eraill.

Mae'r opsiwn hwn yn rhy eang ei olygon ac nid Cymru yw ei hanfod. Nid yw'n manteisio ar gryfderau Cymru – gwyrddfannau, tirwedd a bioamrywiaeth.

Realistig

Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn realistig. Roedd rhai o'r farn mai hwn fyddai'r opsiwn hawsaf y gellid ei fabwysiadu, gan y byddai'n cyd-fynd â'r tueddiadau a'r patrymau datblygu presennol. Hwn hefyd oedd yr opsiwn hawsaf ei ddeall. Roedd yn amlwg sut y gallai'r opsiwn hwn lywio strategaethau perthnasol eraill. Roedd yn glir sut y gellid blaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith i ategu'r opsiwn hwn. Roedd eraill o'r farn nad oedd y dull hwn yn ddarlun o'r sefyllfa bresennol; byddai'n newid o bwys o ran polisi ond pe baem yn penderfynu gwneud hynny, galleu wneud hynny.

Opsiwn 2

Opsiwn Arall 2 – Strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru

Trosolwg Cryno

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar Gymru gyfan. Ceisia fynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu, a hynny drwy ddull gwasgarog, nad yw'n ceisio blaenoriaethu un ardal yn hytrach na'r llall. Bydd amcanion hirdymor yn cael eu cyflawni drwy gamau gweithredu a buddsoddi ledled Cymru. Fe'u cyflawnir hefyd drwy roi cefnogaeth uniongyrchol i gymunedau lleol er mwyn sicrhau atebion o'r-gwaelod-i-fyny i broblemau cenedlaethol. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau y bydd cymunedau lleol, cryf, gan ddarparu swyddi, tai, gwasanaethau a chyfleusterau y mae arnynt eu hangen. Bydd hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar bobl a'u lles ac ar

gynaliadwyedd. Rôl y Fframwaith fydd lledaenu twf a seilwaith ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r ardaloedd lle'r mae'r angen mwyaf a lle mae'r marchnadoedd gwannaf. Bydd yn dal i ganolbwyntio'n bendant ar gyflawni'r amcanion cenedlaethol. Bydd yn cydlynu'r camau gweithredu yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.
Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?
Y farn gyffredin yn ystod yr ymgysylltu ar ddechrau 2017 oedd bod angen cynllun gofodol cenedlaethol. Credid hefyd y dylai'r Fframwaith – yn ogystal â meddu ar safbwynt cenedlaethol a ystyriai Gymru gyfan – fod yn berthnasol i gymunedau lleol a'u cynorthwyo i wireddu eu gobeithion. Ni fyddai Fframwaith a fyddai, er enghraifft, yn ystyried y De-ddwyrain a'r Gogledd Ddwyrain yn unig, yn gynllun cenedlaethol. Ni fyddai Fframwaith yr ystyrir ei fod yn mynnu ar bolisiau o'r-brig-i-lawr o ran tai, ynni neu drafnidiaeth, heb achub ar y cyfle i ystyried atebion o'r-gwaelod-i-fyny hefyd, yn Fframwaith a fyddai'n gyson â barn llawer. Roedd rhai o'r farn na roddid digon o gydnabyddiaeth i effaith penderfyniadau cenedlaethol ar gymunedau lleol. Y farn oedd na ddylai'r Fframwaith geisio dewis 'enillwyr' na chanolbwyntio'n ormodol ar ddull 'yr-un-peth-i-bawb'. Roedd cymunedau lleol yn wynebu problemau gwahanol o ran tai, iaith, gwahaniaethau o ran diboblogi a heriau cymdeithasol. Rhaid i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu atebion priodol, gwahanol a chreu modd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ddod o hyd i atebion. Cafodd yr opsiwn hwn ei lunio a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch ym mis Hydref 2017.
Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?
Asedau Diwylliannol Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth wrth lunio Cymru. Byddai hefyd yn ceisio cynnal a hybu ein cymunedau Cymraeg/Cymreig unigryw eu nodweddion. Byddai'n mynnu bod datblygu newydd yn mynd ati'n weithgar i gyfrannu at ein cyfalaf diwylliannol, yn hytrach na'i fychanu. Bydd ein hasedau diwylliannol presennol yn cael eu gwarchod, eu hyrwyddo a'u gwella a chefnogir datblygiadau diwylliannol newydd. Bydd cefnogaeth gref i brosiectau cymunedol, lleol a all ddod â manteision diwylliannol a chysylltliol. Er enghraifft, prosiectau a ysgogir gan ddiwylliant ac sy'n llesol i iechyd a lles, drwy ddarparu gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol.
Tai Byddai gofalu bod tai – ac yn benodol tai fforddiadwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon – ar gael yn un o'r prif ystyriaethau, gan sicrhau bod tai fforddiadwy o safon ar gael i bawb yn y gymuned leol. Byddai ymyriadau'n blaenoriaethu cefnogi tai fforddiadwy yn hytrach na mathau eraill o dai, lle bo angen. Cefnogir dylunio tai newydd ac arloesol a hwylusir datblygu gan y rhai sy'n adeiladu eu tai eu hunain a thai i ofynion cwsmer penodol, os dânt â chyfleoedd ychwanegol o ran darparu tai newydd a helpu i ddiwallu anghenion tai cymunedol. Yn ogystal â diwallu anghenion tai, bydd tai newydd o gymorth i gynnal cymunedau lleol a byddant yn cefnogi gwasanaethau hanfodol. Yn ogystal â blaenoriaethu tai fforddiadwy, blaenoriaethir cartrefi-gydol-oes a darparu tai i ddiwallu anghenion pobl yn ystod pob cyfnod o'u hoes. Bydd y math o dai y bydd arnom ei angen yn fater pwysig. Cydnabyddir bod angen inni adeiladu'r math iawn o dai yn y manau iawn a pheidio â chanolbwyntio'n unig ar nifer y tai y mae arnom ei angen.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni Yn y tymor hwy, byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio peri newid strategol, sef o brif raglenni seilwaith, megis seilwaith ynni a thrafnidiaeth mawr, i ddull o'r-gwaelod-i-fyny. Er y cydnabyddir y bydd angen bob amser am brosiectau unigol cenedlaethol, bydd yr opsiwn hwn yn mynnu yr ystyrir pob opsiwn posibl yn llwyr ac y cefnogir opsiynau posibl gwasgarog, llai, realistig os yw'n ymarferol gwneud hynny, ac y cefnogir amcanion ehangach. Bydd cefnogaeth gref i berchenogi lleol yn achos prosiectau ynni, a seilwaith storio a grid sydd wedi ei ddatganoli. Y modd y mae cymunedau'n gweithredu a'u hanghenion fyddai'n cael y sylw pennaf. Byddai polisïau'n canolbwyntio ar atebion lleol ar sail lle ac yn sicrhau'r manteision cymunedol gorau posibl. Byddai cefnogaeth i gynhyrchu a dosbarthu ynni ar sail ddatganolog, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy yr oedd y gymuned yn berchen arnynt. O ran y polisi ynni ehangach, byddai pwyslais cryf ar asesu'r effeithiau ar gymunedau lleol ac ar sicrhau bod y cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil buddsoddi o'r fath o fudd uniongyrchol i'r cymunedau lleol, o ran swyddi, costau ynni a manteision eraill. Bydd cefnogaeth i gamau gweithredu sydd â'r nod o sicrhau y bydd mwy o ddefnyddio ynni'n effeithlon ar safleoedd datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes, gan fod o gymorth o ran cyflawni amcanion ehangach yn ymwneud ag ynni, lleihau costau ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
Seilwaith band eang a seilwaith digidol Byddai cefnogaeth i ddarparu seilwaith digidol modern, gyda phwyslais ar sicrhau y cysylltid pob cymuned yng Nghymru â'r dechnoleg ddiweddaraf a gorau. Bydd buddsoddi'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar yr ardaloedd na fyddai fel arall yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad yn brydlon. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cam i'w gwneud yn haws cael adnoddau a gwasanaethau digidol.
Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol, economïau lleol amryfal a chanolfannau lleol llawn bywyd. Byddai'n annog nodweddion lleol unigryw ac yn cydnabod bod ffynnu economaidd o gymorth i hybu lles. Bydd darparu swyddi gwell yn nes i gartrefi yn lleihau'r angen i deithio ac yn ei gwneud yn bosibl i'r rhai sy'n dymuno aros a byw yn eu cymunedau lleol i wneud hynny. Amcanion adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd fyddai'n llywio'r penderfyniadau buddsoddi strategol pennaf, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio osgoi dibynnu ar economeg diferu neu ar ehangu ffyniant o begynau twf allweddol. Yn lle hynny, byddai'n hyrwyddo canolfannau lleol, cryf ym mhob rhan o Gymru. Eir ati i drechu tlodi drwy ganolbwyntio ar y materion gwahanol sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru a thrwy lywio'r ymateb i ddiwallu'r anghenion hyn.
Cymru Wledig Byddai gwrth-droi diboblogi yn flaenoriaeth mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion tai, cyflogaeth a chysylltedd (digidol a thrafnidiaeth) a chynnal seilwaith cymdeithasol a hynny drwy holl haenau'r system gynllunio Drwy wneud hynny, byddai'n helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig Cymru yn medru cadw a denu pobl o bob oed a holl aelodau ein cymdeithas. Byddai penderfyniadau buddsoddi, darparu seilwaith newydd, a chydlynio strategaethau allweddol eraill y Llywodraeth, yn cael eu cysoni i gefnogi'r amcanion hyn.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Byddai cefnogaeth i ddinas-ranbarthau. Byddai'r Fframwaith hwn yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod buddsoddi a chyfleoedd yn y dinas-ranbarthau o fudd i bawb. Byddai'n cefnogi buddsoddi pan ddeuai â chymaint o fudd ag sy'n bosibl i bob cymuned a phan lwyddai i ddod â chanlyniadau cadarnhaol posibl a fyddai'n ehangach na'r craidd trefol, rhanbarthol, canolog. Bydd cysylltedd yn nodwedd bwysig.

Trafnidiaeth

Yn y tymor hwy, byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio peri newid strategol, sef o brif raglenni seilwaith, megis seilwaith trafndiaeth mawr, i ddull o'r-gwaelod-i-fyny. Er y cydnabyddir y bydd angen bob amser am brosiectau unigol cenedlaethol, bydd yr opsiwn hwn yn mynnu yr ystyrir pob opsiwn posibl yn llwyr ac y cefnogir opsiynau posibl, gwasgarog, llai, realistig os yw'n ymarferol gwneud hynny, ac y cefnogir amcanion ehangach.

Y modd y mae cymunedau'n gweithredu a'u hanghenion fyddai'n cael y sylw pennaf. Byddai polisïau trafndiaeth yn canolbwyntio ar hygyrchedd lleol, gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn cysylltu cartrefi/swyddi/gwasanaethau allweddol. Hwyluso cerdded a beicio fydd yn cael y sylw wrth lunio lleoedd. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod cyfnewidfeydd trafndiaeth allweddol yn hygyrch. Byddai cefnogi mentrau teithio llesol yn amcan allweddol. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau andwyol opsiynau teithio. Byddai amcanion iechyd yn ddylanwad allweddol, gan gefnogi dulliau iach o deithio ac ymdrin yn uniongyrchol â phroblemau ansawdd aer a sŵn. Os oedd angen, byddai'n bwrw ymlaen â mesurau i leihau'r traffig, gan gynnwys newid y rhwydwaith ffyrdd yn sylweddol o bosibl, a hynny er budd cymunedau lleol.

Adnoddau Naturiol

Byddai'r Fframwaith hwn yn gadarn ei gefnogaeth i egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gydnabod y byddai rheoli ein hadnoddau mewn modd anghynaliadwy yn cael effaith andwyol ar holl gymunedau Cymru. Meithrin cadernid yr ecosystemau a bioamrywiaeth sydd gennym a chefnogi cyflawni amcanion cenedlaethol yw'r nod, a hynny drwy gamau gweithredu megis defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau llygredd. Rhydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth gyfle i ddatblygu swyddi o safon ledled Cymru ac i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor. Mae iddynt adnoddau hefyd sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod diwydiannau'n gyffredinol, ac yn y pen draw ein trefi a'n dinasoedd, yn ffynnu ac yn ddiogel. Bydd sicrhau manteision a gwelliannau cymdeithasol, economaidd, iechyd, diwylliannol ac amgylcheddol i gymunedau lleol drwy'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn flaenoriaeth allweddol.

Y Gymraeg

Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol ar gyfer pob ardal a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

Iechyd

Byddai'r Fframwaith yn hybu iechyd a lles pawb. Byddai'n cefnogi creu lleoedd o safon, gyda gwell mynediad o ran gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol integredig, gan gynnwys mynediad digidol. Bydd y Fframwaith yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled Cymru ac yn sicrhau amrywiaeth o dai o safon, yn ogystal â gwell mynediad i'r amgylchedd naturiol, er mwyn cefnogi amcanion iechyd.

Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?

- Bydd y system gynllunio a'r opsiynau lleoliad yn sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cefnogi datblygu aneddiadau cynaliadwy.
- Mae patrymau anheddu cynaliadwy yn allweddol – sef bod cartrefi yn ymyl swyddi ac yn ymyl cyfleusterau a gwasanaethau allweddol, sy'n lleihau'r angen i deithio ac sy'n sicrhau opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy pan fydd angen. Mae pwyslais cryf ar gynnal amrywiaeth da o gyfleusterau cymunedol hygyrch.
- Defnyddir egwyddorion cynllunio defnydd tir i sicrhau y bydd swyddi, gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau hamdden pobl ar gael yn ymyl eu cartrefi. Oni ellir darparu'r elfennau hyn yn lleol, bydd yn hawdd eu cyrchu drwy opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy. Ni fydd cymunedau dan fwy o anfantais oherwydd eu bod y tu allan i ardaloedd trefol.
- Derbynnir y bydd angen o hyd am brosiectau cenedlaethol mawr. Bydd angen proses asesu lawn i sicrhau yr ystyrir yr opsiynau eraill posibl, gan gynnwys dulliau lleol.
- Mae darparu tai fforddiadwy, lleol yn fater allweddol, a rhoddir cefnogaeth gref i dai lleol ac i'r rhai sy'n adeiladu eu tai eu hunain.
- Mae'r Fframwaith yn ceisio galluogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig i gael budd o dwf. Mae hefyd yn cefnogi grymuso'r gymuned a llywodraethu da.
- Mae hygyrchedd yn elfen ganolog wrth benderfynu. Rhaid i opsiynau ar sail lle sicrhau, i'r gymdeithas gyfan, gymaint o hygyrchedd ag sy'n bosibl.
- Mae gwella iechyd yn amcan allweddol ac yn dylanwadu ar bob penderfyniad polisi. Targedir gwelliannau ansawdd aer yn uniongyrchol. Ansawdd bywyd a llesiant lleol fydd y prif amcan wrth benderfynu ar ddefnydd tir.
- Mae adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ddau o'r prif feysydd sy'n cael sylw strategol. Blaenoriaethir ymdrin â chanlyniadau diwydiant a datblygiadau'r gorffennol, yn ogystal ag ymdrin â'r holl ardaloedd lle mae ansawdd yr amgylchedd yn wael.
- Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar gysylltedd digidol, gan annog mwy o weithio hyblyg a gweithio gartref, cydbwysu gwell o ran bywyd a gwaith, lleihau'r angen i deithio a lleihau tagfeydd. Ni fydd cymunedau dan fwy o anfantais oherwydd eu bod y tu allan i'r ardaloedd trefol mwyaf.
- Blaenoriaethir cynlluniau ynni adnewyddadwy y mae'r gymuned yn berchen arnynt. Mae'r system gynllunio'n cefnogi mentrau sy'n ymwneud â hybu defnyddio ynni'n fwy effeithlon mewn cartrefi a rhoi diwedd ar dlodi tanwydd. Mae ardaloedd lle cynhyrchir ynni adnewyddadwy yn cael manteision cymunedol uniongyrchol. Pwysleisir cael cynlluniau sy'n nes i'r mannau lle mae pobl yn byw. Cefnogir rhwydweithiau dosbarthu a storio.
- Rhoddir cefnogaeth gref i egwyddorion yr economi gylchol.

Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

Asedau Diwylliannol

Mae canolbwyntio'n bendant ar brosiectau cymunedol ym mhob rhan o Gymru wedi creu cymunedau unigryw eu nodweddion.

Tai

O ran tai, a wasgarwyd ledled Cymru, canolbwyntiwyd ar ddiwallu anghenion cymunedol. Mae tai wedi bod o gymorth i adeiladu cymunedau cynaliadwy.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Diwellir anghenion ynni drwy ddull cymunedol, gwasgarog ar ôl newid o ddefnyddio datblygiadau mawr, llai niferus. Mae cymunedau'n cynhyrchu ynni i'w werthu. Mae egwyddorion defnydd tir wedi ceisio lleihau'r angen i deithio ac os teithir, gwneir hynny gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf cynaliadwy.

Seilwaith band eang a seilwaith digidol

Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau newydd wrth i'r rheini ddatblygu. Canolbwyntiwyd y buddsoddi ar ardaloedd mymlog a gwledig, gan dderbyn newid tirwedd.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd

Cafwyd buddsoddi cyhoeddus cytbwys ym mhob rhan o Gymru. Gwelwyd mwy o ffynnu'n genedlaethol o ganlyniad i'r sylw ar sicrhau economïau lleol, cryf a hynny drwy'r system gynllunio a phrif strategaethau'r Llywodraeth.

Cymru Wledig

Llwyddwyd i wrth-droi diboblogi ac mae galw mawr am dai mewn ardaloedd gwledig.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Cynlluniwyd dinas-ranbarthau llwyddiannus i sicrhau'r manteision ehangaf sy'n bosibl i'w rhanbarthau cyfan, gan gydnabod anghenion cymunedau ar draws y rhanbarth.

Trafnidiaeth

Lluniwyd cymunedau â'r nod o leihau'r angen i deithio ynddynt ac os teithir, gan gynnwys rhwng aneddiadau, defnyddir dulliau teithio cynaliadwy a hygyrch.

Adnoddau Naturiol

Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth i gyd wedi cefnogi twf swyddi o safon ledled Cymru. Mae'r adnoddau hyn hefyd wedi helpu i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor.

Y Gymraeg

Mae buddsoddi a chefnogaeth gref mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y cyflawnir amcanion Cymraeg.

Iechyd

Canolbwyntir yn fawr ar gyfleusterau integredig o ran iechyd cymuned, gan sicrhau bod cyfleusterau lleol a digidol ar gael i gymunedau. Buddsoddir mewn lleoedd o safon a darperir mwy o fynediad i'r amgylchedd naturiol.

Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?

O blaid

Roedd croeso i egwyddor datblygu strategaeth ofodol lawn i Gymru gyfan. Nodwyd ei bod yn bwysig na fyddai proses y Fframwaith yn tybio o'r dechrau mai strategaeth gyfarwyddo, o'r brig-i-lawr fyddai hon. Roedd yn bwysig deall sut y gellid mynd i'r afael â materion cenedlaethol yn lleol ac yn gymunedol. Mae tai, ynni, cyflogaeth a thrafnidiaeth yn enghreifftiau a roddir fel rheol wrth enwi meysydd lle nad yw dull o'r-brig-i-lawr y system gynllunio yn cydnabod yr hyn y mae ei eisiau ar gymunedau lleol a lle nad yw effeithiau anghyson y penderfyniadau cenedlaethol hyn ar bob rhan o Gymru yn cael eu hasesu'n gywir gan y system.

Roedd pryder mai dim ond ar rannau trefol/dinesig, diffiniedig o Gymru yr oedd dinas-ranbarthau, bargeinion twf a'r prosiectau pennaf, megis yr M4, yn canolbwyntio. Mae'r opsiwn hwn, drwy wneud pwynt o ganolbwyntio ar Gymru gyfan, yn ymgais gadarnhaol i ystyried y mannau'r tu hwnt i'r ardaloedd arferol.

Roedd croeso i'r egwyddor o geisio canolbwyntio buddsoddi cyhoeddus yn yr ardaloedd mwyaf anghenus a sicrhau y cynllunnir buddsoddi preifat yn ardaloedd cryfaf y farchnad er mwyn llwyddo i gael y manteision ehangaf sy'n bosibl.

Croesewid y gallu i ddatblygu dulliau lleol o dan fframwaith cenedlaethol ac unedig. Yn aml rhoddid tai a thwf economaidd yn enghreifftiau wrth sôn am ardaloedd lle gwelid materion yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Nid oedd canolbwyntio ar un agwedd gul, megis nifer y tai yn hytrach na'u math/safon, o gymorth i gyflawni amcanion ehangach. Byddai dulliau cymunedol yn fwy hyblyg ac yn fodd i ddatblygu atebion priodol.

Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn cyd-fynd yn dda â'r Ddeddf Llesiant, gan nad oedd yr opsiwn yn ceisio blaenoriaethu un ardal/amcan yn hytrach na'r llall. Yn lle hynny, ceisiai ddeall sut y gellid cyflawni amcanion ledled Cymru.

Yn erbyn

Er y cefnogid uchelgais gyffredinol yr opsiwn hwn, ym marn llawer nid oedd canolbwynt digonol iddo ac nid oedd yn glir sut beth fyddai'r strategaeth ofodol. Yn hytrach na llywio twf a darparu seilwaith, byddai'r opsiwn hwn yn creu'r amodau a fyddai'n golygu y datblygid dulliau o'r-gwaelod-i-fyny ond ni roddai sicrwydd ynghylch lle na sut.

Mynegwyd y farn y byddai'r opsiwn hwn yn colli'r cyfle i sbarduno newid cadarnhaol, a hynny'n genedlaethol. Roedd ansicrwydd ynghylch pa fath o berthynas fyddai rhwng gwahanol haenau'r system gynllunio. Ystyrid mai'r Cynlluniau Datblygu Lleol oedd y rhai mwyaf priodol i gynllunio ardaloedd lleol. Bydd angen atebion cenedlaethol, mawr wrth drafod materion megis y newid yn yr hinsawdd, ffynnu economaidd, atebion tai a mynd i'r afael â llawer o'r problemau y bydd Cymru yn eu hwynebu rhwng nawr a 2040. Ni ddylem ofni pennu strategaeth ofodol genedlaethol glir. Dyma yw rôl y Llywodraeth.

Roedd pryder mawr y gallai'r opsiwn hwn fynd yn siarter 'Nid i'm bro i' (NIMBI), yn hytrach na darparu strategaeth i ystyried sut y gellid mynd i'r afael â materion cenedlaethol o'r-gwaelod-i-fyny. Sylw a wnaed yn aml oedd nad yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ymwneud â'r broses gynllunio yn bobl sydd o reidrwydd yn cynrychioli'r gymuned yn gyffredinol ac mai'r gallu i ystyried materion a mynd i'r afael â hwy'n genedlaethol oedd un o'r prif resymau dros gyflwyno'r Fframwaith.

Mynegwyd y farn fod angen ystyried yn ofalus er mwyn deall perthynas y system gynllunio â'r Ddeddf Llesiant. Nid oedd modd i bob man gael pob dim ac nid oedd modd cyrraedd pob nod i'r un graddau ym mhob achos. Mae croeso i'r uchelgais ond nid yw hyn yn realistig a rhaid wrth benderfyniadau. Dylai strategaeth ofodol a llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ymwneud yn eu hanfod â gwneud y penderfyniadau pwysig yn y ffordd iawn.

Realistig Oherwydd cynlluniau a strategaethau presennol, ynghyd ag ymrwymadau presennol y Llywodraeth, y farn oedd y byddai'n anodd am y tro i newid i'r dull gofodol hwn. O ystyried hyn, newidiwyd yr opsiwn a'r tybiaethau sy'n sail iddo i adlewyrchu y cefnogir prosiectau mawr, yn enwedig am y tro, ac y bydd angen efallai am brosiectau cenedlaethol, mawr yn ystod cyfnod y Fframwaith. Er hynny, mae'n amlwg y rhydd yr opsiwn hwn ei sylw pennaf i atebion lleol ac i sicrhau mai safbwynt o'r-gwaelod-i-fyny fydd man cychwyn penderfyniadau strategol yn y dyfodol. Gyda'r gwelliant hwn, ystyrid bod yr opsiwn hwn yn realistig.

Opsiwn 3

Opsiwn Arall 3 – Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio ac amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd.
Trosolwg Cryno Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'n gofalu mai ein hymateb i'r materion hyn sy'n cael prif sylw'r Fframwaith. Mae lluo o dystiolaeth sy'n ategu'r angen i weithredu ar frys ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Mae rôl hanfodol i'r system gynllunio o ran hwyluso newid yn gymdeithas garbon-isel drwy sicrhau bod i ddatgarboneiddio le blaenllaw mewn opsiynau ynghylch defnydd tir. Bydd targedau ynni adnewyddadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr, ynghyd â'r cyllidebau sy'n datblygu ynghylch carbon, yn llywio'r strategaeth ofodol hon yn sylweddol. Yn benodol, canolbwyntia'r Fframwaith hwn ar y modd y defnyddir tir, y berthynas rhwng gwahanol fathau o ddefnydd tir a'r modd y'u cysylltir. Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd ein haneddiadau'n tyfu ac yn cysylltu â'i gilydd. Hefyd pwysleisir deall canlyniadau'r opsiynau a wnawn a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwneud pethau'n wahanol. Bydd patrymau trefol a gwledig presennol yn cael eu haddasu i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi newidiadau o bwys o ran patrymau datblygu a ffurf trefi, gan gynnwys yn yr ardaloedd sydd ohoni, os bydd angen newidiadau o'r fath i gyflawni amcanion ac i gyfrannu at greu economi garbon-isel.
Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn? Yn achos yr holl faterion a'r holl drafodaeth ar opsiynau gofodol posibl y Fframwaith, gwelwyd y cytundeb barn mwyaf ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod y Fframwaith yn ymateb i faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio. Awgrymwyd nad oedd dim dadl ddilys yn erbyn yr opsiwn hwn (e.e. dadl yn cefnogi carboneiddio, gwaethygu problemau'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd). Rhaid felly oedd ystyried yr opsiwn hwn ar draws proses y Fframwaith. Roedd barn bendant hefyd nad oedd yr opsiwn hwn yn un negyddol, ac na ddylai fod yn un negyddol. Roedd yn gyfle cadarnhaol i ddatblygu ein cymdeithas a'n heconomi mewn ffyrdd newydd a dylid croesawu hyn. Credid bod egwyddorion cynllunio defnyddio tir yn allweddol ac mai'r system gynllunio ddylai arwain 'cynllunio' ein dyfodol. Cafodd problemau eu gwaethygu oherwydd arfer meddylfryd anghydlynus, pennu sawl nod tymor byr, a methu â deall canlyniadau rhyngberthynol llawer o'n penderfyniadau.

Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.

Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?

Asedau Diwylliannol

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy sy'n seiliedig ar ddefnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar opsiynau lleoliad ac yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Byddai'n cefnogi datblygu diwylliannol pan fyddai hynny o gymorth i gyflawni ein hamcanion datgarboneiddio.

Tai

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, di-garbon, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar opsiynau lleoliad ac yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Yng nghyd-destun gwahanol ddefnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y darperir tai a chynllunnir y tai ochr yn ochr â'r rhain. Ni chefnogir datblygu tai hapfasnachol na datblygu tai heb ei gynllunio.

O ran datblygu tai, egwyddor gyntaf y Fframwaith fydd ceisio llywio hyn at yr ardaloedd lle bydd cyn lleied ag sy'n bosibl o angen teithio; yr ail egwyddor fydd llywio'r datblygu hwn tuag at yr ardaloedd lle mae dulliau teithio cynaliadwy ar gael. Cefnogir camau gweithredu i hybu effeithlonrwydd y seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes. Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu tai yn y mannau mwyaf cynaliadwy, a allai fod ar feysydd glas ac ar dir llwyd. Defnyddio adnoddau'n effeithlon, safon a dylunio arloesol fyddai'n cael y sylw pennaf.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Bydd y Fframwaith hwn yn arfer dull cadarnhaol a rhagweithiol er mwyn cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel, a hynny drwy amrywiaeth o dechnolegau. Bydd hefyd yn cefnogi arloesi a thwf yn y sector Ynni Adnewyddadwy. Un o'r prif flaenoriaethau fydd datgarboneiddio'r sector ynni a sectorau eraill. O ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, bydd y Fframwaith yn llywio hyn tuag at y mannau mwyaf priodol a thrwyddi ceir fframwaith i gefnogi darparu hyn. Yn ogystal â chefnogi prosiectau mawr, bydd yr opsiwn posibl arall hwn yn cefnogi prosiectau ynni lleol a rhanbarthol, gan sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y posibiliadau o ran prosiectau cynaliadwy ar bob lefel. Bydd hefyd yn darparu hyblygrwydd i sicrhau y cefnogir cyfleoedd a thechnolegau datblygol.

Er mwyn cefnogi sector ynni modern, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, fe gynllunnir storio a thrawsyrru ynni. Cefnogir camau gweithredu i sicrhau mwy o effeithlondeb ynni, mewn datblygiadau presennol a newydd. Risgiau posibl yn sgil y newid yn yr hinsawdd fydd yn llywio patrymau defnydd tir a sut seilwaith newydd a ddarperir. Bydd y Fframwaith hwn yn rhagweld y risgiau a ddaw yn sgil y canlynol: llifogydd; y tymheredd yn codi fwyfwy; colli cynefinoedd a llystyfiant; mwy o ynysoedd gwres trefol, ac effeithiau niweidiol ar ecosystemau. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried yr elfennau hyn, yn seiliedig arnynt ac yn meithrin cadernid yn wyneb y rhain. Fe dderbynnir y bydd rhai ardaloedd yn dal yn agored i'r effeithiau posibl a chynllunnir at ganlyniadau hyn. Bydd newidiadau arfordirol a'r effeithiau posibl ar ddinasoedd, ar drefi ac ar gymunedau yn

dylanwadu ar opsiynau gofodol. Bydd y Fframwaith yn annog bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn rhan annatod o ddatblygu newydd, gan hybu'r syniad bod dŵr (gan gynnwys llifddwr) yn nodwedd fwyfwy arferol ar yr amgylchedd adeiledig, drwy waith a gynllunnir ac a reolir. Cefnogir camau gweithredu i sicrhau mwy o effeithlonrwydd ynni, a hynny mewn datblygiadau presennol a newydd.
Seilwaith band eang a seilwaith digidol Byddai'r Fframwaith hwn yn rhoi pob cefnogaeth i ddarparu seilwaith digidol newydd, gan gydnabod ei botensial o ran darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, cynnal arferion gweithio newydd a lleihau'r angen i deithio.
Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd Byddai'r opsiwn arall hwn yn rhoi cefnogaeth bendant i dwf carbon-isel, cynaliadwy. Rhoddir cefnogaeth gref i gyfleoedd a ddaw mewn sectorau sy'n helpu i gyflawni amcanion datgarboneiddio. Bydd y Fframwaith yn cefnogi arloesi, ymchwil a datblygu, a hybu technolegau newydd. Bydd cefnogaeth gref i dwf gwyrdd ac i'r economi gylchol. Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, sy'n seiliedig ar ddefnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar opsiynau lleoliad ac yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Yng nghyd-destun gwahanol ddefnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y darperir mentrau cyflogaeth ac adfywio a chynllunnir y mentrau ochr yn ochr â'r rhain. Ni chefnogir datblygu hapfasnachol na datblygu nas cynlluniwyd. Bydd opsiynau defnydd tir yn lleihau'r angen i deithio ac yn sicrhau bod cysylltedd a hygyrchedd yn ddau o'r prif flaenoriaethau. Bydd gofyn i brif brosiectau ddangos eu bod yn cyfrannu at yr amcanion hyn a bod y prosiectau wedi eu cynllunio i gefnogi'r amrywiaeth mwyaf o fanteision. Y canolfannau mwyaf poblog presennol ac arfaethedig a rhwydweithiau trafnidiaeth gynaliadwy fydd sail opsiynau ynghylch lle y bydd canolfannau cyflogaeth strategol. Bydd tlodi'n cael ei drechu drwy wneud y canlynol: darparu tai modern o safon, trechu tlodi tanwydd, cefnogi newid yn economi garbon-isel ffyniannus, a hybu lles pawb yng Nghymru.
Cymru Wledig Bydd y Fframwaith hwn yn ceisio ymdrin â materion tai, cyflogaeth a chysylltedd (digidol a thrafnidiaeth) a chynnal seilwaith cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Bydd cefnogaeth i brosiectau ynni cymunedol a all fod o gymorth i dalu am seilwaith a gwasanaethau lleol. Byddai'n cefnogi cymunedau lleol sy'n lleihau'r angen i deithio ac sy'n golygu pan deithir y gellir gwneud hynny'n gynaliadwy. Bydd gofyn canolbwyntio'n glir ar sut y cynllunnir twf, buddsoddi a seilwaith newydd ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod opsiynau gofodol yn cefnogi amcanion datgarboneiddio mewn ardaloedd gwledig a threfol.
Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu dinas-ranbarthau cysylltiedig, hygyrch, a gynlluniwyd yn dda, ac sy'n cydlynu creu twf a seilwaith mewn modd sy'n sicrhau'r

canlyniadau cadarnhaol mwyaf sy'n bosibl. Blaenoriaethir darparu seilwaith trafndiaeth rhanbarthol sy'n cefnogi amcanion datgarboneiddio. Yn ogystal, bydd y Fframwaith yn sylfaen glir i'w darparu. Rhaid cynllunio'r seilwaith a'r prosiectau pennaf yng nghyd-destun defnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach.

Trafnidiaeth

Bydd opsiynau defnydd tir yn lleihau'r angen i deithio, gan sicrhau bod cysylltedd a hygyrchedd yn ddau o'r prif flaenoriaethau. Bydd gofyn i brif brosiectau ddangos eu bod yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi camau gweithredu a buddsoddi i ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod holl haenau'r system gynllunio defnydd tir yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn hwyluso'r darparu. Blaenoriaethir cerdded, beicio, trydaneiddio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd gwasanaethau bysiau, yn ogystal â gwasanaethau trenau, yn bwysig. Cefnogir buddsoddi newydd o bwys yn ein ffyrdd, os yw'n lleihau tagfeydd yn sylweddol, yn cefnogi gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd ac yn cefnogi amcanion ehangach, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac ansawdd aer.

Caniateir cyfyngu ar ehangu meysydd awyr neu gwneir yn iawn am yr ehangu hwnnw. Buddsoddir mewn gwella cysylltiadau rheilffyrdd allanol a chysylltiadau môr. Cefnogir technolegau datblygol, megis ceir trydan, os ydynt o gymorth i ddatgarboneiddio symudiadau trafndiaeth. Egwyddor gyntaf y Fframwaith hwn fydd ceisio lleihau, hyd yr eithaf, yr angen i deithio a'i ail egwyddor fydd sicrhau y teithir yn y modd mwyaf cynaliadwy.

Adnoddau Naturiol

Cefnoga'r Fframwaith hwn egwyddorion craidd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sef bod yn fwy effeithlon; lleihau i'r eithaf ddefnyddio adnoddau yn anghynaliadwy; lleihau llygredd; a darparu ynni adnewyddadwy. Ochr yn ochr â chymau i leihau allyriadau carbon, bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi camau gweithredu sy'n meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a hynny yn ein cymunedau, ein busnesau ac yn yr amgylchedd naturiol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi atebion ar sail natur er mwyn cryfhau amrywiaeth biolegol, gan gynnwys darparu seilwaith a rhwydweithiau gwyrdd. O ran rheoli dŵr, bydd pwysigrwydd cenedlaethol i gyfraniad ardaloedd gwledig ac ucheldiroedd a bydd y Fframwaith yn sylfaen i hwyluso rheoli priodol. Bydd y Fframwaith hwn yn rhoi cefnogaeth gref i egwyddorion yr economi gylchol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Yn achos datblygiadau ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas), bydd y rhain yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.

Y Gymraeg

Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

Iechyd

Bydd y Fframwaith hwn yn cydlynu darparu seilwaith er mwyn lleihau'r angen i deithio ac yn darparu ffyrdd digidol o gyrchu gwasanaethau. Mae mesurau cadernid yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn gyfleoedd i hybu iechyd a lles, gan gynnwys gwella ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Bydd lleihau tlodi tanwydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl.

Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn??

- Y gweithredir yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i geisio sicrhau y cynhyrchir ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel drwy amrywiaeth o dechnolegau. Os yw'n ymarferol, rhoddir y gorau'n raddol i ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni.
- Llywir cynhyrchu ynni adnewyddadwy tuag at y mannau mwyaf priodol. Bydd y Fframwaith yn hwyluso cynhyrchu o'r fath a gwna hynny â chefnogaeth cynlluniau cymunedol, llai, ar wasgar, ledled Cymru.
- Bydd datblygiadau cynhyrchu ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas) yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.
- Tybir y ffeirif camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- O ran cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir, bydd cysylltiad cryf rhwng y ddwy elfen hyn yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddir effeithlonrwydd ynni'n fawr. Bydd seilwaith storio a thrawsyrro ynni yn cael ei ddarparu'n rhagweithiol, er mwyn gwireddu potensial ynni adnewyddadwy a gwrthsefyll y newid sydd i ddod o ran yr hinsawdd.
- Canolbwyntir yn fawr ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltedd gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Bydd opsiynau lleoliad yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y bydd datblygu newydd.
- Cynllunnir perthynas aneddiadau â rhanbarthau, a hynny yng nghyd-destun yr amcanion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach. Gwneir hyn er mwyn cefnogi cyflawni amcanion datgarboneiddio.
- Egwyddor gyntaf y Fframwaith fydd llywio datblygu tuag at yr ardaloedd lle lleiheir, i'r eithaf, yr angen i deithio; ei ail egwyddor fydd llywio'r datblygu tuag at yr ardaloedd lle gellir defnyddio dulliau cynaliadwy i deithio. Cefnogir camau gweithredu i hybu effeithlonrwydd y seilwaith trafnidiaeth sydd ohoni.
- Lleoliad y canolfannau mwyaf poblog a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy fydd sail opsiynau gofodol. Lleihau tagfeydd a lleihau allyriadau, yn ogystal â lleihau symudiadau trafnidiaeth, fydd sail y prif benderfyniadau.
- Rhaid i ddefnydd tir, y prosiectau pennaf a seilwaith allu gwrthsefyll effaith y newid yn yr hinsawdd.
- Eir ati i flaenoriaethu opsiynau'n ymwneud â chysylltedd trenau/bysiau. Targedir gwelliannau ffyrdd i hwyluso datblygu cynaliadwy. Ffeirif defnyddio rheilffyrdd a'r môr, yn hytrach na hedfan, i gysylltu â gweddill y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Rhoddir blaenoriaeth i gludo nwyddau'n gynaliadwy, gan ystyried yr opsiynau o ran teithiau trên, teithiau ar y dŵr a defnyddio cerbydau trydan.
- Bydd llunio cynigion helaeth o ran Systemau Draenio Cynaliadwy a chamau cynaliadwy i reoli llifogydd. Darperir seilwaith i sicrhau cyflenwad dŵr cyson.
- Darperir tai yn y mannau mwyaf integredig a chynaliadwy. Bydd swyddi/gwasanaethau/cyfleusterau hygyrch, ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn ganolog i'r opsiynau ynghylch tai newydd.

Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

Asedau Diwylliannol

Datblygwyd prosiectau cenedlaethol yn y mannau hygrych mwyaf cynaliadwy, ac fe'u cynlluniwyd ochr yn ochr â mathau eraill o ddefnydd tir.

Tai

Cynlluniwyd tai wedi eu dylunio'n dda, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac fe'u hadeiladwyd er mwyn creu cymunedau hygrych a chynaliadwy.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Gwelwyd mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel ledled Cymru a hynny drwy amrywiaeth o dechnolegau. Gwelwyd twf da yn y sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel. Mae cynllunio craff wedi sicrhau bod yr opsiynau gofodol pennaf wedi cefnogi cyflawni amcanion cenedlaethol ac mae Cymru ar y ffordd i guro targedau datgarboneiddio 2050 Cymru.

Seilwaith band eang a seilwaith digidol

Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau datblygol.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd

Gwelwyd twf da yn y sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel, gan gefnogi newid yn gymdeithas garbon-isel a hybu mwy o ffynnu ym mhob cwr o Gymru. Cydnabyddir bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd yn y meysydd hyn.

Cymru Wledig

Mae opsiynau gofodol wedi cefnogi amcanion datgarboneiddio mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r opsiynau wedi bod o gymorth hefyd i gyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach. Mae cynlluniau ynni cymunedol a gwell seilwaith digidol a charbon-isel wedi bod o gymorth i fynd i'r afael â diboblogi.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Mae seilwaith newydd a rhanbarthau a gynlluniwyd yn dda, wedi bod yn gefn i ranbarthau ffyniannus sydd wedi helpu i gyflawni amcanion o ran datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd.

Trafnidiaeth

O ran strategaethau trafndiaeth a chynllunio cenedlaethol, mae'r cyswllt cryf rhyngddynt wedi creu cymunedau hygrych a chynaliadwy, a gynlluniwyd yn dda, a hynny ledled Cymru. Mae'r cyswllt hwn hefyd wedi cynorthwyo newid i ddefnyddio trafndiaeth garbon-isel a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Adnoddau Naturiol

Mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi bod o gymorth o ran y canlynol: sicrhau mwy o effeithlonrwydd; lleihau i'r eithaf ddefnyddio ynni'n anghynaliadwy; lleihau llygredd; a darparu ynni adnewyddadwy.

Y Gymraeg

Mae buddsoddi a chefnogaeth gref mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y cyflawnir amcanion Cymraeg.

Iechyd

Gwellwyd ansawdd aer drwy ddarparu lleoedd sydd wedi eu dylunio a'u cynllunio'n dda, ac iddynt hefyd seilwaith cysylltiedig.

Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?
O blaid Prin yr oedd anghytuno, os oedd o gwbl, ynghylch pwysigrwydd yr opsiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu a fyddai'n ofynnol i roi'r opsiwn ar waith, yn hytrach na chanolbwyntio ar briodoldeb yr opsiwn. Cydnabuwyd bod yr opsiwn hwn yn gyfle cadarnhaol i gefnogi'r sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel yng Nghymru ac ehangu'r rhain, ac yn gyfle i Gymru ddod yn un o arweinwyr y byd yn y maes hwn. Y teimlad cryf oedd mai'r opsiwn hwn, o blith yr holl opsiynau, fyddai'r un yr oedd y system gynllunio defnydd tir yn y sefyllfa orau i'w wireddu. Mae lle yr adeileddir pethau, sut y'u hadeileddir, sut y bydd lleoedd yn newid, ynghyd â chydgyssylltu gwahanol gyfranogwyr, i gyd yn rhan annatod o'r system gynllunio.
Yn erbyn Yn hytrach na bod yn groes i ysbryd yr opsiwn hwn, roedd y sylwadau negyddol a fynegwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr heriau o lwyddo i'w lwyf weithredu. Y farn oedd bod angen newid diwylliannol mawr i gyflawni'r opsiwn hwn. Mae'r system gynllunio'n rhoi gormod o sylw i safleoedd a materion lleol. Nid yw wedi arfer cyflawni amcanion gofodol a chenedlaethol. Mae'n bwysig cydnabod y bydd yr opsiwn hwn yn hwyluso'r prif brosiectau mawr, yn ogystal â chymau gweithredu bach. Y mae goblygiadau cost a dichonoldeb yn real ac maent yn effeithio ar benderfyniadau buddsoddi. Mae gofyn cydnabod y gall rhai penderfyniadau olygu y bydd llai o fuddsoddi. Mynegwyd pryder bod posibilrwydd y byddai gwahanol strategaethau'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar ardaloedd gwahanol ac y byddent, yn anfwriadol, yn amharu ar y gallu i gyflawni'r amcan hwn.
Realistig O gofio'r gefnogaeth gref gan bob sector, ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio a thargedau ynghylch y newid yn yr hinsawdd, a llunio'r strategaethau cynllunio, trafndiaeth a datgarboneiddio sy'n gyson â'i gilydd, y farn oedd bod yr opsiwn hwn yn realistig ac y gellid ei gyflawni. Derbynnid bod i'r opsiwn hwn ei heriau ond er hynny, gallai weddnewid pethau.

Opsiwn 4

Opsiwn Arall 4 – Strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
Trosolwg Cryno
Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n

cydnabod y bydd rheoli anghynaliadwy'n cael effaith andwyol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'n fframwaith cadarnhaol i helpu i sylweddoli gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein hadnoddau naturiol a sicrhau bod cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol yn gallu ymaddasu ac yn gallu gwrthsefyll newid. Drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau llygredd, bydd y Fframwaith hwn o gymorth i wneud yr ecosystemau a'r fioamrywiaeth sydd gennym yn fwy gwydn. Rhydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth gyfle i ddatblygu swyddi o safon ledled Cymru ac i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor. Byddai'r Fframwaith hwn yn defnyddio tystiolaeth sylfaenol i lywio'r datblygu tuag at y mannau mwyaf addas, gan roi blaenoriaeth bendant i'r goblygiadau o ran adnoddau naturiol wrth benderfynu ar faterion gofodol. Bydd yn canolbwyntio'n fawr ar sut y deuir i benderfyniadau a hefyd ar yr amcanion y dylid eu cyflawni, gan ddefnyddio statws cynllun datblygu'r Fframwaith i sicrhau y gwreiddir y prif egwyddorion yn ddwfn yn holl haenau'r broses benderfynu.
Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?
Yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gwlad ac iddi economi werdd a charbon-isel, ac a fydd yn barod i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fydd Cymru. Bwriedir i'r Ddeddf helpu i sicrhau llesiant hirdymor Cymru, er mwyn i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol gael economi ffyniannus, amgylchedd iach a gwydn, a chymunedau cydlynus sy'n fwrwlm i gyd. Lluniwyd yr opsiwn hwn i roi prawf ar sut y gall y cynllun gofodol cenedlaethol fod o gymorth i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd. Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.
Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?
Asedau Diwylliannol Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod y gall ein hamgylchedd naturiol a'n tirwedd, boed yn drefol neu'n wledig, ysgogi teimladau cryf, a hynny o ran lle, ysbrydoliaeth a pherthyn, ac y gallant gyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Byddai'r Fframwaith yn ceisio diogelu a gwella ein tirwedd a'n hadnoddau naturiol a hynny oherwydd eu bod yn hybu llesiant mewn sawl ffordd, gan gynnwys twristiaeth, hamdden a yn yr awyr agored, swyddi lleol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Yn benodol, byddai'n rhoi cefnogaeth i dirwedd ac i gyfleusterau lleol megis parciau, lleoedd chwarae a gwyrddfannau eraill, sy'n asedau diwylliannol ac ecolegol. Byddai gwrthwynebiad cryf i ddatblygu sy'n tansellio cadernid ein tirwedd neu'n hadnoddau naturiol, a byddai datblygu o'r fath yn cael ei lywio tuag at ardaloedd ac iddynt lai o sensitifrwydd diwylliannol.
Tai Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd o ran ei berthynas â rhwydweithiau ecolegol, ac ar yr angen i greu amgylchedd deniadol ac iach i bobl fyw ynddynt. Byddai'n llywio datblygu tai oddi wrth yr ardaloedd lle byddai hynny'n debygol o effeithio'n sylweddol ar rwydweithiau ecolegol a materion yn ymwneud â llifogydd ac yn llywio'r datblygu tuag at y mannau lle lleiheid yr angen i deithio. Byddai datblygiadau tai newydd yn croesawu'r manteision amryfal y gall seilwaith gwyrdd roi bod iddynt o ran iechyd a lles. Byddai hefyd yn cefnogi creu mannau agored a rhwydweithiau ecolegol helaethach ac yn hybu eu hygyrchedd.
Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Byddai'r opsiwn hwn yn blaenoriaethu'r gallu i (ym)addasu, o ran pobl a rhywogaethau. Byddai rhwydweithiau mannau gwyrdd a naturiol yn cael eu gwella a'u diogelu er mwyn helpu i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y Fframwaith hwn yn rhag-weld y risgiau a ddaw yn sgil y canlynol: llifogydd; ansawdd aer; y tymheredd yn codi fwyfwy; colli cynefinoedd a llystyfiant; mwy o ynysoedd gwres trefol, ac effeithiau niweidiol ar ecosystemau. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried yr elfennau hyn, yn seiliedig arnynt ac yn meithrin cadernid yn wyneb y rhain.

Byddai cynefinoedd sy'n agored i bwysau datblygu – gan gynnwys gorlifdiroedd, coetiroedd a seilwaith gwyrdd trefol – yn flaenoriaeth i gamau gweithredu rhagweithiol ac ataliol. Byddai'r gweithredu'n cynnwys camau i wneud y canlynol: diogelu'r gorchudd coed trefol a'i hybu, gofalu nad yw datblygu'n rhannu gorlifdiroedd, cael systemau draenio cynaliadwy, sicrhau dylunio sy'n ystyried dŵr, a sicrhau bod y carbon yn y pridd yn cael ei reoli'n briodol. Byddai'r opsiwn hwn o gymorth mawr o ran sicrhau bod mwy o ddefnyddio ynni'n effeithlon ac y gwirediad cyfleoedd ledled Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Seilwaith band eang a seilwaith digidol

Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi darparu seilwaith digidol newydd, gan gydnabod potensial y seilwaith hwnnw i wneud y canlynol: darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd; cefnogi arferion gwaith newydd; lleihau'r angen i deithio; a chefnogi ein dyhead i fyw mewn modd sy'n defnyddio llai o garbon.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd

Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod mai'r cyfoeth o adnoddau naturiol sydd gan Gymru yw un o'n hasedau economaidd mwyaf. Y cyfoeth hwn yw sylfaen ein sector twristiaeth a hamdden llewyrchus, ein diwydiant amaeth, a'n sector bwyd a diod cartref, sef sector sydd ymysg y gorau o'i fath yn y byd. Byddai'r Fframwaith hwn yn sylweddoli'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o adnoddau naturiol Cymru (ochr yn ochr ag adnoddau eraill), ac ar yr un pryd yn cryfhau eu cadernid er mwyn creu amgylchedd a fydd yn meithrin busnesau'r dyfodol. Byddai datblygu economaidd yn cael ei lywio oddi wrth yr ardaloedd lle gellid peri gwrthdaro â rhwydweithiau ecolegol pwysig. Byddai seilwaith gwyrdd yn rhan annatod o ddatblygu newydd. Yn ogystal, byddai datblygu newydd yn cefnogi creu rhwydweithiau ecolegol helaethach. Byddai cefnogaeth i gyfleoedd twf gwyrdd a hefyd i sylweddoli'r cyfleoedd economaidd a ddeilliai o reoli adnoddau'n gynaliadwy. Bydd tlodi'n cael ei drechu a hynny drwy sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd o adnoddau naturiol Cymru a thrwy gefnogi datblygu cadarnhaol yng nghyswllt ynni a thai yn ogystal â datblygu economaidd.

Cymru Wledig

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar gynnal ein hadnoddau naturiol a'u cefnogi, gan mai nhw yw sylfaen ein heconomi wledig, yn enwedig ein sector amaeth a'n sector twristiaeth. Bydd cynnal ecosystemau iach a gwydn a thirweddau lleol unigryw eu nodweddion yn bwysig er mwyn cynnal 'ymdeimlad â lle' cymunedau gwledig Cymru a'u hunaniaeth. Byddai'r sylw pennaf ar gefnogi atebion ar sail natur, sef atebion a ddefnyddiai amryw fanteision ein hadnoddau naturiol, a hynny er mwyn cynnal economi a diwylliant cymunedau gwledig. Yn ogystal, byddai llawer o sylw ar sicrhau y rheolid rhwydweithiau ecolegol. Byddai hyn yn cefnogi cyflawni amcanion diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Byddai'n cefnogi datblygu mewn ardaloedd gwledig pan oedd hwnnw o gymorth i gyflawni amcanion cadernid ac ecolegol. Byddai hefyd yn ceisio gwrthwynebu datblygu os oedd yn ddatblygu a allai danseilio cadernid rhwydweithiau allweddol.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Bydd y Fframwaith hwn yn cydnabod bod rhwydweithiau a mannau gwyrdd yn hanfodol er mwyn i'n dinas-ranbarthau fod yn lleoedd deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt. Byddai'n cefnogi datblygu rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, ar draws dinas-ranbarthau y'u cynlluniwyd yn dda. Cynllunnir darparu datblygu newydd a seilwaith er mwyn ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac er mwyn cefnogi diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, yn ogystal â chefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn hybu gwell dealltwriaeth o faterion rhanbarthol, er enghraifft dalgylchoedd afonydd. Bydd hefyd yn sicrhau y cynllunnir penderfyniadau ac y deir iddynt gan wybod y cyd-destun rhanbarthol yn llwyr.
Trafnidiaeth Byddai'r Fframwaith hwn yn blaenoriaethu datblygu yn y mannau sy'n lleihau'r angen i deithio. Hefyd byddai'r Fframwaith yn canolbwyntio ar rôl trafnidiaeth gyhoeddus ac ar ymyriadau i annog llai o lygredd aer. Byddai seilwaith trafnidiaeth newydd yn cynnwys seilwaith gwyrdd ac, yn bwrpasol, yn creu rhwydweithiau ecolegol helaethach a choridorau gwyrdd. Mewn mannau lle byddai'n osgoi rhannu cynefinoedd neu lle na fyddai'n effeithio'n andwyol ar ansawdd aer nac ansawdd dŵr y byddai'r seilwaith trafnidiaeth newydd.
Adnoddau Naturiol Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fyddai'n llywio'r Fframwaith hwn, gan helpu i sicrhau manteision allweddol o ran iechyd a lles, defnyddio adnoddau'n effeithlon a'u diogelu, ffynnu economaidd, a hunaniaeth cymunedau. I'w sicrhau, byddai'n blaenoriaethu rôl hanfodol ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r rhain ac amrywiaeth mawr o ganlyniadau buddiol eraill. Bydd yr opsiwn hwn yn cydweithio'n agos â'r Polisi Adnoddau Naturiol. Byddai hefyd yn canolbwyntio ar gryfhau cadernid ecosystemau, gan gynnwys eu hamrywiaeth, eu cysylltedd, eu maint, eu cyflwr a'u gallu i ymaddasu. Byddai blaenoriaeth i welliannau amgylcheddol. Bwrid ymlaen yn ddyfal i hybu creu cynefinoedd a rhwydweithiau i sicrhau cadernid ecolegol. Yn achos datblygiadau ynghylch ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas), bydd y rhain yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor. Bydd gwella ansawdd aer yn un o'r prif flaenoriaethau.
Y Gymraeg Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.
Iechyd Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod y gall ein hamgylchedd naturiol a'n tirwedd, boed yn drefol neu'n wledig, ysgogi teimladau cryf, a hynny o ran lle, ysbrydoliaeth a pherthyn. Byddai'n ceisio diogelu a gwella ein tirwedd a'n hadnoddau naturiol a hynny oherwydd eu bod yn hybu llesiant mewn sawl ffordd, gan gynnwys lleihau llygredd, gofalu bod gwyrddfannau naturiol yn fwy hygyrch, hybu iechyd corfforol a hybu iechyd meddwl. Bydd sicrhau mwy o ffynnu drwy dwf gwyrdd o gymorth i leihau anghydraddoldeb iechyd.
Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?
Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fydd un o'r prif elfennau a fydd yn sbarduno'r opsiwn arall hwn. Bydd yr egwyddorion hynny wedi eu gwreiddio'n

ddwfn yn y system gynllunio, a hynny drwy gyfrwng y Fframwaith.

- Rhoddir cefnogaeth gref i'r canlynol: amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth.
- Bydd datblygiadau cynhyrchu ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas) yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.
- Bydd y cysylltiadau cryf â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac â'r Polisi Adnoddau Naturiol yn fframwaith cydlynus ar gyfer pob gweithgaredd yng Nghymru. Bydd y cysylltiadau hyn yn ganolbwynt hefyd wrth ystyried effeithiau amgylcheddol datblygu ac wrth asesu'r opsiynau rhesymol eraill.
- Bydd y meysydd eraill yn gyson â'i gilydd o ran polisi a rheoleiddio, gan barchu cyfyngiadau gofodol a cheisio cyfleoedd datblygu cynaliadwy.
- Ystyrir bod pob tir (gan gynnwys tir trefol) yn adnodd naturiol a all gynnal bioamrywiaeth. Disgwylir y bydd integreiddio seilwaith gwyrdd, neu atebion ar sail natur, er mwyn cryfhau bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau, yn rhan o ddatblygu.
- Bydd helaethu rhwydweithiau gwyrdd arloesol a chynefinoedd o safon ac iddynt fioamrywiaeth, yn enwedig mewn dinas-ranbarthau, o gymorth i feithrin ein cysylltiad â byd natur.
- Blaenoriaethir Systemau Draenio Cynaliadwy, ynghyd â rheoli llifogydd yn gynaliadwy. Darperir seilwaith i sicrhau cyflenwad dŵr cyson. Bydd dalgylchoedd afonydd yn un o'r prif ystyriaethau wrth lunio cynlluniau a dod i benderfyniadau.
- Diogelir gwyrddfannau naturiol a'u gwella, gan gynnwys y rhai sydd yn ymyl llwybrau trafnidiaeth allweddol, er mwyn creu rhwydweithiau gwyrdd, ac ar draws dinas-ranbarthau. Bydd ffurfiau gofodol newydd i rwydweithiau gwyrdd, gan gynnwys ffyrdd sy'n dilyn patrwm llinell syth, ac yn cysylltu â rhwydweithiau bioamrywiaeth naturiol.
- Nod rhwydweithiau gwyrdd fydd dod â sawl budd strategol o ran parhad cynefinoedd a symudiadau rhywogaethau.
- O ran bioamrywiaeth, tirweddau, ardaloedd dyfrol a phridd, osgoir effeithio arnynt, gan liniaru hynny ac addasu yn ei sgil. Hybir poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd.
- Gweithredir yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i geisio sicrhau y cynhyrchir ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel drwy amrywiaeth o dechnolegau. Os yw'n ymarferol, rhoddir y gorau'n raddol i ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni.
- Llywir cynhyrchu ynni adnewyddadwy tuag at y mannau mwyaf priodol. Bydd y Fframwaith yn hwyluso cynhyrchu o'r fath. Gwna hynny â chefnogaeth cynlluniau cymunedol, llai, ar wasgar, ledled Cymru.
- Hybir effeithlonrwydd ynni'n fawr a bydd seilwaith storio a thrawsyrru ynni yn cael ei ddarparu'n rhagweithiol, er mwyn gwireddu potensial ynni adnewyddadwy a

gwrthsefyll y newid sydd i ddod o ran yr hinsawdd.

- Tybir y ffeirif camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

Asedau Diwylliannol

Mae prosiectau cenedlaethol wedi eu datblygu ar sail amgylchedd naturiol a thirwedd unigryw Cymru.

Tai

Mae tai wedi eu hadeiladu ledled Cymru, a hynny mewn mannau sy'n gwneud y gorau o'r amryfal fanteision a ddaw o adnoddau naturiol Cymru, gan ategu amcanion iechyd a lles, a heb effeithio'n arwyddocaol ar ardaloedd ecolegol pwysig.

Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni

Mae Cymru wedi cynllunio ar sail y risgiau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd ac mae wedi ymaddasu iddynt, gan sicrhau cadernid ledled Cymru. Gwelwyd mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel.

Seilwaith band eang a seilwaith digidol

Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau datblygol.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd

Gwelwyd twf da mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth. Mae hyn wedi cefnogi newid yn gymdeithas garbon-isel. Cydnabyddir mai Cymru yw un o'r gwledydd sy'n arwain y byd yn y meysydd hyn.

Cymru Wledig

Mae ardaloedd gwledig yn ffynnu, yn iach ac yn wydn. Maent hefyd ar eu hennill yn sgil y twf a'r buddsoddi mewn cynnal a chefnogi ein hadnoddau naturiol.

Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf

Mae dinas-ranbarthau – a gynlluniwyd ar sail seilwaith gwyrdd ac adnoddau naturiol – yn ddeniadol, yn iach ac yn ffynnu. Maent yn esiamplau o'r modd y cafodd twf ei lywio i gyflawni ein hamcanion lles.

Trafnidiaeth

Mae atebion trafndiaeth wedi creu rhwydweithiau gwyrdd, gan gefnogi amcanion iechyd ac ecolegol, a symud/teithio cynaliadwy.

Adnoddau Naturiol

Mae Cymru yn arwain y byd o ran sylweddoli'r amryfal fanteision a ddaw yn sgil adnoddau naturiol.

Y Gymraeg

Mae cefnogaeth gref a buddsoddi mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y diwellir amcanion Cymraeg.

Iechyd

Darperir lleoedd o safon ac mae cyfleusterau a gwasanaethau ar gael yn gynaliadwy. Mae'n haws cyrchu byd natur ac mae llai o lygredd.

Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?

O blaid

Ystyrid mai hwn oedd yr opsiwn mwyaf unigryw ei nodweddion. Unigryw yn yr ystyr ei fod yn ddull gwahanol a newydd o ymdrin â chynllunio gofodol. Unigryw hefyd yn yr ystyr y byddai strategaeth ofodol a ddatblygid ar sail adnoddau naturiol Cymru yn strategaeth unigryw i Gymru.

Credid bod yr opsiwn hwn yn ffafrio ffordd well o fesur 'ffynnu'. Yn hytrach na bod yn gwbl seiliedig ar y safbwynt economaidd, ei nod oedd gwireddu gwerthoedd ehangach. Roedd cefnogaeth gref i dwristiaeth ac i gydnabod pwysigrwydd hyn i Gymru.

Mynegwyd y farn mai da o beth fyddai canolbwyntio ar yr adnoddau sydd gennym yng Nghymru, a ninnau'n byw mewn cyfnod ansicr, a chyda'r newidiadau a ddeuai yn sgil Brexit dros y tymor canolig (a thu hwnt i hynny efallai).

Awgrymodd rhai bod pob tir, gan gynnwys ardaloedd trefol, yn adnodd naturiol ac felly bod yr opsiwn hwn yn berthnasol i Gymru gyfan. Roedd eraill o'r farn fod hwn yn opsiwn cryf iawn i rannau o Gymru. Yn achos Canolbarth Cymru a Chymru wledig yn benodol, byddai canolbwyntio ar adnoddau naturiol yn gam cadarnhaol ac yn sail i fuddsoddi a gweithredu.

Yn erbyn

Roedd teimlad cryf nad oedd yr opsiwn hwn yn sail i strategaeth ofodol genedlaethol. Roedd yn canolbwyntio ar rannau o Gymru, ond nid ar Gymru gyfan. Roedd yn bosibl hefyd na fyddai ganddo ddim i'm ddweud am rai o'r problemau mwyaf yr oedd Cymru yn eu hwynebu. Er bod llawer o syniadau cadarnhaol, delfryd cyffredinol oedd yr opsiwn hwn. Nid yw'n amlinellu sut y byddai'r elfennau cadarnhaol yn cael eu gwireddu ac ni all ddygymod â'r darlun ehangach.

Ystyrid bod opsiynau eraill yn canolbwyntio'n fawr ar gyfres benodol o amcanion neu ganlyniadau. Y farn oedd bod yr opsiwn hwn yn gryf mewn mannau ac yn wan mewn eraill. Ystyrid na fyddai'r ansicrwydd hwn o gymorth mewn strategaeth genedlaethol.

Credid y byddai'r opsiwn hwn yn arafu'r economi ac y defnyddid y polisi i atal y math o ddatblygu a oedd yn anghyson â'i ganolbwynt cul. Mynegwyd y farn fod yr opsiwn hwn a'i egwyddorion sylfaenol yn llawn bwriadau da ond yn blwyfol eu golygon, nad oeddent yn wir yn gyson â bywyd go iawn yng Nghymru. Roedd pryderon hefyd fod yr opsiwn yn rhy gul ei olygon ac na cheisiai roi Cymru mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol ehangach.

Realistig

Ystyrid ei bod yn anos dirnad yr opsiwn hwn yn syth, o'i gymharu â'r lleill. Amlygai ffordd arall o feddwl yn ofodol a chodai gwestiynau gwahanol. Roedd llawer o'r farn y dylid dal ati â'r egwyddorion craidd ond yn rhan o strategaeth ofodol ehangach. Barn eraill oedd ei bod yn afresymol diystyru'r dull hwn ar ddechrau'r broses, ar y sail nad oedd yr atebion i gyd yn hysbys. Rhoi prawf ar bethau, asesu a chaboli yw diben y cam hwn a dylid ymchwilio i'r opsiwn hwn a'i ddatblygu.

Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd, cytunir â'r farn ei bod yn rhy gynnar i ddod i'r casgliad bod yr opsiwn hwn yn afrealistig ar hyn o bryd. Roedd cytundeb cyffredinol y dylai llawer o'r prif dybiaethau fod yn rhan o'r strategaeth ddatblygol. Roedd llawer o'r anghytuno ynghylch i ba raddau y dylai hyn ddigwydd, yn hytrach nag ynghylch a ddylid eu hystyried o gwbl.

Yr Opsiwn Meincnodi

Yr Opsiwn Meincnodi – Peidio â llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Trosolwg Cryno a Pham y lluniwyd yr opsiwn hwn?
Peidio â llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fyddai'r opsiwn hwn. Byddai'r cynllun presennol, sef Cynllun Gofodol Cymru, yn parhau'n gynllun gofodol cenedlaethol. Nid yw Cynllun Gofodol Cymru yn un ac iddo statws cynllun datblygu. O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) mae'n ofynnol llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nid yw hwn yn opsiwn realistig felly. Y mae'n gyfle er hynny i ystyried yr hyn a fyddai'n digwydd pe na bai Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei lunio a sut y byddid yn dod i benderfyniadau cynllunio strategol cenedlaethol. Mae'n feincnod pwysig wrth geisio deall yr opsiynau posibl eraill. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn dal yn gynllun strategol pwysig ac mae llawer o'r dulliau polisi allweddol yn dal yn ddilys. Un o'i wendidau yw'r ffaith nad oes iddo statws cynllun datblygu na'r gallu i ddylanwadu ar benderfynu. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn newid. Byddai gallu'r system gynllunio i ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r amcanion datgarboneiddio sydd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyfyngu i gamau gweithredu lleol a hynny heb safbwynt strategol rhychwantol.
Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?
Asedau Diwylliannol Byddai diwylliant yn cael ei hybu'n gymunedol ac yn lleol. Cydnabyddir y cysylltiad â ffynnu economaidd ond ar y cyfan, ni fyddai'r maes hwn yn flaenoriaeth.
Tai Byddai'r newid yn yr hinsawdd yn fater brys. Yn achos y prif ddatblygiadau, effaith y datblygu hwnnw ar yr amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd fyddai sail y penderfynu. Pe bai/wrth i lefel y môr godi fwyfwy, byddai'n bwysig sicrhau y gellid ymdopi â hynny, gan leihau'r risgiau i bobl ac i eiddo.
Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni Byddai angen camau gweithredu lleol i sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu at yr amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd, gyda chefnogaeth, er enghraifft, i deithio llesol a mentrau gwyrddu lleoedd. Byddai'r polisi ynni yn gyson â pholisïau cenedlaethol (ee targedau ynni a datgarboneiddio). Byddai hefyd yn seiliedig ar ddull rhanbarthol, a disgwylid i'r rhanbarthau arfer eu cryfderau a'u mantais gystadleuol.
Seilwaith band eang a seilwaith digidol Byddai band eang a'i ddarpariaeth yn cael ei ystyried yn fater rhanbarthol. Y rhanbarthau eu hunain fyddai'n ymdrin â heriau megis 'mannau gwan'. Byddai band eang cyflym yn flaenoriaeth i ardaloedd lle gwelid gweithgarwch o werth economaidd mawr. Byddai ymyriadau'r Llywodraeth yn ymatebol, gan fynd i'r afael â phroblemau nad oedd modd i'r farchnad eu datrys.

Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd Byddai adfywio yn fodd allweddol i wneud Cymru gyfan yn fwy ffyniannus. Sail ranbarthol fyddai i brosiectau. Byddai gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran nodi ardaloedd prosiect, yr elfennau sbarduno, a phennu'r uchelgais ar gyfer canlyniadau at y dyfodol. Mae sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cryfderau rhanbarthol sydd ohoni yn gwbl allweddol i amcanion ffynnu economaidd. Camau gweithredu lleol a rhanbarthol yw'r cyfrwng pennaf o ran helpu i leihau anghydraddoldeb a sicrhau bod pawb yn ffynnu.
Cymru Wledig Byddai ardaloedd gwledig yn cael sylw mawr iawn. Darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol hygyrch i ardaloedd gwledig fyddai un o'r prif flaenoriaethau. Byddai arian gan y Llywodraeth ac arian Ewropeaidd ar gael i helpu i gyflawni hyn. Roedd trafnidiaeth a swyddi yn ddau o'r prif flaenoriaethau hefyd wrth helpu i gynnal bywyd gwledig, llawn bwrllwm. Byddai cefnogaeth gref i gamau gweithredu yn y meysydd hyn.
Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf Byddai cefnogaeth i ddatblygu dinas-ranbarthau er mwyn sbarduno ffynnu economaidd o amgylch Caerdydd ac Abertawe, ac yn y Gogledd-ddwyrain. Mae gan bob dinas-ranbarth gryfderau unigryw a'r rhain fydd y sylfaen wrth geisio datblygu economïau rhanbarthol cryf. Byddai cefnogaeth i'r dull rhanbarthol a amlinellir yng Nghynllun Gofodol Cymru ar gyfer rhannau eraill o Gymru.
Trafnidiaeth Defnyddir dull o'r-gwaelod-i-fyny i ymdrin â materion trafnidiaeth pob dydd. Deuir â materion ardal ynghyd i ganfod y blaenoriaethau rhanbarthol. Deuir â materion rhanbarthol ynghyd i ganfod y blaenoriaethau cenedlaethol. Ystyrir bod buddsoddi mewn trafnidiaeth yn fodd allweddol i gefnogi adfywio a chefnogi amcanion economaidd.
Adnoddau Naturiol Ystyrir adnoddau naturiol o safbwynt lleol. Maent yn asedau lleol sydd o gymorth i bennu pa fath o ddatblygu sy'n briodol mewn ardal, a maint y datblygu hwnnw. Heblaw am yr angen i sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, nid oes dim dull na pholisi cenedlaethol yn bwysicach na'r llall.
Y Gymraeg Mae cefnogaeth i gymdeithas ddwyieithog a modern, lle mae'r Gymraeg yn nodwedd gymunedol. Bydd cynllunio o gymorth i ddarparu lleoedd i fywyd cymunedol ffynnu. Nid oes cysylltiad cryf rhwng iaith a ffynnu.
Iechyd Byddai'n meithrin cymunedau cynaliadwy drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella iechyd a chael gwared ar dlodi plant. Byddai'n creu ac yn cynnal y cyfuniad iawn o wasanaethau a byddai'r rheini yn rhan o aneddiadau allweddol neu wrth eu hymyl, a gellid defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i'w cyrraedd.
Y berthynas â'r Cynlluniau Datblygu Strategol/Cynlluniau Datblygu Lleol Byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, sef bod y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gorfod ystyried Cynllun Gofodol Cymru, ond hyn a hyn o berthynas fyddai mewn gwirionedd. Mater i'r Cynlluniau Datblygu Strategol fyddai diffinio eu hamcanion strategol eu hunain, gan nad oedd cyd-destun Cymru gyfan. Yn yr ardaloedd hynny lle nad oedd Cynllun Datblygu Strategol (neu lle na luniwyd un hyd yma), y Cynlluniau Datblygu Lleol

fyddai'n ymdrin â materion megis ynni adnewyddadwy, diboblogi ac anghysondeb o ran datblygu tai.

Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?

- Nid oes cynllun datblygu cenedlaethol.
- Y system gynllunio datblygu lleol fyddai'r haen bennaf o ran llunio cynlluniau a phenderfynu. Maes o law, mewn rhannau o Gymru, roedd yn bosibl y byddai Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu llunio.
- Bydd y tueddiadau presennol yn parhau. Byddai'r cynnydd a ddisgwyliid, o ran cyrraedd prif dargedau Llywodraeth Cymru a chyflawni ei phrif amcanion, yn parhau ar ei drywydd presennol.
- Yn ofodol, ni fyddai safbwynt y polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei newid i gyd-fynd â gofynion Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bydd adfywio ac ardaloedd gwledig yn cael sylw mawr.
- Ystyriaeth gymharol ddibwys yw band eang.
- Byddai tai'n fater a ystyrid ar wahân, heb ei gysylltu ag amcanion ehangach.
- Byddai amcanion trafnidiaeth yn cael eu cysylltu'n rhannol ag amcanion ffynnu ond nid ystyrid eu bod yn elfen ganolog o ran cyflawni amcanion ehangach.
- Ystyrid bod adnoddau naturiol ac ynni yn faterion rhanbarthol, heb safbwynt cenedlaethol na statws blaenoriaeth.
- Byddai'r newid yn yr hinsawdd yn elfen ganolog ac yn flaenoriaeth.

Opsiynau Eraill a Aseswyd: 24 Tachwedd 2017

Tabl C-1: Amcan 1 yr ACI: Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Hawliau Plant, yr Economi

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cefnogi twf economaidd mewn ardaloedd lle mae'r marchnadoedd cryfaf. Byddai hyn yn darparu effeithiau buddiol i'r ardaloedd hyn. Mae'n bosibl y ceir buddion anuniongyrchol o ddatblygu sgiliau trwy gyfleoedd cyflogaeth ym meysydd ffocws y farchnad. Fodd bynnag, mae amcan yr ACI yn ceisio cyflawni lefelau uchel o addysg i bob aelod o'r gymdeithas. Er ei bod yn bosibl y bydd yr opsiwn yn arwain at fuddion sylweddol i rai, mae'n annhebygol y bydd yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb addysg, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at fwy o begynnu, yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir yr amddifadedd mwyaf o ran addysg, megis yn y cymoedd neu yn y gogledd-orllewin. Gall hyn effeithio'n andwyol ar y rhai hynny nad ydynt yn ymwneud â diwydiannau y gellir eu creu yn rhan o ffocws y farchnad. Nid yw'r opsiwn hwn yn ymdrin â darpariaeth addysg neu fynediad ati, na darpariaeth hyfforddiant sgiliau. Ceir cyfle i gyfeirio'n fwy penodol at addysg a datblygu sgiliau, gan gynnwys sut y bydd cydraddoldeb o ran darpariaeth addysg yn cael ei gyflawni.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Mae'r opsiwn yn cynnwys pwyslais cadarn iawn ar leihau anghydraddoldebau a diwallu anghenion lleol, gan geisio cyflawni cymunedau lleol cryf. Mae'r dull hwn o'r gwaelod i fyny yn cynnwys cyflawni a darparu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a allai gynnwys addysg a chyfleusterau hyfforddi a chyfleoedd dysgu gydol oes. Gall yr opsiwn hwn arwain at effeithiau cadarnhaol yn sgil darparu seilwaith cymdeithasol ym mhob rhan o Gymru. Gall gwyrddio datboblogeiddio gwledig fod yn fuddiol i hyfywedd ysgolion gwledig, a byddai gwell cysylltedd digidol yn atgyfnerthu hyn yn gadarnhaol. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â phwyslais trefol cul Opsiwn 1. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd posibl o ran cyflawni heb yr ysgogiadau economaidd a'r cryfderau y gellid eu cyflawni o dan Opsiwn 1. Gellid atgyfnerthu hyn pe caiff yr opsiwn hwn ei ddwyn ymlaen fel yr opsiwn a ffeirif.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+	Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i gynnwys mynediad at addysg a hyfforddiant, yn arbennig mewn sectorau sy'n ymwneud â datgarboneiddio, fodd bynnag nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr opsiwn ar ei ffurf bresennol. Ceir pwyslais cryf yn yr opsiwn ar gysylltedd cymunedau lleol a lleihau'r angen i deithio. Gallai hyn arwain at effeithiau cadarnhaol ar fynediad at addysg, sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol gwan, yn arbennig mewn ardaloedd sydd efallai wedi'u hynysu o wasanaethau a chyfleusterau ar hyn o bryd.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	+/-	Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i gynnwys mynediad at addysg, sgiliau a hyfforddiant, fodd bynnag nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr opsiwn ar ei ffurf bresennol. Gallai lleoli'r datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy arwain yn uniongyrchol at wella mynediad at gyfleusterau addysg. Fodd bynnag, mae'n llai tebygol nag opsiwn 3 i gyflawni gostyngiad mewn

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy		anghydraddoldebau ar lefel genedlaethol. Fel arall, gallai arwain at waethygu anghydraddoldebau addysg mewn ardaloedd mwy gwledig, pe byddai'r opsiwn yn arwain at gynydd mewn ynysu cymunedau gwledig am resymau diogelu amgylcheddol.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Heb yr NDF, mae'n debygol y bydd Cynllun Gofodol Cymru a mentrau polisi eraill yn parhau i ffurfio'r cynllun datblygu yn genedlaethol. Mae'r polisi presennol yn ceisio mynd i'r afael â materion mynediad at gyfleusterau megis addysg, ac yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn addysg a galluogi twf economaidd yn y dyfodol. Felly, rhagwelir effeithiau cadarnhaol o ran yr amcan hwn.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad yr Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn 2 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 1 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr opsiwn a ffefrir yn cynnwys: • Creu cymunedau sy'n fwy cydlynus a chydradd (P3, P2, PE9, AS1) • Pwysigrwydd seilwaith cymdeithasol wrth greu lleoedd (P3, AS1) • Gwyrddio'r datboblogeiddio gwledig (R1, R2, R3, R4, PE6) • Gwelliannau i gysylltedd digidol (PE3) Mewn ymateb i'r ansicrwydd posibl a nodir gan Arcadis o ran cyflawni heb yr ysgogiadau economaidd a'r cryfderau y gellid eu cyflawni o dan opsiwn 1, mae pwyslais cryf yn yr opsiwn a ffefrir ar gefnogi amcanion economaidd (P3, PE5, PE6, PE7, PE9). Sgoriodd Opsiwn Arall 3 yn gadarnhaol hefyd, ac amlygodd bwysigrwydd cynnwys yn yr opsiwn a ffefrir: • Cysylltedd cymunedol lleol a lleihau'r angen i deithio (P2, AS4, R1, AS1)

Tabl C-2: Amcan 2 yr ACI: Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru

Aseidiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
--------------	------	----------

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	--	Gall cynyddu ffyniant yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf arwain at gynydd mewn buddion iechyd yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr opsiwn yn lleihau'r potensial i gael mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, gan gyfyngu mynediad da dim ond i'r ardaloedd lle mae'r farchnad yn gryf. Gallai hyn arwain at gynydd o ran anghydraddoldeb, rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a fydd yn effeithio'n benodol ar blant a phobl hŷn ac yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd eisoes, megis y Cymoedd ac arfordir gogledd Cymru, a fydd yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol. Gall darparu seilwaith newydd sy'n canolbwyntio ar ardaloedd presennol lle mae'r galw am y farchnad yn gryf, arwain at gynydd mewn llygredd crynodedig, a all arwain at effeithiau negyddol ar iechyd poblogaethau trefol. Mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn hwn yn creu cyfleoedd i ymaddasu i'r risgiau i iechyd yn sgil y newid yn yr hinsawdd, hyd yn oed mewn ardaloedd lle ceir twf, gan na fyddai'n flaenoriaeth. Byddai darparu seilwaith gwyrdd a mannau agored wedi'i seilio ar ddarpariaeth y farchnad, a fyddai'n arwain o bosibl at ostyngiad yn y cyflenwad. Gall colli mannau gwyrdd yn sgil gwaith datblygu arwain at effeithiau negyddol, a phrin y byddai'n cyfrannu at ffyrdd iach o fyw.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ddull gwasgaredig wedi'i seilio ar angen lleol, a gall hyn leihau anghydraddoldebau ac arwain at gynydd mewn buddion iechyd ar gyfer cymunedau. Gallai gwella hygyrchedd mewn cymunedau gwledig a gwyrddio'r cwmp yn y boblogaeth arwain at gynydd mewn mynediad at gyfleusterau a hyfywedd eu darpariaeth, gan gynnwys mannau agored a chynyddu mynediad at yr amgylchedd naturiol, a allai arwain at effeithiau buddiol mawr o ran iechyd corfforol a meddwl. Mae'r opsiwn yn cefnogi creu cymunedau cynaliadwy, lleoedd wedi'u dylunio a'u cynllunio'n dda â'r bwriad o'i gwneud yn bosibl i ymaddasu i risgiau o ran y newid yn yr hinsawdd ac effeithiau ar iechyd. Gallai cyflawni ynni adnewyddadwy ar raddfa fach leihau tloedi tanwydd.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnydd tir a defnyddio a gwella patrymau trefol a gwledig presennol, a sut y gellir eu haddasu i wella'u cynaliadwyedd, gan gyflawni'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a'r buddion iechyd a gyflawnir o ganlyniad i hyn. Ceir potensial i gyflawni buddion iechyd ar raddfa fawr trwy ddatgarboneiddio'r economi, a allai arwain at welliant mewn ansawdd aer, ansawdd dŵr, a gostyngiad mewn mathau eraill o lygredd a all effeithio ar iechyd. Hefyd, dylai'r pwyslais ar ddefnyddio lleoliadau cynaliadwy, gwella cysylltedd a chynyddu'r dulliau o deithio'n gynaliadwy, gynyddu mynediad at gyfleusterau, gan arwain at lawer o fuddion iechyd uniongyrchol ac anuniongyrchol. Ceir potensial i leihau'r anghydraddoldeb iechyd mewn ardaloedd gwledig trwy'r pwyslais ar gymunedau sy'n canolbwyntio'n lleol.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	+	Mae gan yr opsiwn y potensial i gyflawni buddion iechyd sylweddol a phellgyrhaeddol trwy leihau llygredd aer, llygredd dŵr a mathau eraill o lygredd a all effeithio ar iechyd, a chyflawni'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Gallai'r pwyslais ar ddefnyddio lleoliadau cynaliadwy, cysylltedd a chynyddu mannau gwyrdd, arwain at lawer o fuddion uniongyrchol ac

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy		anuniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yn arwain at fuddion cadarnhaol sylweddol o ran ymdrin â materion sy'n effeithio ar iechyd, megis bod yn ynysig, poblogaeth yn heneiddio, ansawdd tai.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Mae'r polisi presennol yn ceisio gwella darpariaeth gwasanaethau iechyd, gwella mynediad a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol o ran yr amcan hwn yn y pen draw.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad yr Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 2 a 3 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 2 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr opsiwn a ffefrir yn cynnwys: • Gwella hygyrchedd mewn cymunedau gwledig a gwyrddio'r cwmp yn y boblogaeth (P3, AS1, AS4, R4) • Cynyddu mynediad at yr amgylchedd naturiol (P2, DN3, DN5) • Cymunedau cynaliadwy wedi'u cynllunio a'u dylunio'n dda (P2, P3, AS1, AS4, R1) • Ymaddasu i risgiau o ran y newid yn yr hinsawdd/ gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd (P1, P2) • Cyflawni prosiect ynni adnewyddadwy bach (P2, PE2) • Datgarboneiddio'r economi (P1, PE8) • Wrth ddefnyddio lleoliadau cynaliadwy, gwella cysylltedd a chynyddu dulliau teithio llesol (P2, AS4) • Pwyslais ar gymunedau gwledig (P2, P3, R4, R5) Sgoriodd Opsiwn Arall 4 a 5 yn gadarnhaol hefyd, ac amlygodd bwysigrwydd cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir: • Lleihau llygredd aer, llygredd dŵr a mathau eraill o lygredd (P1, P2, P3, DN2) • Cynyddu mannau gwyrdd (DN3, DN5) • Gwella darpariaeth gwasanaethau iechyd (P2, R3, R4)

Tabl C-3: Amcan 3 yr ACI: Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+	Bwriad yr opsiwn yw cyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ond bydd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd twf a nodir yn hytrach nag ar bob rhan o Gymru. Felly, nid yw'n debygol y bydd yn cyfrannu at gynhwysiant economaidd ledled y wlad. Mae'r opsiwn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran gwella mynediad at swyddi mewn ardaloedd twf, cynyddu nifer y bobl sy'n fodlon â'u swyddi, a chreu cyfleoedd i fuddsoddi a thyfu a datblygu sgiliau, yn arbennig o ran dinas-ranbarthau.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Gallai'r opsiwn arwain at gynydd mewn cyfleoedd economaidd ledled Cymru, ond mae'n bosibl y bydd hyn wedi'i gyfyngu gan ddifffyg cefnogaeth amlwg ar gyfer twf economaidd a'r marchnadoedd. Mae effeithiau cadarnhaol yr opsiwn yn cynnwys cefnogi buddhad yn y swydd a mynediad ffisegol at gyfleoedd cyflogaeth, ond nodir efallai na fydd yn creu cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad. Gallai'r diffyg pwyslais ar ddinas-ranbarthau arwain at gyfleoedd prin.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio tir yn gynaliadwy a gwella patrymau trefol a gwledig presennol, gan gynnwys sut y gallant wella'u potensial i gyflawni mwy o ddatblygiad cynaliadwy, a chyflawni mynediad cynaliadwy at swyddi a chyfleusterau. I ryw raddau mae hyn yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol presennol, a gallai greu cyfleoedd mewn marchnad gyflogaeth fwy cynaliadwy a chynyddu sgiliau yn y math hwn o economi. Hefyd, gallai gefnogi arbenigedd a chlystyrau mewn rhai ardaloedd. Bwriad yr opsiwn yw cyflawni seilwaith trafndiaeth rhanbarthol sydd wedi'i gysylltu'n dda ac sy'n darparu cyfleoedd teithio llesol â buddion cymunedol ehangach, gan gefnogi bargeinion dinas-ranbarth a thwf. Nodir y gall cyflawnadwyedd fod yn broblem, gan gynnwys costau cysylltiedig.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	+/-	Mae'n bosibl y bydd yr opsiwn hwn yn cyfyngu ar dwf ac felly cyfleoedd cyflogaeth, wrth i gyfleoedd gael eu cyfyngu i rannau penodol o Gymru. Felly, gall yr opsiwn hwn gyfyngu ar y potensial am gynhwysiant cymdeithasol, yn arbennig mewn ardaloedd llai datblygedig a all gael mwy o ddiogelwch amgylcheddol. Gallai cyflawni seilwaith gwyrdd, rhwydweithiau a all wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a mynediad at yr amgylchedd naturiol, greu lleoedd deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi, gan ddarparu cyd-destun rhanbarthol a chymorth posibl i fargeinion dinas-ranbarth a thwf. Gellid cyflawni effeithiau cadarnhaol trwy hwb posibl i'r economi twf gwyrdd, a allai gynnwys cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru wledig.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+/-	Byddai pwyslais rhanbarthol yn parhau heb yr NDF, wrth geisio cyflawni ffyniant economaidd, gan gynnwys sicrhau'r cryfderau rhanbarthol mwyaf posibl, i leihau anghydraddoldeb a chyflawni ffyniant. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy fentrau adfywio a pholisïau cynllunio presennol LIC, megis Polisi Cynllunio Cymru. Fodd bynnag, mae tueddiadau presennol yn nodi bod allbwn economaidd Cymru wedi bod tu ôl i'r DU ac mai Cymru yw'r rhanbarth â'r perfformiad gwaethaf. Mae'r materion hyn yn ymwneud â chyfraddau cyflogaeth cymharol isel ac enillion isel, er y bu'r rhain yn cynyddu. Mae tueddiadau o ran gwahaniaethau daearyddol megis amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd de Cymru a rhai o'r trefi

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		arfordirol yng ngogledd Cymru, yn debygol o barhau, a fydd yn arwain at gymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o beidio â gweithredu'r NDF.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 1, 2 a 3 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 3 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys: • Cyfrannu at gynhwysiant economaidd ledled y wlad (P1, P3, PE3, PE5, PE6, AS1) • Gwellu mynediad at swyddi mewn ardaloedd twf (P1, PE4, PE5, PE6, PE7, AS1) • Dinas-ranbarthau (PE5, PE6, AS1, R3) • Cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad (P1, PE1, PE3, PE4, PE5) • Cefnogi arbenigedd a chlystyrau mewn rhai ardaloedd (R1, R5) • Seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol (PE8, R3, R4)

Tabl C-4: Amcan 4 yr ACI: Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Trwy gyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf, mae'n bosibl y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar gystadleurwydd a buddsoddiad mewnol, a all arwain at sgil-effeithiau cadarnhaol mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae Amcan yr ACI yn ceisio cyflawni twf economaidd cynaliadwy, ac mae'n annhebygol y caiff hyn ei gyflawni o dan yr opsiwn hwn. Bydd cyfleoedd i allu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn well, yn cael eu cyflawni dim ond os ydynt yn gydnaws â'r targedau twf economaidd. Gallai'r opsiwn helpu i gyflawni seilwaith mewn ardaloedd twf neu pan fo angen hynny ar y farchnad. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfrannu at welliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig.

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae'r opsiwn hwn yn gynaliadwy mewn egwyddor, os gellir ei gyflawni. Mae'r opsiwn yn cefnogi amrywiaeth economaidd lleol ac yn cyflawni prosiectau seilwaith bach. Hefyd, mae'n debygol y bydd yn cefnogi BBaChau, y trydydd sector a microfusnesau. Gallai'r opsiwn hwn gyfrannu at welliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig. Fodd bynnag, gellid lleihau arwyddocâd posibl yr effeithiau cadarnhaol oherwydd nad yw'n opsiwn grymus, a gallai hyn gyfyngu ar gystadleurwydd a thwf economaidd a buddsoddiad.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ddefnydd tir a gwella patrymau trefol a gwledig presennol, a allai gefnogi economi gynaliadwy a thwf mewn sectorau sy'n gysylltiedig â hyn. Gallai hyn arwain at fuddion o ran yr amcan hwn, gan gynnwys cyflawni seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yr opsiwn wedi'i gyfyngu gan y pwyslais cyfan gwbl ar dwf gwyrdd a datgarboneiddio. Gall costau cysylltiedig, cyflawnadwyedd a datblygiad technoleg gyfyngu ar ei gynnydd. Hefyd, nid yw'n cefnogi rhai sectorau twf eraill gystal.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	-	Mae'r opsiwn yn cefnogi ymagwedd gul at dwf cynaliadwy ac effaith brin ar ffyniant cenedlaethol ac amrywiaeth economaidd. Mae'n canolbwyntio ar rannau penodol o Gymru, sy'n debygol o fod yn llai sensitif yn amgylcheddol. Gallai hyn arwain o bosibl at effeithiau negyddol, gan fod y tueddiadau presennol o ran anghydraddoldeb ac enillion cyfartalog is yng Nghymru yn debygol o barhau. Byddai'r opsiwn hwn yn ceisio cyflawni datblygiad economaidd cadarn o ran risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod bod adnoddau naturiol Cymru ymhlith ei hasedau economaidd gorau.
5: Opsiwn Meincodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+/-	Heb yr NDF, byddai pwyslais rhanbarthol ar dwf economaidd yn parhau, gan geisio lleihau anghydraddoldebau a chyflawni ffyniant. Fodd bynnag, mae tueddiadau presennol yn nodi bod allbwn economaidd Cymru wedi bod tu ôl i'r DU ac mai Cymru yw'r rhanbarth â'r perfformiad gwaethaf. Mae'r materion hyn yn ymwneud â chyfraddau cyflogaeth cymharol isel ac enillion isel, er y bu'r rhain yn cynyddu. Mae tueddiadau o ran gwahaniaethau daearyddol megis amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd de Cymru a rhai o'r trefi arfordirol yng ngogledd Cymru, yn debygol o barhau, a fydd yn arwain at gymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o beidio â gweithredu'r NDF.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrif (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)	Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrif. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrif. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrif. Opsiwn Arall 2 a 3 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 4 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrif yn cynnwys: - Cefnogi amrywiaeth yr economi leol (P3, PE5, PE6, PE9, PE10, AS1, R1) - Cymorth i BBaChau, y trydydd sector a microfusnesau (P3, PE5, PE6, R1)	

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		- Gwella'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (P3, PE4, PE5, PE6, AS1, R1, R4, R5) - Cymorth ar gyfer economi gynaliadwy a thwf mewn sectorau sy'n gysylltiedig â hyn (P1, PE4, PE5, PE6, R1) - Cyflawni seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy (P3, PE8, AS4, R3, R4) Mewn ymateb i'r potensial i gyfyngu ar gystadleurwydd a thwf economaidd a buddsoddiad a nodwyd gan Arcadis drwy ganolbwyntio ar dwf gwyrdd a datgarboneiddio, mae'r Opsiwn a Ffeifrif yn cynnwys pwyslais cryf ar gefnogi amrywiaeth o gyfleoedd twf a buddsoddiad (R1, R3, R5, PE5, PE6, PE9)

Tabl C-5: Amcan 5 yr ACI: Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol

Asesiadau effaith perthnasol: Y Gymraeg, Prawfesur Gwledig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Mae'r opsiwn hwn yn hyrwyddo twf mewn ardaloedd a nodwyd (de-ddwyrain Cymru a gogledd-ddwyrain Cymru), a allai ddenu siaradwyr Cymraeg o gymunedau Cymraeg eu hiaith. Gallai hyn arwain at wasgaru cymunedau o siaradwyr Cymraeg ac felly arwain at ei gwanhau. Gall cynyddu cysylltedd rhwng yr ardaloedd twf hyn a Lloegr ychwanegu at y gwanhau hyn. Fel arall, gallai arwain at greu neu atgyfnerthu cymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd gwledig. Mae'n bosibl y bydd y dirywiad net o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn lleihau wrth i economi fwy dynamig ddarparu cyfleoedd i oedolion ifanc aros yng Nghymru.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Gallai'r opsiwn hwn gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith ond mae'n dibynnu ar ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth priodol i gyflawni hyn. Gellir cyflawni hyn trwy bwyslais cryf ar fuddsoddiad mewn cyfleoedd lleol a gwyrddroi'r datboblogeiddio gwledig, gan arwain at gynydd mewn hyfywedd a bywyd cymunedau gwledig, gan gynnwys y rhai Cymraeg eu hiaith.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a	+	Gall greu cymunedau mwy cynaliadwy arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, trwy wella'r potensial i fwy o gymunedau gwledig fod yn fwy hyfyw, ac felly lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud i ardaloedd eraill.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeifrif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
newid yn yr hinsawdd		
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	+	Gall creu cymunedau mwy cynaliadwy arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, trwy wella'r potensial i fwy o gymunedau gwledig fod yn fwy hyfyw, ac felly lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud i ardaloedd eraill.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Cydnabyddir bod iaith yn ased cymunedol, ond oherwydd diffyg cysylltiad â'r economi cyfyngir ar yr effaith bosibl. Gallai mentrau eraill sydd ar wahân i'r cynllunio ar sail targed Llywodraeth Cymru arwain at effaith gadarnhaol o ran yr amcan hwn. Mae tueddiadau presennol yn dangos bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn cynyddu.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeifrif (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)	Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeifrif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profiion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeifrif. Opsiwn Arall 2, 3, 4 a 5 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 5 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeifrif yn cynnwys: - Pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn cyfleoedd lleol (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1) - Cymunedau mwy cynaliadwy (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1) - Ceisio gwyrddio'r datboblogeiddio gwledig, gan arwain at gynnydd yn hyfywedd a bywyd cymunedau gwledig, gan gynnwys y rhai Cymraeg eu hiaith (P3, PE2, PE3, PE6, AS1, AS2, AS3, R1, R4, R5)	

Tabl C-6: Amcan 6 yr ACI: Creu cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	-	Trwy'r opsiwn hwn, twf economaidd yw'r brif flaenoriaeth; gellir gorfodi datgarboneiddio a rheoleiddio amgylcheddol dim ond pan fyddant yn gydnaws â thargedau twf economaidd a gall gyfyngu ar gyfleoedd i leihau'r galw a chyflawni cynllun cynaliadwy. Gall hyn arwain at fân fuddion, er nad yw'n debygol y bydd gostwng nwyon tŷ gwydr yn flaenoriaeth, felly

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf		mae effeithiau negyddol yn debygol. Hefyd, mae'r opsiwn yn debygol o arwain at gynnydd yn yr angen i deithio oherwydd byddai llai o gymorth ar gyfer twf gwledig.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i gyflawni effeithiau cadarnhaol trwy alluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol a lleihau'r angen i deithio, a allai leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o gerbydau yn y pen draw. Mae'n bosibl y bydd cyflawni tai ynni effeithlon o ansawdd da yn lleihau'r galw am ynni. Fodd bynnag, gallai diffyg cefnogaeth genedlaethol a chyfeiriad strategol leihau ei botensial, oherwydd ei bod yn debygol y byddai llai o gynlluniau ynni adnewyddadwy yn cael eu cyflawni ar lefel genedlaethol.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Hon yw blaenoriaeth allweddol yr opsiwn hwn – pwyslais eang a chwmpasog yn canolbwyntio ar leihau allyriadau niweidiol a datblygu patrymau cynaliadwy o fyw trwy ddylunio cynaliadwy a dewisiadau lleoliadol.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Yn yr opsiwn hwn, er nad oes sôn penodol am leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'n debygol y bydd pwyslais ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol cyffredinol ar bob agwedd ar yr amgylchedd naturiol, er y gallai fod cyfyngiad ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Mae'n debygol y cyflawnir addasiad i'r newid yn yr hinsawdd hefyd trwy ddull adnoddau naturiol. Lleihau'r angen i deithio trwy ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Cynhwysir targedau'r llywodraeth. Mae'n bosibl y caiff rhai effeithiau cadarnhaol eu cyflawni o ran yr amcan hwn trwy bolisiau cynllunio presennol a mentrau eraill y llywodraeth. Mae tueddiadau presennol yn dangos bod allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn gostwng yn raddol yng Nghymru, er bod angen gweithredu'n fwy i gyrraedd targedau presennol a rhai yn y dyfodol. Mae'n bosibl na fydd y potensial i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth hwyluso datblygiadau newydd a thwf economaidd yn cael ei gyflawni heb gyfeiriad strategol yr NDF.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeirir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirir. Opsiwn Arall 3 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 6 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirir yn cynnwys: Lleihau allyriadau niweidiol (P1, P2, P3, DN2, DN5, PE8)

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		- Datblygu patrwm cynaliadwy o fyw trwy ddylunio cynaliadwy a dewisiadau lleoliadol (P1, P2, P3, DN2, AS1, R3, R4) - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (P1, P3) - Lleihau'r angen i deithio trwy ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy (P1, P2, P3) Sgoriodd Opsiwn Arall 2 yn gadarnhaol hefyd, ac amlygodd bwysigrwydd cynnwys yn yr Opsiwn a Ffeirif: - Galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol (P2, PE2) - Lleihau'r angen i deithio (P2, P3, PE3, AS4)

Tabl C-7: Amcan 7 yr ACI: Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Newid yn yr Hinsawdd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	-	Mae'r opsiwn yn addo diogelwch a chadernid mewn sectorau economaidd hanfodol ac ardaloedd. Fodd bynnag, gall ddilyn na fyddai diogelwch a gwrthsefyll perygl llifogydd yn cael ei gynnig yn ehangach, a allai arwain at effeithiau negyddol mewn rhai cymunedau. Hefyd, mae'r ddinas-ranbarth yn cynnwys ardaloedd mawr o dir sy'n agored i berygl uchel o lifogydd, a allai arwain at effeithiau negyddol. Gallai cynyddu datblygiadau maes glas yn yr ardaloedd hyn a diffyg darpariaeth bosibl o ddylunio cynaliadwy, gan gynnwys gwaith draenio cynaliadwy a seilwaith gwyrdd, arwain at effeithiau negyddol.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Nid yw'r opsiwn hwn yn sôn yn benodol am berygl llifogydd. Fodd bynnag, gallai'r strategaeth twf gwasgaredig arwain at effaith gadarnhaol, oherwydd gallai leihau twf poblogaethau yn ardaloedd trefol Cymru sydd mewn perygl o lifogydd. Hefyd, mae'n debygol y bydd yn cynnwys mesurau i gefnogi cymunedau eraill a all fod mewn perygl o lifogydd. Gall twf cynaliadwy arwain at leihau'r cynnydd mewn perygl llifogydd hefyd.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy, a gwella cadernid mewn ardaloedd priodol, sydd wrth wraidd yr opsiwn hwn. Mae atebion gwaith draenio cynaliadwy yn allweddol, ac anogir perthynas gadarnhaol rhwng yr amgylchedd adeiledig a dŵr. Byddai'r opsiwn yn rhagweld y risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r rhain mewn patrymau datblygu yn y dyfodol, a'u bod yn llywio ac yn meithrin cadernid yn y patrymau hyn. Byddai prosesau arfordirol, gan gynnwys lefel y môr yn codi, yn dylanwadu ar strategaeth y setliad. Mae'r opsiwn hefyd yn ceisio meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	++	Mae'r opsiwn yn cynnwys pwyslais sylweddol ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, wedi'i seilio ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n nodi bod gan Gymru economi garbon isel, werdd, sy'n barod i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r opsiwn yn blaenoriaethu systemau draenio cynaliadwy a rheoli llifogydd yn gynaliadwy. Mae'n

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy		debygol y bydd strategaeth sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn arwain at effeithiau cadarnhaol o ran yr amcan hwn.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Mae perygl llifogydd yn fater arwyddocaol yng Nghymru sy'n cynnwys llifogydd o ddŵr arfordirol, dŵr afonol a dŵr wyneb. Heb yr NDF, byddai'r dull presennol o reoli perygl llifogydd yn parhau, a allai helpu i ddiogelu cymunedau a busnesau rhag llifogydd yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y methir potensial dulliau strategol cenedlaethol sylweddol eraill i gyd-fynd â gwaith rheoli datblygiadau.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 3 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 7 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys: • Rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) • Rhagweld ac ymaddasu i'r risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) • Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8) • Meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol (P1, P2, DN1, DN2, PE1, PE8)

Tabl C-8: Amcan 8 yr ACI: Creu cyfleoedd i annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Newid yn yr Hinsawdd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	-	Mae'r opsiwn yn debygol o arwain at ddwysáu gwaith datblygu mewn ardaloedd o amgylch y draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd lle mae'r ansawdd aer ar ei isaf (gwaethaf). Mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn yn gwaethygu ansawdd aer mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf trefol, a gall hyd yn oed arwain at greu Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd. Ceir potensial i ardaloedd lle mae'r ansawdd aer yn waeth gyd-fynd â chymunedau dan y bygythiad mwyaf yn yr ardaloedd ffocws yn y ddinas-ranbarth. Fodd bynnag, mae ansawdd aer mewn ardaloedd llai datblygedig yn debygol o barhau heb ei newid. Mae'r opsiwn yn hyrwyddo buddsoddiad bach mewn lleihau'r angen i deithio mewn ardaloedd llai hygyrch (megis ardaloedd gwledig) sy'n awgrymu y byddai pwyslais yn parhau ar deithio mewn ceir preifat.

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Gallai'r opsiwn hwn leihau teithio ar hyd y prif goridorau traffig yn yr ardaloedd trefol mwy a helpu i wasgaru hyn ar draws cymunedau ehangach. Cynigir cymunedau cynaliadwy sy'n ceisio lleihau'r angen i deithio ac felly gall leihau allyriadau o gerbydau. Hefyd, byddai'n annog mwy o gerdded, beicio a gweithio o gartref. Gallai hyn arwain at wella ansawdd aer gan gynnwys datblygu mentrau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Mae'r opsiwn yn nodi bod ansawdd aer yn flaenoriaeth. Hefyd, mae'r opsiwn yn cynnwys amcan i leihau'r angen i deithio ac yn sicrhau cysylltedd a mynediad; mae'r blaenoriaethau allweddol hyn yn cysylltu'n glir â'r angen i wella ansawdd aer ym mhob prosiect.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Mae gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr opsiwn ynghyd â diogelwch amgylcheddol ehangach. Fel gydag opsiwn 2 a 3, ceir pwyslais ar deithio cynaliadwy a disgwylir patrwm datblygu sy'n lleihau'r angen i deithio. Ceir tybiaeth hefyd y bydd twf cymharol is yn yr opsiwn hwn o'i gymharu ag opsiwn 1, felly disgwylir y bydd allyriadau o gerbydau a diwydiant yn is hefyd. Fodd bynnag, nodir nad yw'n opsiwn 'twf isel' yn fwriadol. Mae'n debygol y bydd gweithredu'r opsiwn yn arwain at effeithiau buddiol sylweddol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+/-	Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at barhad tueddiadau presennol o ran ansawdd aer. Er bod ansawdd aer yn dda ar y cyfan yng Nghymru, ceir ardaloedd, yn arbennig yn y de, sy'n dioddef ansawdd aer gwael, yn fwyaf nodedig o ganlyniad i draffig ffordd. Mae rhai o'r ardaloedd hyn yn cyd-fynd â rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y de. Yn y pen draw, disgwylir y bydd llygredd aer yn gostwng o ganlyniad i reoleiddio parhaus ac, yn arbennig, defnyddio technolegau glanach mewn cerbydau. Fodd bynnag, disgwylir i nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffordd gynyddu yn y dyfodol agos, yn arbennig yn y dinas-ranbarthau (Caerdydd, Abertawe a'r gogledd-ddwyrain) sydd eisoes yn dioddef yr ansawdd aer gwaethaf yn gyffredinol. Fodd bynnag, gall agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru leihau twf i ryw raddau.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeirif (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirif. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirif. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirif. Opsiwn Arall 2, 3 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 8 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirif yn cynnwys: Lleihau teithio ar hyd y prif goridorau traffig yn yr ardaloedd trefol mwy a helpu i wasgaru hyn i gymunedau ehangach (P1,

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwydd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		P2, P3, DN2, PE8, R1) - Lleihau'r angen i deithio (P1, P2, P3, AS1) - Annog cerdded, beicio a gweithio o gartref (P1, P2, P3, PE3, AS4) Datblygu mentrau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned (P1, P2, PE2)

Tabl C-9: Amcan 9 yr ACI: Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Newid yn yr Hinsawdd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cyfeirio twf economaidd at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf ac yn cyflwyno seilwaith i gefnogi'r twf hwn. Gallai hyn arwain at effaith negyddol ar adnoddau dŵr yn yr ardaloedd hynny, yn enwedig oherwydd bod yr opsiwn yn debygol o gynnwys datblygu safleoedd maes glas (mawr o bosib). Ni ddisgwylir llawer o ran darpariaeth seilwaith gwyrdd, systemau draenio cynaliadwy ac ati. Ymysg yr effeithiau negyddol ar adnoddau dŵr yn yr ardaloedd twf hyn ceir effaith ar yr adnodd dŵr, yr arfordir, ac effaith ffisegol ar gyrsiau dŵr yn sgil y pwysau ar ddefnydd dŵr ac elfion. Hefyd, gallai'r newid yn hinsawdd waethygu effeithiau. Fodd bynnag, bydd yr effaith yn dibynnu ar leoliad a chyflawniad y datblygiad. Bydd angen mesurau lliniaru safonol ar gyfer datblygiadau newydd, fodd bynnag, a bydd swyddogaeth cyrff statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru) a pholisïau cynllunio eraill (Polisi Cynllunio Cymru) yn parhau i fod yn berthnasol. Ar y llaw arall, mae llai o waith datblygu yn debygol o ddigwydd mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, a byddai hyn, ar y cyfan, yn cyfyngu'r effaith ar adnoddau ac ansawdd dŵr i'r ardaloedd hynny.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ffocws lleol o waith datblygu mewn setliadau wedi'u gwasgaru ledled Cymru. Disgwylir i ddarpariaeth dai gynnwys cynlluniau effeithlon o ran dŵr ac ynni. Byddai'r ddarpariaeth yn cyflawni datblygiadau ledled Cymru ar raddfa lai, a allai fod o fewn capasiti adnoddau naturiol ardal er y disgwylir hefyd y byddai angen i hyn gynnwys safleoedd maes glas o gofio natur wledig llawer o'r gwaith datblygu. Gallai'r dull hwn o'r gwaelod i fyny helpu i sicrhau nad eir y tu hwnt i gapasiti neu drothwyon yn amodol ar gymhwyso mesurau lliniaru safonol. Mae'r opsiwn hefyd yn canolbwyntio yn fawr ar effeithlonrwydd adnoddau ac yn cynnwys egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.
3: Strategaeth	+	Bwriad yr opsiwn yw cyflawni datblygiad cynaliadwy ac mae'n hybu gwaith draenio cynaliadwy, a fyddai hefyd yn

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd		fuddiol ar gyfer adnoddau ac ansawdd dŵr. Ceir effeithiau posibl ar gyrsiau dŵr yn sgil ynni dŵr/ môr-lynnoedd llanw a chynnydd mewn datblygiadau gwledig (cynaliadwy). Fodd bynnag, mae'r opsiwn yn nodi y bydd cyfraniad ardaloedd gwledig ac ucheldir at reoli dŵr o bwys cenedlaethol a bydd yr NDF yn darparu fframwaith i hwyluso rheolaeth briodol. Mae'r opsiwn hefyd yn cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys effeithlonrwydd dŵr a lleihau llygredd. Mae hyn yn debygol o wella cynaliadwyedd unrhyw ddatblygiad newydd o safbwynt gofodol a phenodol i'r prosiect.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Byddai'r opsiwn yn ceisio cyflawni egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys defnydd effeithlon o ddŵr a lleihau llygredd, gan osgoi effeithiau. Mae'n cynnwys pwyslais cryf iawn ar gynnal yr amgylchedd naturiol a fyddai'n cynnwys ansawdd ac adnoddau dŵr, er gwaethaf hybu rhywfaint o waith datblygu gwledig. Mae'n cydnabod sut mae'r amgylchedd naturiol yn sylfaen i gynaliadwyedd economaidd. Bydd defnyddio systemau draenio cynaliadwy yn helpu i gyflawni buddion o ran adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar adnoddau naturiol o safbwynt lleol, drwy sicrhau y cânt eu defnyddio mewn modd cynaliadwy. Gallai hyn sicrhau eu bod o fewn capasiti adnoddau naturiol ardal. Mae pwyslais lleol i'r ymagwedd hon, a byddai'n sicrhau nad eir y tu hwnt i gapasiti na throthwyon. Yn 2015, dosbarthwyd 39% o gyrff dŵr yng Nghymru â statws ecolegol 'da', sy'n gwymp bach ers 2014 ond yn parhau i fod yn sylweddol well na Lloegr. Disgwylir y byddai parhau â pholisïau a threfniadau rheoleiddio presennol yn helpu i wella ansawdd dŵr yn y dyfodol yn dilyn patrymau datblygu cyfredol.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 9 yr ACI a sgoriodd Opsiwn 2 a 3 yn gadarnhaol. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys: • Defnydd effeithlon o ddŵr a lleihau llygredd (P2, P3, DN1, DN2) • Cynnal yr amgylchedd naturiol a fyddai'n cynnwys ansawdd ac adnoddau dŵr (P2, P3, DN1, DN2) • Cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (P3, DN1, DN2)

Tabl C-10: Amcan 10 yr ACI: Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd		
Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Mae'r opsiwn yn cynnwys cefnogaeth gref ar gyfer cyflawni seilwaith digidol (yn yr un modd â phob opsiwn arall) a phrosiectau seilwaith mawr megis y Metro. Gallai fod effaith negyddol ar ardaloedd gwledig, wrth i bwyslais yr opsiwn ganolbwyntio'n fwy ar yr ardaloedd trefol mwy a'r dinas-ranbarthau. O ganlyniad i hyn, nid yw'n ymdrin â materion ardaloedd gwledig ynysig. Nid yw'n opsiwn sy'n canolbwyntio ar y gymuned, felly byddai unrhyw fuddion a gyflawnir yn eilradd i'r nodau economaidd. Mae hefyd yn debygol y caiff y rhain eu cyflawni yn ardaloedd y dinas-ranbarthau yn unig. Nid yw'r opsiwn yn ymdrin â theithio llesol a lleihau risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Bwriad yr opsiwn yw cyflawni teithio llesol a lleihau defnydd ceir preifat, trwy bwyslais cymunedol, a mynediad lleol at swyddi a gwasanaethau. Mae cysylltedd digidol yn flaenoriaeth. Mae'r opsiwn yn canolbwyntio'n arbennig ar fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir anghenion, gan gynnwys darparu seilwaith cymdeithasol ar gyfer cymunedau mwy difreintiedig ac mewn ardaloedd gwledig, gan wyrdroi'r cwymp yn y boblogaeth. Gallai'r mesurau hyn arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Bwriad yr opsiwn yw cyflawni teithio llesol a lleihau defnydd o geir preifat, trwy ganolbwyntio ar ddefnydd tir, y berthynas rhwng gwahanol fathau o ddefnydd, a chysylltedd rhyngddynt. Mae rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd setliadau yn tyfu ac yn cydgysylltu, a allai arwain at effeithiau buddiol sylweddol o ran yr amcan hwn. Gellid blaenoriaethu cerdded, beicio, trydaneiddio'r rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae pob opsiwn yn ceisio cefnogi darpariaeth seilwaith digidol newydd a all helpu i leihau materion arwahanrwydd cymdeithasol.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	+	Ni ystyrir bod yr opsiwn hwn mor gryf ag opsiynau 2 a 3 o ran cysylltedd, oherwydd bod y ffocws yn ymwneud yn fwy â rheoli'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, ceir potensial i hybu teithio llesol trwy nodau'r opsiwn datblygu hwn. Mae hefyd yn hyrwyddo datblygu gwledig cynaliadwy a all fod yn fuddiol i gadw pob yn eu cymunedau hefyd. Mae pob opsiwn yn ceisio cefnogi darpariaeth seilwaith digidol newydd a all helpu i leihau materion arwahanrwydd cymdeithasol.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Ceir y mynediad gwannaf at wasanaethau a thrafnidiaeth yn ardaloedd gwledig Cymru ar hyn o bryd, er bod Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau trafndiaeth leol a chenedlaethol yn parhau i roi pwyslais cryf ar wella hyn. Ar hyn o bryd, mae trafndiaeth yn dilyn ymagwedd o'r gwaelod i fyny ar y cyfan, ac ystyrir bod buddsoddi mewn trafndiaeth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer adfywio a chysylltu cymunedau.
Datblygu'r Opsiwn	Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r	

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
a Ffeirir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirir. Opsiwn Arall 2 a 3 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 10 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirir yn cynnwys: • Cefnogi teithio llesol (P2, AS4) • Lleihau defnydd o geir preifat (P1, PE3, AS1, R1) • Sicrhau bod mynediad lleol at swyddi a gwasanaethau (P3, PE3, PE6, AS1, R1, R3, R4, R5) • Darparu seilwaith cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig (P2, P3, PE9, R1, R3, R4) • Gwyrdroi'r cwmp yn y boblogaeth wledig (PE3, PE6, AS1, R1, R4, R5) • Sicrhau cysylltedd rhwng gwahanol fathau o ddefnydd (AS1, R1, R3, R4) • Blaenoriaethu cerdded, beicio, trydaneiddio'r rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus (P2, PE8)

Tabl C-11: Amcan 11 yr ACI: Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	- -	Mae gan yr opsiwn bwyslais economaidd a buddion a fydd yn cael eu gwireddu ar gyfer rhai aelodau o gymunedau trefol mawr yn unig a fyddai'n elwa ar fuddsoddiad. Mae hyn yn debygol o atgyfnerthu neu waethygu anghydraddoldebau presennol. Nid yw pwyslais trefol yr opsiwn yn fuddiol i bob aelod o'r gymdeithas, gan gynnwys plant a grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig neu gymunedau eraill a fyddai'n derbyn ychydig iawn o fuddsoddiad yn rhan o'r opsiwn hwn. Mae hyn yn debygol o waethygu problemau o ran datboblogeiddio gwledig ac ynysu.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Mae'r opsiwn hwn i'r gwrthwyneb i Opsiwn 1 ac mae ganddo bwyslais llawer mwy lleol. Mae'n ceisio'n weithredol i leihau anghydraddoldebau, wrth iddo geisio cyflawni gwell mynediad i bawb at amrywiaeth o gyfleusterau, gwasanaethau a thai. Gellid gwireddu'r buddion hyn mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig mwy ynysig. Gallai cyflawni cynllun da a chynyddu mynediad at natur arwain at effeithiau cadarnhaol hefyd.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+	Nod yr opsiwn hwn yw lleihau'r angen i deithio a lleihau'r tlodi tanwydd. Mae hyn yn cynnwys nodau i gynnal seilwaith cymdeithasol, tai a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn fesurau cadarnhaol sy'n gweithio tuag at gyflawni cydlyniant cymdeithasol a chynnal ysbryd cymunedol. Fodd bynnag, nid oes llawer o bwyslais yn yr opsiwn ar blant na nodweddion gwarchodedig y tu hwnt i hyn.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	+	Gallai'r opsiwn gyflawni buddion o ran cydlyniant cymdeithasol trwy greu ymdeimlad cryf o le a chynyddu cysylltedd rhwng cymunedau trwy seilwaith gwyrdd. Mae'r buddion o ran lleihau anghydraddoldebau yn aneglur, er y gallai lleihau llygredd a chynyddu mynediad at fannau gwyrdd yn gyffredinol, arwain at ostyngiad mewn anghydraddoldebau daearyddol ac iechyd o ganlyniad i hynny mewn rhai cymunedau. Nid oes llawer o bwyslais yn yr opsiwn ar blant na nodweddion gwarchodedig y tu hwnt i hyn.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Mae fframwaith polisi cynllunio Cymru yn ceisio creu cymunedau cynaliadwy trwy ymdrin ag anghydraddoldeb, gwella iechyd a dileu tlodi plant. Disgwylir y byddai hyn yn parhau mewn cyd-destun heb yr NDF, er bod arwyddocâd y manteision posibl yn aneglur, a byddai'n elwa ar ddull strategol, a fyddai'n bosibl trwy'r NDF.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 2 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 11 yr ACI a sgoriodd Opsiwn 3 a 4 yn gadarnhaol. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys: • Lleihau anghydraddoldebau (P2, P3, DN2, PE9, AS1, R1) • Sicrhau mynediad i bawb at gyfleusterau, gwasanaethau a thai (P2, P3, PE3, AS1, R1) • Canolbwyntio ar gefnogi ardaloedd gwledig (P3, PE2, PE6, R4, R5) • Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd (P1, P2, P3, DN, AS42, R4)

Tabl C-12: Amcan 12 yr ACI: Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd

Asesiadau effaith perthnasol: Cydraddoldeb, Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cefnogi twf economaidd mewn ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf (gan ganolbwyntio yn bennaf, mae'n debyg, yn y de a'r gogledd-ddwyrain). Byddai hyn yn arwain at ddarparu tai ond oherwydd y pwyslais hwn ar ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf, mae hyn yn annhebygol o ddiwallu anghenion tai ledled gweddill Cymru y tu hwnt i anghenion lleol yn unig. Nid yw hwn felly yn opsiwn cytbwys o ran diwallu anghenion tai. Mae'r pwyslais ar y farchnad hefyd yn arwain at y posibilrwydd o gyfyngu'r amrywiaeth a'r math o dai a gynigir oni bai bod modd rheoli hyn yn ofalus yn yr NDF.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae'r opsiwn yn cynnwys pwyslais cryf ar ddarparu tai yn lleol ledled Cymru. Byddai tai fforddiadwy, ynni effeithlon yn ystyriaeth allweddol yn arbennig, i sicrhau bod gan bawb yn y gymuned leol fynediad at dai fforddiadwy o safon. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i ddarparu tai trwy fentrau hunanadeiladu lleol, gan gyflawni ymagwedd sydd wedi'i harwain gan y gymuned. Mae'r opsiwn yn perfformio'n gryf o'i gymharu ag amryw elfennau Amcan yr ACI. Fodd bynnag, nid yw wedi'i asesu'n gadarnhaol iawn oherwydd gallai'r opsiwn fod yn niweidiol i ddarpariaeth dai ar raddfa fawr pan fo angen hyn. Ymddengys ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar anghenion lleol yn unig gan dybio y byddai hyn ar raddfa lai.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cyflawni datblygiad cynaliadwy a gallai arwain at ddatblygu cartrefi o safon o ran bodloni cynlluniau ynni effeithlon. Mae'n ymwneud â phwyslais cynaliadwy ar ddarparu tai yn y lleoliadau iawn ac yn rhan o ddefnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach. Mae'n gadarnhaol o ran rhai agweddau ar Amcan yr ACI. Fodd bynnag, ceir pryder posibl ynghylch pa un a fyddai digon o dai yn cael eu darparu ar gyfer ystod lawn o anghenion. Nid yw'n ymddangos bod diwallu amrywiaeth o anghenion tai yn bwyslais yn yr opsiwn hwn.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	-	Mae'r opsiwn hwn hefyd yn canolbwyntio ar nodi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer tai newydd a sicrhau safonau uchel o gynllunio cynaliadwy yng nghyd-destun yr amgylchedd naturiol. Gallai hyn arwain at ddiffyg mathau priodol o dai ac mewn ardaloedd priodol i ddiwallu'r anghenion a nodir.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+/-	Bwriad parhau â pholisi cynllunio presennol fyddai darparu tai ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd pryderon o ran hyfywedd yn golygu y byddai'r pwyslais datblygu yn parhau i fod ar ardaloedd gwledig, gan waethygu tueddiadau amddifadedd presennol. Mae cyfle i gysylltu tai yn gryf ag amcanion ehangach. Gellir methu'r cyfle hwn pe na ddatblygir yr NDF.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 2 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 12 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwydd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		cynnwys: - Pwyslais ar gyflawni ledled Cymru (P2, P3, AS1, AS2, AS3, R2, R3, R4) - Darparu tai fforddiadwy o safon i ddiwallu anghenion pobl (P2, P3, AS1, AS2, AS3) Nododd profion yr opsiynau bryderon o ran darparu tai ar raddfa fwy a diwallu'r anghenion a nodir. Mae rhannau AS3 a R2 yr opsiwn a ffeirif yn ymdrin â'r materion hyn, ac yn ceisio darparu cyfeiriad cenedlaethol a gofodol trwy'r NDF ar gyfer darparu tai ledled Cymru.

Tabl C-13: Amcan 13 yr ACI: Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	-	Bwriad yr opsiwn yw cyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf, a chefnogi twf economaidd, a allai arwain at effaith negyddol ar ansawdd tirwedd a threflun; llygredd sŵn a golau; ac ardaloedd o lonyddwch. Bydd hyn yn defnyddio ymagwedd o'r pen i lawr, na fydd o bosibl yn ystyried ansawdd tirwedd a threflun lleol, drwy ganolbwyntio ar fuddiannau cenedlaethol. Mae'n bosibl y bydd yr opsiwn yn arwain at adolygu dynodiadau tirwedd, sydd efallai'n atal twf a chyflawniad seilwaith ffisegol. Gall hyn gynnwys dynodiadau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Gallai'r tir amaethyddol gael ei ryddhau at ddefnydd arall, gan gynnwys tir o'r ansawdd gorau. Gallai hyn arwain at effeithiau negyddol sylweddol ar ystyriaethau tirwedd yn y tymor byr, canolig a hir. Yr unig reswm nad aseswyd yr opsiwn hwn yn negyddol iawn yw bod yr opsiwn yn debygol o arwain at ychydig iawn o ddatblygiad yn y tirweddau o ansawdd uwch presennol a mwy gwledig yng Nghymru.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+/-	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar ymagwedd wasgaredig, ac nid yw'n ceisio blaenoriaethu un ardal yn fwy nag ardal arall. Gallai ymagweddau o'r gwaelod i fyny at gynlluniau datblygu lleol a chenedlaethol leihau gallu llywodraeth genedlaethol i reoleiddio gwarchodaeth tirweddau, trefluniau a morweddau o bwys cenedlaethol. Hefyd, gallai datblygu ardaloedd posibl ledled y wlad arwain at golli llynyddwch ac awyr dywyll at ei gilydd a gall datblygiadau ddigwydd mewn ardaloedd sydd ychydig yn fwy sensitif (er y byddai dynodiadau gwarchod tirwedd pwysig yn parhau) na phe byddai gwaith datblygu yn digwydd mewn dinas-ranbarthau yn unig. Fodd bynnag, ar y llaw arall, mae'r cynlluniau a gaiff eu hyrwyddo yn debygol o fod ar raddfa lai a mwy lleol, gan hybu dulliau teithio llesol. Hefyd, gallent leihau'r angen am ymyraethau seilwaith ar lefel genedlaethol, trwy ddatblygu cymunedau cynaliadwy lleol sy'n lleihau'r angen i deithio. Gallai hyn ddarparu buddion i asedau tirwedd ar lefel genedlaethol, yn ogystal â lefel leol. Gellid cyflawni effeithiau cadarnhaol trwy greu cyfleoedd o bosibl i hyrwyddo cynllunio sensitif sy'n ymateb i le mewn gwaith datblygu, o ran adlewyrchu gofynion y gymuned leol.

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	?	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnydd tir a gwella patrymau trefol a gwledig presennol, a sut y gellir eu haddasu i wella'u cynaliadwyedd. Ar y cyfan, ystyrir bod egwyddorion yr opsiwn yn cyd-fynd ag Amcan yr ACI, a gallai ddarparu cyfleoedd i warchod a gwella cymeriad ac ansawdd treflun, gan gynnwys trefluniau hanesyddol. Bydd yr NDF yn cefnogi newidiadau mawr i ffurf drefol a phatrymau datblygu, i gyfrannu at gyflawni economi carbon isel. Nid yw'n glir beth fydd goblygiadau hyn o ran datblygiadau adeiledig a gallai arwain at ddatblygu mwy o dai a seilwaith mewn lleoliadau 'cynaliadwy', a fydd yn arwain at effaith negyddol bosibl ar dirwedd; llygredd sŵn a golau; ac ardaloedd o lonyddwch. Mae'r opsiwn yn datgan y byddai'r opsiwn yn darparu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r lleoliadau mwyaf priodol ac yn darparu fframwaith i gefnogi cyflawniad hyn. Mae potensial i rai datblygiadau ynni adnewyddadwy arwain at effaith sylweddol ar dirwedd (a threflun a morwedd) ac effeithiau gweledol, er y bydd hyn yn dibynnu ar y cynllun a'r lleoliad. Mae disgrifiad yr opsiwn yn datgan y caiff rhwydweithiau a seilwaith gwyrdd eu cefnogi. Gallai hyn arwain at effaith gadarnhaol sylweddol o ran yr amcan hwn.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Bwriad yr opsiwn yw meithrin gwell cadernid mewn ecosystemau a bioamrywiaeth, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar fioamrywiaeth. Mae'r opsiwn yn cydnabod y gall yr amgylchedd naturiol a thirweddau trefol a gwledig roi ymdeimlad cryf o le, ysbrydoliaeth a pherthyn, a chyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Byddai'n ceisio gwella tirweddau ac adnoddau naturiol ar gyfer yr amryw fuddion llesiant sy'n deillio ohonynt. Byddai'n cefnogi tirweddau yn arbennig, a chyfleusterau lleol megis parciau, meysydd chwarae a mannau gwyrdd eraill. Byddai gwaith datblygu a fyddai'n tanseilio uniondeb tirweddau yn cael ei wrthwynebu'n gryf a byddai'n cael ei gyfeirio at leoliadau llai diwylliannol sensitif. Gallai hyn arwain at fuddion sylweddol o ran yr amcan hwn.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	-	Anogir gwarchodaeth tirwedd (a threflun/morwedd) trwy Gynllun Gofodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a chaiff ei gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â phwerau cynllunio'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, bydd gwaith datblygu a seilwaith newydd at ei gilydd yn parhau i roi pwysau ar yr amgylchedd naturiol yn y dyfodol ac mae'r NDF yn darparu cyfle cryf i ddarparu cyfeiriad a gwarchodaeth fwy strategol o'u cymharu â dulliau presennol.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeirif (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirif. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirif. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirif. Opsiwn Arall 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 13 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirif yn cynnwys: Cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a thirweddau (P1, P3, DN1, DN2, DN3, DN4, PE10)

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwydd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		- Gwella'r amgylchedd naturiol a thirweddau (P1, DN1, DN2, DN3, DN4, PE10) - Cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau a mannau lleol (P2, DN3, DN5, AS1)

Tabl C-14: Amcan 14 yr ACI: Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau

Asesiadau effaith perthnasol: lechyd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		Crynodeb i gynnwys asesiad o'r atebion i'r cwestiynau i gynorthwyo penderfyniadau a'u cymharu
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	-	Bwriad yr opsiwn yw cyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf. Byddai hyn yn cynnwys darparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf, a allai arwain at effaith negyddol ar unrhyw asedau treftadaeth yn yr ardaloedd hynny. Nid yw'r opsiwn yn canolbwyntio ar warchod treftadaeth felly nid yw'n debygol o gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sensitif. Mae hefyd yn debygol y byddai gwaith datblygu yn gyfyngedig (ac eithrio at anghenion lleol) ar hyd a lled rhannau mawr o Gymru, ac felly'n osgoi unrhyw effeithiau posibl ar dreftadaeth yn yr ardaloedd hynny. Mae'n bosibl y bydd yr opsiwn yn parhau i arwain at adfywio â phwyslais ar dreftadaeth, pe ystyrir bod hyn o fantais economaidd, er ei bod hefyd yn debygol y gallai gwaith datblygu â phwyslais economaidd fod yn drech na gwerth dynodiadau neu asedau treftadaeth.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae mwy o bwyslais ar gymuned i'r opsiwn hwn, a gall hyn arwain at gydnabod diwylliant a threftadaeth bresennol a'i hybu trwy ymagwedd â phwyslais ar y gymuned. Dywedir bod effaith gadarnhaol wan o ran Amcan yr ACI oherwydd ystyrir y byddai cynnydd cyfyngedig yn unig tuag at yr amcan oherwydd cwestiynir a fyddai pwyslais ar lefel leol yn cyflawni amcanion cenedlaethol.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	?	Mae effeithiau'r opsiwn ar asedau treftadaeth yn ansicr. Mae'n bosibl y bydd y pwyslais ar ynni adnewyddadwy, storio ynni a thrawsgludo effeithio ar dirweddau hanesyddol, ond gallai lleoli gwaith datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy esgusodi'r ardaloedd hyn o waith datblygu o'r fath, bydd yn dibynnu ar y cyflawni. Gellid cyflawni effeithiau cadarnhaol trwy'r potensial i gynyddu mynediad cynaliadwy at yr amgylchedd hanesyddol.
4: Strategaeth	+	Mae'r opsiwn yn cynnwys canlyniadau ansicr a fyddai'n dibynnu ar y cyflawni. Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy		Crynodeb i gynnwys asesiad o'r atebion i'r cwestiynau i gynorthwyo penderfyniadau a'u cymharu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy; fodd bynnag, ystyrir pe byddai gorgyffwrdd ffisegol rhwng yr ardaloedd hyn, gallai fod effaith gadarnhaol ar dreftadaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r Opsiwn yn cefnogi twristiaeth, a allai arwain at fuddion treftadaeth posibl pe caiff ei gyflawni'n sensitif ac yn briodol. Ceir ansicrwydd ynglŷn â chyflawni ynni adnewyddadwy a'i effaith ar yr amgylchedd hanesyddol. Ystyrir bod mwy o debygolrwydd o gyflawni effeithiau cadarnhaol trwy'r opsiwn hwn o'i gymharu ag opsiwn 3.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Anogir gwarchodaeth tirwedd (a threflun/morwedd) trwy Gynllun Gofodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a chaiff ei gorfodi gan Cadw, yn ogystal â phwerau cynllunio'r awdurdod lleol. Bwriad yr opsiwn hwn yw cynnal a dathlu treftadaeth unigryw Cymru, gan gydnabod yr angen am amgylcheddau o ansawdd uchel i greu cymunedau. Fodd bynnag, bydd gwaith datblygu a seilwaith newydd at ei gilydd yn parhau i roi pwysau ar yr amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol ac mae'r NDF yn darparu cyfle cryf i ddarparu cyfeiriad a gwarchodaeth fwy strategol o'u cymharu â mecanweithiau presennol.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 2 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 14 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys: • Cydnabod pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth (DN3, DN6, PE10) • Cydnabod pwysigrwydd tirweddau hanesyddol (DN3, DN6, PE10) • Cydnabod ac ystyried y berthynas rhwng treftadaeth ac amcanion eraill (e.e. ynni) (DN3, DN6, PE10)

Tabl C-15: Amcan 15 yr ACI: Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cefnogi twf mewn ardaloedd economaidd lle mae'r farchnad gryfaf. Gallai hyn arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol yn dibynnu ar leoliad a hyfywedd y datblygiad. Ceir potensial am adfywiad â phwyslais diwylliannol.

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf		Mae'n bosibl na fydd y strategaeth yn cydnabod diwylliant lleol mewn prosiectau cenedlaethol neu y bydd yn anwybyddu ardaloedd nad ydynt yn ddeniadol yn economaidd, a allai arwain at effeithiau negyddol o ran yr amcan hwn.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pwyslais lleol a allai gefnogi cymunedau nodweddiadol a chyfrannu'n weithredol at gyfalaf diwylliannol Cymru. Gallai fod, fodd bynnag, lai o gyfleoedd am adfywiad â phwyslais diwylliannol o ganlyniad i natur wasgaredig yr opsiwn a diffyg hyfywedd economaidd posibl y cynlluniau.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar wella patrymau datblygu trefol a gwledig, a allai arwain at fwy o bwyslais lleol a allai gryfhau diwylliant Cymru yn yr ardaloedd hyn. Gall effaith anuniongyrchol, trwy gynyddu teithio llesol, fod yn gynydd mewn mynediad at asedau a gweithgareddau treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r opsiwn yn codi'r cwestiwn ynglŷn â'r potensial i aildddefnyddio adeiladau/lleoedd gan arwain at fynediad/adfywiad diwylliannol i helpu'r agenda datgarboneiddio.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	+	Bwriad yr opsiwn yw meithrin cadernid mewn ecosystemau a bioamrywiaeth a gall y warchodaeth a'r gwelliant hwn o'r amgylchedd naturiol arwain at gynnal arferion diwylliannol presennol yn hytrach na'u darfod. Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod yr amgylchedd naturiol a threftadaeth yn rhan nodweddiadol o ddiwylliant Cymru.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar hybu diwylliant ar lefel leol. Cydnabod y cysylltiadau â ffyniant economaidd ond ni nodir hyn yn flaenoriaeth.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeirir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirir. Opsiwn Arall 2, 3 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 15 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirir yn cynnwys: - Sicrhau pwyslais lleol (P3, DN6, PE6, R1, R3, R4) - Gwella mynediad at asedau a gweithgareddau treftadaeth ddiwylliannol (P2, P3, DN5, DN6, AS1, AS4, R3, R4) - Cydnabod yr amgylchedd naturiol a threftadaeth yn rhan nodweddiadol o ddiwylliant Cymru (DN1, DN3)

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau

Tabl C-16: Amcan 16 yr ACI: Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf	+/-	Bwriad yr opsiwn yw cyfeirio twf at yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf a chyflawni datblygiad seilwaith i gefnogi ei thwf. Gallai hyn arwain at effaith ar gynefinoedd, rhywogaethau a bioamrywiaeth yn yr ardal dwf, yn arbennig oherwydd y disgwylir datblygu safleoedd maes glas mawr yn rhan o'r opsiwn hwn. Byddai angen mesurau lliniaru ac osgoi. Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol y byddai gwerth cadwraeth mwy cyfyngedig i'r ardaloedd twf oherwydd bod trefoli eisoes wedi effeithio arnynt. Hefyd, byddai gwaith datblygu yn llai tebygol yn yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i ardaloedd twf allweddol (y tu hwnt i anghenion lleol). Byddai hyn yn cynnwys ardaloedd mwy gwledig sydd, yn gyffredinol, yn fwy sensitif neu o bwys cadwraeth. Gall effeithiau negyddol sylweddol godi os yw twf economaidd yn bwysicach na safleoedd dynodedig rhyngwladol/cenedlaethol, er nad yw'n glir a yw hyn yn ganlyniad posibl i'r opsiwn. Hefyd, nid yw'r opsiwn yn cydnabod gwerth bioamrywiaeth/geoamrywiaeth Cymru ac mae'n annhebygol o gyflawni ecosystemau cadarn yn yr ardaloedd twf. Gall yr opsiwn hwn effeithio o bosib ar ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	+	O'i gymharu ag opsiwn 1, gall yr opsiwn arwain at lefelau is o dwf, er y nodir nad yw hwn yn opsiwn 'twf isel'. Ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a allai hyn at ei gilydd arwain at fwy o effeithiau ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth oherwydd gallai llawer o'r ardaloedd hyn gynnwys safleoedd maes glas heb eu datblygu sy'n agos at gymunedau gwledig presennol. Gellid ystyried capasiti cario yr amgylchedd naturiol yn ymagwedd o'r gwaelod i fyny, sy'n cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy felly bydd yn cynnwys cadernid yr ecosystem. Gallai'r cyfleoedd a fyddai ar gael gynnwys teithio llesol, gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt. Caiff ei lywio gan egwyddorion datblygu cynaliadwy.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	+/-	O'i gymharu ag opsiwn 1, gallai'r opsiwn arwain at lefelau is o dwf, er y nodir nad yw hwn yn opsiwn 'twf isel'. Ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a allai hyn at ei gilydd arwain at fwy o effeithiau ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth oherwydd gallai llawer o'r ardaloedd hyn gynnwys safleoedd maes glas heb eu datblygu sy'n agos at gymunedau gwledig presennol. Mae'r opsiwn yn meithrin cadernid mewn ecosystemau ac yn ymdrin â cholli cynefinoedd a llystyfiant. Ceir buddion i fioamrywiaeth yn y tymor hir trwy ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Gallai'r opsiwn hwn arwain at effeithiau posibl ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygu ynni adnewyddadwy, fodd bynnag gallai camau lliniaru fod yn bosibl.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffeirif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		Mae'r opsiwn yn nodi atebion ar sail natur a fydd yn fuddiol i fioamrywiaeth a helpu i gyflawni cadernid yn yr ecosystem.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar feithrin gwell gadernid mewn ecosystemau a bioamrywiaeth trwy flaenoriaethu goblygiadau ar adnoddau naturiol wrth wneud penderfyniadau. Gallai greu cynefinoedd a rhwydweithiau ac mae'n ceisio osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd naturiol. Mae ganddo bwyslais cryf iawn ar warchod amgylcheddol.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+	Anogir gwarchodaeth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth trwy Gynllun Gofodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, cyfraith genedlaethol/ryngwladol, a chaiff ei gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â phwerau cynllunio awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd gwaith datblygu a seilwaith newydd at ei gilydd yn parhau i roi pwysau ar yr amgylchedd naturiol yn y dyfodol ac mae'r NDF yn darparu cyfle cryf i ddarparu cyfeiriad a gwarchodaeth fwy strategol o'u cymharu â dulliau presennol.
Datblygu'r Opsiwn a Ffeirif (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffeirif trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffeirif. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffeirif. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffeirif. Opsiwn Arall 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 16 yr ACI a sgoriodd Opsiwn 2 yn gadarnhaol. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffeirif yn cynnwys: • Meithrin cadernid mewn ecosystemau a chynefinoedd (P1, P2, P3, DN1, DN2, DN4) • Blaenoriaethu goblygiadau adnoddau naturiol (P1, P2, DN1, DN2, DN4)

Tabl C-17: Amcan 17 yr ACI: Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid

Asesiadau effaith perthnasol: Iechyd, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
1: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar	--	Nid yw'r opsiwn wedi'i lywio gan egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, felly ceir potensial i waith datblygu yn yr ardaloedd twf fod wedi'i arwain gan nodau economaidd yn bennaf, yn hytrach na rhai sy'n adlewyrchu, er enghraifft, diogelu adnoddau, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, gwarchod mwynau ac ati. Mae potensial yma i

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
dwf yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad gryfaf		waith datblygu o'r fath effeithio'n andwyol ar gyflawni'r Amcan hwn yr ACI. Ceir negeseuon cadarnhaol, gan gynnwys cefnogi economi gylchol a chydabod bod ansawdd amgylcheddol yn ysgogiad cryf ar gyfer twf, ond mae'n debygol y bydd yr ysgogiad ar gyfer twf mewn meysydd eraill yr amcan yn drech na hyn.
2: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar greu cymunedau cadarn ledled Cymru	++	Mae'r opsiwn yn cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn gryf, a thybir bod hyn yn golygu y gellid cyflawni Amcan yr ACI yn gryf.
3: Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd	++	Mae'r opsiwn yn cefnogi egwyddorion craidd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac atebion sydd wedi'u seilio ar natur. Ceir nod clir i wella cadernid mewn ecosystemau a chynefinoedd trwy'r opsiwn hwn, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr Amcan hwn yr ACI.
4: Strategaeth ofodol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy	++	Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio'n gryf ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan arwain at gydberthynas uniongyrchol i gyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Amcan hwn yr ACI.
5: Opsiwn Meincnodi: Peidio â pharatoi'r NDF	+/-	Mae gwarchod adnoddau naturiol wedi'i seilio ar bolisi a chanllawiau yng Nghynllunio Gofodol Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi ar waith y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf – Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – yn galluogi prosesau rheoli adnoddau Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Fodd bynnag, bydd gwaith datblygu a seilwaith newydd at ei gilydd yn parhau i roi pwysau ar adnoddau a byddai peidio â llunio NDF yn methu cyfle i ddarparu'r lefelau gofynnol o arweiniad strategol (gan gynnwys egwyddorion Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) ar gyfer cynlluniau datblygu.
Datblygu'r Opsiwn a Ffefrir (Sylwadau gan Lywodraeth Cymru)		Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol proses yr NDF, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a helpodd y profion i lywio datblygiad Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – o'r holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Amlygir llawer o'r canfyddiadau cadarnhaol isod ynghyd â sut y maent wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir. Opsiwn Arall 2, 3 a 4 oedd â'r sgôr uchaf o ran Amcan 17 yr ACI. Nododd y profion bwysigrwydd sicrhau bod yr Opsiwn a Ffefrir

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Opsiwn Arall	Sgôr	Sylwadau
		yn cynnwys: • Cefnogi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (P1, P2, DN1, DN2, DN3, PE1, PE4, R1) • Cefnogi atebion sydd wedi'u seilio ar natur (P1, P2, DN1, DN2, DN5) • Cynyddu cadernid mewn ecosystemau a chynefinoedd (P2, P3, DN2, DN4)

ATODIAD D

Asesiad o'r Opsiwn a Ffefrif

arcadis.com

Opsiwn a Ffeirif a Aseswyd: 11 Rhagfyr 2017

(Cafodd argymhellion a wnaed yn yr asesiad hwn eu cynnwys yn yr Ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffeirif terfynol, yn adran 4.3)

Strategaeth Ofodol yr NDF – Lleoedd Cynaliadwy

Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru.

Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol swyddogaeth allweddol wrth greu lleoedd cynaliadwy. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein hamcanion gofodol ac mae'n cyd-gysylltu camau gweithredu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yn 2040.

Mae Strategaeth Ofodol yr NDF yn nodi sut y mae'r system cynllunio defnydd tir, drwy'r cynlluniau y mae'n eu paratoi, y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a'i gysylltiadau â'r gwasanaeth cyhoeddus, busnesau a chymunedau ledled Cymru, yn cefnogi'r nod hirdymor o sicrhau bod Cymru yn iach ac egniol, yn ffyniannus a diogel, yn uchelgeisiol ac yn dysgu ac yn unedig a chysylltiedig. Mae iddi ddwy swyddogaeth allweddol – darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer twf a seilwaith newydd a nodi meysydd o newid, diogelu, gwella a lliniaru; a sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer polisi gofodol strategol.

Mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i datblygu ar sail 5 thema:

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Egniol a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

Mae'r themâu hyn yn cefnogi dull wedi'i integreiddio o Greu Lleoedd. Maent yn cydnabod y caiff lleoedd cynaliadwy eu creu trwy fynd ar ôl ein hamcanion llesiant yn gyfartal a thrwy weithio tuag atynt gyda'n gilydd, mewn modd sy'n cefnogi eu cyflawniad orau.

Dylid darllen Strategaeth Ofodol yr NDF ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru sy'n nodi polisiâu cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu'r cyd-destun llawn ar gyfer y themâu a'r cyfeiriad ar gyfer paratoi'r NDF sy'n cynnwys y 5 Sbardun Allweddol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru:-

- Hwyluso'r Datblygiad lawn yn y Lle lawn;
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau;
- Hwyluso Amgylchedd Hygyrch ac Iach;
- Creu a Chynnal Cymunedau; a
- Diogelu'r Amgylchedd Cymaint â Phosibl a Chyfyngu'r Effaith ar yr Amgylchedd.

Mae'r NDF yn nodi elfennau gofodol y polisi cynllunio cenedlaethol ac nid yw'n ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru. Gan weithio gyda'i gilydd, bydd Polisi Cynllunio Cymru a'r NDF yn ein helpu i gyflawni lleoedd cynaliadwy.

Creu Lleoedd

I gefnogi cyflawniad creu lleoedd cynaliadwy, bydd yr NDF yn rhoi Creu Lleoedd wrth wraidd y system cynllunio datblygiadau. Mae Strategaeth Ofodol yr NDF yn canolbwyntio ar dair agwedd ofodol o'r themâu Creu Lleoedd – datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd, iechyd a llesiant a chymunedau cydlynus a'r Gymraeg.

Yn unol â'r agwedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae themâu Creu Lleoedd yn cynrychioli'r egwyddor gyntaf a ddefnyddir i ystyried yr holl ddewisiadau gofodol yn y cychwyn cyntaf. Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir i gefnogi themâu eraill, ddangos yn gyntaf eu bod yn gydnaws â'r thema Creu Lleoedd.

Yng nghyd-destun Strategaeth a Ffeirif yr NDF, mae pob polisi a dewis gofodol wedi eu gwneud i gefnogi amcanion datgarboneiddio, newid yn yr hinsawdd, iechyd a lles, cymunedau cydlynus a'r Gymraeg. Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn hysbysu'r holl benderfyniadau a wneir yn y dyfodol o dan yr NDF.

Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd

Bydd yr NDF yn sicrhau bod gan y system gynllunio yng Nghymru swyddogaeth allweddol wrth hwyluso twf glân a datgarboneiddio a'i bod yn helpu i ddatblygu gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd y newid i gymdeithas carbon isel yn dod â mwy o gyfleoedd ynghylch twf glân a swyddi o ansawdd uchel ac yn cyflawni buddion ehangach, gan gynnwys lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, aer a dŵr glân a chanlyniadau iechyd gwell. Mae cyflawni amcanion datgarboneiddio strategol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys sicrhau lleihad o 80% o leiaf yn ein hallyriadau carbon, yn sbardun allweddol y mae'n rhaid i'r holl gynlluniau datgarboneiddio ei gefnogi.

Iechyd a Lles

Bydd yr NDF yn darparu fframwaith polisi cryf sy'n ei gwneud yn ofynnol i amcanion iechyd a lles, ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau gofodol. Mae Strategaeth a Ffeirif yr NDF yn cydnabod bod problemau iechyd yn gallu effeithio'n anghymesur ar gymunedau difreintiedig sydd dan anfantais, a bydd ei bwyslais rhanbarthol yn ei gwneud yn bosibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Mae'n rhaid i'r NDF, a chynlluniau datblygu eraill, gyd-gysylltu cyflawniad seilwaith i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys iechyd ac addysg, yn gysylltiedig ac yn hygyrch. Bydd mesurau gwrthsefyll ar gyfer polisiâu newid yn yr hinsawdd a thrafnidiaeth yn gwella ansawdd dŵr a'r aer ac yn darparu seilwaith cerdded, beicio a gwyrdd i gefnogi ffyrdd o fyw iachach. Bydd gostwng tlodi tanwydd, drwy gefnogi cynhyrchu ynni datganoledig yn lleol a darparu tai o ansawdd uchel, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl.

Cymunedau Cydlynus a'r Gymraeg

Bydd yr NDF yn sicrhau bod gan y system gynllunio yng Nghymru swyddogaeth allweddol wrth gyflawni cymunedau cydlynus. Mae cynlluniau cryf a chynhwysol ar gyfer defnydd tir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymunedau presennol ac yn y dyfodol yn cael eu cynllunio'n dda a'u bod yn deg i bawb. Mae'n rhaid i'r system gynllunio chwarae ei rhan wrth sicrhau na chaiff neb eu hanfanteisio ar sail pwy ydyn nhw neu ble y maen nhw'n byw ac mae'n rhaid cefnogi camau i fynd i'r afael â phroblemau presennol.

Mae'n rhaid i ddatblygwyr ar bob lefel sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd; bod gan bob aelod o gymdeithas allu cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys iechyd, addysg a seilwaith digidol; bod y system gynllunio yn hwyluso darparu tir ar gyfer tai sy'n diwallu anghenion y gymdeithas gyfan, mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy, hygyrch a chysylltiedig; a bod cymunedau yn gallu gwrthsefyll bygythiadau amgylcheddol fel llifogydd, llygredd ac ansawdd aer gwael.

Bydd yr NDF yn sicrhau y cefnogir cymunedau Cymraeg ac yn creu amodau sy'n galluogi'r iaith i ffynnu. Bydd yr NDF yn cefnogi cymunedau drwy alluogi cyfleoedd cyflogaeth priodol a chynllunio'r ddarpariaeth o gartrefi newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

Mae cynhwysiant economaidd yn egwyddor bwysig ac mae'n rhaid i'r system gynllunio ddatblygu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwydd ac yn darparu amgylchedd i fusnesau allu tyfu a ffynnu. Mae'n rhaid sicrhau hefyd bod seilwaith cyfoes o ansawdd uchel, sy'n sbardun allweddol i gystadleurwydd a chynhyrchiant, wedi'i gynllunio'n dda er mwyn bod yn gatalydd ar gyfer adfywio ehangach a chefnogi cymunedau bywiog.

Lleoedd Unigryw a Naturiol

I gefnogi cyflawniad Lleoedd Unigryw a Naturiol, mae strategaeth Ofodol yr NDF yn canolbwyntio ar ein hadnoddau naturiol a'n diwylliant a'n treftadaeth unigryw. Bydd y polisi strategol canlynol a'r cyfeiriad gofodol yn llywio'r NDF.

Cyfeiriad Gofodol

Polisi Gofodol

DN1	Nodi adnoddau naturiol cenedlaethol.	Bydd polisiâu'r NDF yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ac yn lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol cymaint â phosibl.
DN2	Nodi meysydd o risg amgylcheddol posibl nawr ac yn y dyfodol.	Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddatblygu'r gallu i wrthsefyll y risgiau o lifogydd, ansawdd aer, ansawdd dŵr, cynnydd mewn tymheredd, colli cynefinoedd ac ecosystemau.
DN3	Nodir tirweddau, morweddau, safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol. Nodir cyfleoedd ar gyfer twf, ehangu, mwy o gysylltedd a gwella.	Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu a gwella tirweddau, morweddau, safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol.
DN4	Nodir ecosystemau sy'n bwysig yn genedlaethol.	Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i gryfhau cadernid ecosystemau sy'n bwysig yn genedlaethol drwy fwy o amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr ac addasrwydd.
DN5	Nodir seilwaith a chyfleoedd gwyrdd sy'n bwysig yn genedlaethol ar gyfer seilwaith newydd.	Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu a gwella a hwyluso darparu seilwaith gwyrdd newydd.
DN6	Nodir asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n bwysig yn genedlaethol. Nodir cyfleoedd i ddatblygu asedau diwylliannol cenedlaethol newydd.	Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu, hybu a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol a hwyluso datblygu asedau diwylliannol cenedlaethol newydd.

Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

I gefnogi cyflawniad Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, mae Strategaeth Ofodol yr NDF yn canolbwyntio ar sectorau allweddol a darparu seilwaith trafndiaeth, ynni a digidol cyfoes, cadarn a charbon isel. Bydd y polisi strategol a'r cyfeiriad gofodol canlynol yn llywio'r NDF.

Cyfeiriad Gofodol

Polisi Strategol

PE1	Nodir seilwaith cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni sy'n bwysig yn genedlaethol. Nodir lleoliadau ar gyfer seilwaith cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd ar raddfa genedlaethol.	Bydd polisiau'r NDF yn cefnogi cyflawniad targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru gan gynnwys bod 70 y cant o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 a capasiti ynni adnewyddadwy a berchnogir yn lleol yng Nghymru yn cyrraedd 1 GW erbyn 2030. Bydd polisiau yn cefnogi cynhyrchu trwy ystod o dechnolegau a seilwaith storio a dosbarthu adnewyddadwy a charbon isel.
PE2	Cymru gyfan	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu ynni lleol, datganoledig gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy a berchnogir gan gymunedau ledled Cymru gyfan.
PE3	Cymru gyfan	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith digidol cyfoes ledled Cymru gyfan a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys capasiti technolegol yng nghynllun datblygiad newydd, seilwaith (gan gynnwys seilwaith trafndiaeth) a meysydd o dwf ac adfywio.
PE4	Nodir ardaloedd cyflogaeth, mwynau a gwastraff sy'n bwysig yn genedlaethol. Nodir lleoliadau ar gyfer twf newydd sy'n bwysig yn genedlaethol, gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig â seilwaith cysylltedd ac ardaloedd twf.	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau i gynorthwyo i gyflawni amcanion datgarboneiddio, newid i economi carbon isel; a'r economi gylchol.
PE5	Lleoliadau presennol a newydd ar gyfer sectorau twf economaidd sy'n bwysig yn genedlaethol.	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau economaidd allweddol. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys hwyluso'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi eu twf.
PE6	Cymru gyfan	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf yn y sectorau sylfaenol sy'n cynnwys y sectorau gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu ledled Cymru gyfan.
PE7	Ffin Cymru – Lloegr	Bydd polisiau'r NDF yn hybu datblygiad economaidd gofodol, cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth ar draws y ffin i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol, hirdymor gorau i Gymru a rhanbarthau cyfagos.
PE8	Nodir ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr sy'n bwysig yn genedlaethol. Nodir cynigion ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith newydd gan gynnwys trydaneiddio'r rheilffyrdd, canolfannau trafndiaeth cyhoeddus	Bydd polisiau'r NDF yn darparu fframwaith newydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth cenedlaethol presennol a newydd i ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth, gwella cysylltedd a gwella ansawdd aer.

a chynlluniau metro.

PE9 Nodir ardaloedd adfywio a dargedir yn genedlaethol.

Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i weithgareddau adfywio gefnogi buddion iechedd a llesiant a chanolbwyntio ar adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd a darparu amgylchedd i fusnesau dyfu a ffynnu ynddo.

PE10 Nodir dynodiadau Cynllun Morol a phrosiectau cenedlaethol â pherthynas môr a thir.

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith i sicrhau cyflawni prosiectau cenedlaethol a pholisïau sy'n cwmpasu'r trefnau cynllunio môr a thir.

Lleoedd Egniöl a Chymdeithasol

I gefnogi cyflawni Lleoedd Egniöl a Chymdeithasol, mae Strategaeth Ofodol yr NDF yn canolbwyntio ar ddull integredig o ddarparu tai strategol a seilwaith teithio llesol. Bydd y polisi strategol a'r cyfeiriad gofodol canlynol yn llywio'r NDF.

Cyfeiriad Gofodol

AS1 Cymru gyfan

AS2 Cymru gyfan

AS3 Cymru gyfan

AS4 Nodir seilwaith teithio llesol cenedlaethol (gan gynnwys cerdded a beicio). Nodir gwelliannau i seilwaith teithio llesol cenedlaethol presennol a newydd (gan gynnwys cerdded a beicio).

AS5 Nodir rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol. Nodir gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a dulliau o'i ymestyn.

Polisi Strategol

Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai strategol yn gysylltiedig â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol (gan gynnwys iechedd ac addysg) a meysydd o dwf; ac yn cefnogi'r nod o ddarparu swyddi gwell yn agosach i'w cartrefi.

Bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai strategol ddiwallu anghenion pawb ac yr ystyrir y math o dai sy'n ofynnol ynghyd ag ystyriaethau o ran lleoliad a nifer.

Bydd polisiâu'r NDF yn nodi rhagamcan poblogaeth a thai yn seiliedig ar bolisi cenedlaethol, a fydd yn cynnwys ystod Cymru gyfan o niferoedd tai ar gyfer cyfnod y cynllun.

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau i seilwaith teithio llesol presennol a newydd (gan gynnwys cerdded a beicio).

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a'i ymestyn pan fo hynny'n lleihau tagfeydd yn sylweddol; cefnogi gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd; ac yn cefnogi

amcanion ehangach gan gynnwys y rhai hynny
sy'n ymwneud ag ansawdd aer a'r amgylchedd.

Rhanbarthau Cymru

Bydd Strategaeth Ofodol yr NDF yn darparu cyfeiriad ar gyfer y tri rhanbarth ledled Cymru – Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. I gefnogi rhanbarthau cryf, cadarn ac unigryw, mae Strategaeth Ofodol yr NDF yn canolbwyntio ar dai strategol, darparu seilwaith cydgysylltiedig mewn ardaloedd borgen twf a dinas-ranbarth a chefnogi ardaloedd gwledig. Bydd y polisi strategol a'r cyfeiriad gofodol canlynol yn llywio'r NDF.

Cyfeiriad Gofodol

R1 Nodir tri rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

R2 Nodir tri rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

R3 Nodir ardaloedd borgen dinas-ranbarth a borgen twf.

R4 Nodir ardaloedd gwledig yn y tri rhanbarth yn fras.

R5 Nodir ardaloedd gwledig yn y tri rhanbarth yn fras.

Polisi Strategol

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y fframwaith yn cefnogi twf ar sail cryfderau unigryw'r rhanbarth, i greu economïau mwy amrywiol, cadarn, cymunedau cysylltiedig a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol.

Bydd polisiâu'r NDF yn nodi rhagamcanion poblogaeth a thai ar sail polisiâu rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth, a fydd yn cynnwys ystod ranbarthol o niferoedd tai ar gyfer cyfnod y cynllun.

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer ardaloedd borgen dinas-ranbarth a borgen twf cysylltiedig, hygyrch ac wedi eu cynllunio'n dda drwy gydgyssylltu'r ddarpariaeth o seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol, tai a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer tai, gwasanaethau a chyfleusterau (gan gynnwys iechyd ac addysg), cyflogaeth a seilwaith cysylltiedig (digidol a thrafnidiaeth) wledig i sicrhau bod cymunedau gwledig Cymru yn cadw ac yn denu pobl.

Bydd polisiâu'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o ymadael â'r UE dros gyfnod y cynllun. Bydd cefnogi amaeth a busnesau a darparu fframwaith

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

clir ar gyfer arallgyfeirio a chydgysylltu â
strategaethau allweddol y Llywodraeth yn
amcanion polisi allweddol.

Tabl D-1: Asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
1: Annog a chefnogi gwelliannau yng nghyrhaeddiad addysgol pob grŵp oedran a phob sector o gymdeithas i helpu i wella cyfleoedd bywyd Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, hawliau Plant, yr Economi	+	Mae Opsiwn a Ffefrir yr NDF yn nodi bod 'dysgu' yn rhan o'i sylfaen. Elfen graidd i'r opsiwn a ffefrir yw 'Creu Lle'. Mae'r 'thema' hon yn nodi ei bod yn ofynnol i'r NDF a chynlluniau datblygu eraill 'gyd-gysylltu darpariaeth seilwaith i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys iechyd ac addysg, wedi'u cysylltu a'u bod yn hygyrch.' Mae testun ychwanegol yn nodi ei bod yn ofynnol ymdrin ag anghydraddoldeb economaidd, a allai gynnwys lefelau addysg. Mae polisiau strategol AS1 a R4 (yn benodol ar gyfer ardaloedd gwledig) yn ceisio sicrhau bod datblygiadau tai yn gysylltiedig â chyfleusterau allweddol, gan gynnwys addysg. Rhagwelir effeithiau cadarnhaol o ran cyflawni'r cynnydd posibl yn lefelau cyfranogiad mewn addysg o ganlyniad i'r Opsiwn a Ffefrir. Gallai polisiau twf economaidd (fel PE4, PE5 a PE6) arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol drwy dwf sgiliau. Mae PE9 yn ei gwneud yn ofynnol i weithgareddau adfywio ganolbwyntio ar adeiladu lleoedd sydd, gyda'i gilydd, yn creu swyddi ac yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a allai arwain at ragor o effeithiau cadarnhaol o'i gymharu â'r amcan hwn. Awgrymir y gellid cynnwys rhagor o fanylion i wella arwyddocâd effeithiau cadarnhaol. Gallai hyn gynnwys sôn am ddatblygu sgiliau mewn sectorau twf allweddol, yn rhan o'u datblygiad strategol, gan arwain at gyfleoedd dysgu gydol oes. Er y crybwyllir hyn yn rhan o'r thema 'creu lleoedd', ac o dan PE9, awgrymir y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys yn y polisiau strategol sy'n gysylltiedig â sectorau twf.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Ymddrinir â sgiliau ym Mholisi PE5 a'r seilwaith gofynnol er mwyn cefnogi'r twf yn y sectorau economaidd. Ymhelaethir ar y polisiau hyn eto yng ngham nesaf yr NDF, y cynllun drafft. Nid oes angen newid felly.
2: Cyfrannu at welliant i iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd cymdeithasol pawb, gan gynnwys cyfrannu tuag at leihad mewn anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar	++	Rhan o sylfaen yr NDF yw'r nod hirdymor o adeiladu Cymru sy'n 'iach ac egniol'. Mae'r thema gyffredinol 'Creu Lle' yn ceisio sicrhau bod pwyslais yr NDF yn cynnwys 'iechyd a llesiant a chymunedau cydlynus', sy'n debygol o ddarparu'r fframwaith ar gyfer effeithiau cadarnhaol sylweddol o'i gymharu â'r amcan hwn. Mae'r NDF yn ceisio darparu fframwaith polisi cryf, i sicrhau bod canlyniadau iechyd a lles corfforol a meddwl, ar gyfer y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol, yn ganolog i benderfyniadau gofodol a wneir. Mae'r dull rhanbarthol yn ceisio cydnabod nad yw cymunedau difreintiedig sydd dan anfantais yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan anghydraddoldebau iechyd a gallai arwain at gynydd yn y gallu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal â hyn, mae'r agenda datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yn ceisio datblygu gallu cenedlaethol i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, sy'n debygol o arwain at fuddion iechyd a llesiant cronol a hirdymor. Mae'n debygol y bydd gan bolisiau yn gysylltiedig â theithio llesol a chysylltedd cymunedol (AS1, AS4, R3 a R4) a seilwaith gwyrdd (DN5), tai o ansawdd uchel (o dan elfen iechyd a llesiant y thema Creu Lle) a pholisi strategol AS2, sy'n ceisio diwallu anghenion cymunedol) a gwelliannau amgylcheddol eraill (fel y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys ym mholisiau strategol DN1, DN2, DN3, DN4, DN6, PE1) a chymorth y sector economaidd a chymorth adfywio o dan bolisiau

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur gwledig, Hawliau Plant		strategol PE6 a PE9, fuddion sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn drwy fynd i'r afael ag ystod o'r penderfynyddion iechyd cyffredinol buddion penodol i grwpiau sy'n agored i niwed. Gallai mentrau teithio llesol arwain at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, llygredd aer, sŵn, tir a dŵr, gan arwain at fuddion anuniongyrchol, yn ogystal â'r buddion iechyd a lles corfforol a meddwl uniongyrchol posibl sy'n codi o weithgarwch corfforol ffurfiol ac anffurfiol. Argymhellir y gellid cynnwys rhagor o fanylion ar yr hyn a ystyrir yn rhan o'r seilwaith gwyrdd cenedlaethol yn yr Opsiwn a Ffeifrif, yn pennu y byddai'n cynnwys seilwaith teithio llesol, yn ogystal â lleoedd gwyrdd bioamrywiol o ansawdd uchel, i wella mynediad cymunedau at leoedd gwyrdd naturiol.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Ymdrinnir â Seilwaith Gwyrdd ym mhob rhan o'r Opsiwn a Ffeifrif. Ymhelaethir ar DN5 a AS4 yng nghan nesaf yr NDF, sef y cynllun drafft. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
3: Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi	++	'Lleoedd Cynaliadwy' yw amcan yr NDF. Mae cysylltedd a seilwaith digidol yn elfennau o hyn, a fyddai'n cynyddu'r mynediad ffisegol at gyfleoedd cyflogaeth i nifer fwy o gymunedau ledled Cymru. Mae'r thema 'creu lleoedd' cyffredinol hefyd yn amlygu bod cynhwysiant economaidd yn egwyddor bwysig o'r NDF, a bod yn rhaid i'r system gynllunio adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd a darparu amgylchedd i fusnesau dyfu a ffynnu ynddo. Gallai hyn arwain at fuddion sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn. Gallai'r polisiâu strategol o dan y thema 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus' arwain at fuddion o'u cymharu â'r amcan hwn. Gallai polisiâu strategol PE5, PE6, PE7 a PE9 arwain at welliannau economaidd a allai arwain at effeithiau cadarnhaol ar gyfer cyflogaeth a chynhwysiant economaidd. Mae PE5 yn cydnabod pwysigrwydd sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg uwch o werth uchel i'r economi, a allai greu gweithwyr incwm uchel â sgiliau. Mae PE6 yn cefnogi sectorau sylfaenol lle ceir cyfleoedd clir ar gyfer twf mewn buddsoddiad a chyflogaeth. Gallai Polisi Strategol PE3 (sy'n ymwneud â seilwaith digidol) wella cyflogaeth gynhwysol, drwy ddarparu cyfleoedd i ystod ehangach o gymunedau gymryd rhan mewn cyflogaeth drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi hyn ledled y wlad. Gallai polisiâu sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig, fel R4, arwain at fuddion tebyg. Gallai gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth (fel PE8) a gwella cysylltedd cymunedau, fel AS1, sy'n cefnogi'r nod o ddarparu swyddi gwell yn agosach i gartref, arwain hefyd at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Adlewyrchir cefnogaeth ar gyfer dinas-ranbarthau ym mholisi R3 o'r Opsiwn a Ffeifrif, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Mae PE6 yn nodi rhai sectorau arbenigol, ond nid yw'n glir ai dyma'r holl sectorau y byddai'r NDF yn dymuno eu targedu. Argymhellir y byddai cynnwys tebyg ar gyfer mathau eraill o sectorau yn ddefnyddiol, os oes sectorau eraill a fyddai o bwys cenedlaethol yng nghyd-destun yr NDF. Gallai hyn arwain at welliant yn yr ystod o fathau o gyflogaeth ledled Cymru, a allai arwain at gynnydd mewn bodlonrwydd swydd a sgiliau.

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae polisi PE6 wedi'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn ymdrin â thwf mewn sectorau economaidd gan gynnwys sectorau sylfaenol. Ymhelaethir ar y rhain yn y cam nesaf o'r NDF, sef y cynllun drafft. Nid oes angen newidiadau ar y cam hwn.
4: Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi	++	Un o brif amcanion yr Opsiwn a Ffeifrif yw y bydd Cymru yn ffynnu ac yn ddiogel. Elfen allweddol o hyn yw'r newid i economi carbon isel, a allai ddod â chyfleoedd a fyddai'n creu ystod eang o fuddion. Elfen allweddol arall o'r NDF yw darparu'r seilwaith ffisegol (PE5 a PE8), gan gynnwys seilwaith digidol (PE3), i gefnogi twf, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn ac annog mewnfuddsoddiad. Gallai darparu fframwaith i gefnogi'r newid i economi carbon isel a'r economi gylchol (PE1, PE2, PE3 a PE4) hefyd arwain at fuddion sylweddol o'i gymharu â'r amcan hwn. Gallai'r dull rhanbarthol, gan gynnwys nodi dinas-ranbarthau ac ardaloedd bagen twf, arwain at ragor o fuddion economaidd, gan ddarparu pwyslais strategol ar gyfer buddsoddiad. Mae'r polisiâu yn yr Opsiwn a Ffeifrif yn ategu'r strategaeth gyffredinol ac yn cynnwys yr angen i bolisiâu'r NDF hybu sectorau twf sylfaenol a chenedlaethol (PE5, PE6); datblygu economaidd gofodol trawsffiniol (PE7); datblygu economaidd gwledig (R4); yn ogystal â gweithgareddau adfywio (PE9), a allai arwain gyda'i gilydd at fuddion sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn. Mae Polisi Strategol DN2 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ynghyd â mesurau eraill yn yr Opsiwn a Ffeifrif, gallai hyn arwain at fuddion cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Gweler yr argymhelliad o dan amcan 3 yr ACI ynghylch sectorau twf ac annog arloesi a mewnfuddsoddiad yn y rhanbarthau. Gallai hyn helpu i ddarparu mwy o gyfeiriad ar gyfer arallgyfeirio yn yr economi a galluogi cyflawni'r agenda datgarboneiddio yn fwy effeithiol. Awgrymir y gellid ymestyn cynnwys polisi R5 i gefnogi'r holl fusnesau, gan nad busnesau gwledig yn unig a effeithir ar ôl Brexit. Yn ogystal â hyn, awgrymir y byddai testun yn ymwneud yn benodol â rheoli amaeth a busnesau gwledig yn gynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Nodir bod PE5 a PE6 yn ymdrin â thwf mewn sectorau economaidd gan gynnwys y sectorau sylfaenol. Ymhelaethir ar y rhain yn y cam nesaf o'r NDF, sef y cynllun drafft. Ystyir bod polisi R5, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn cwmpasu'r holl fusnesau ac nid dim ond busnesau gwledig. Mae'r Opsiwn a Ffeifrif yn darparu fframwaith economaidd cefnogol sy'n cydnabod effaith bosibl Brexit ar ardaloedd gwledig. Nid oes angen newidiadau ar y cam hwn.
5: Cyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol	+	Mae thema 'Creu Lleuedd' yr Opsiwn a Ffeifrif yn nodi bod Opsiwn a Ffeifrif yr NDF yn canolbwyntio ar dair agwedd ofodol, un ohonynt yn cynnwys y Gymraeg. Gan ei bod yn ofynnol i benderfyniadau ddangos eu bod yn gydnaws â'r thema Creu Lleuedd yn y lle cyntaf, gallai hyn arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn o'r

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Asesiadau effaith perthnasol: Y Gymraeg, Prawfesur Gwledig		ACI. Gallai camau i ddarparu tai a chyflogaeth a gwella cysylltedd mewn cymunedau leihau allfudiad o gymunedau Cymraeg eu hiaith, a gwella dichonoldeb a bywiogrwydd yn yr ardaloedd hyn. Gallai hyn arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Gellid cynnwys nod Llywodraeth Cymru o fod â miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y testun, gan fod yr amcan ynni adnewyddadwy wedi'i gynnwys.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae'r nod hwn wedi'i gynnwys yn yr Opsiwn a Ffeirif yn yr adran Creu Lleoedd o dan 'Cymunedau Cydlynus a'r Gymraeg'
6: Creu cyfleoedd i leihau a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog cynlluniau ynni effeithlon a chynaliadwy Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi	+/-	Datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yw un o dair agwedd ofodol y thema Creu Lleoedd, ac mae agweddau sy'n ymwneud â hyn wedi eu hintegreiddio drwy'r Opsiwn a Ffeirif. Gallai mesurau fel newid i economi carbon isel (PE4), cefnogi amcanion datgarboneiddio strategol Llywodraeth Cymru, arwain at fuddion sylweddol. Gellid ategu hyn gan bwyslais cryf yr Opsiwn a Ffeirif i wella cysylltedd cymunedau drwy fesurau teithio llesol (AS1, AS4, R3 a R4), datgarboneiddio trafndiaeth (rhan o PE8), cynhyrchu ynni o ffynonellau ynni carbon isel (PE1, PE2), a gweithredu mesurau seilwaith gwyrdd (DN5) a gwelliannau amgylcheddol eraill (DN3 a DN4). Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad i wella ac ehangu'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol presennol (AS5 a rhan o PE8), ond gallai lleihau tagfeydd yn y tymor byr a'r tymor canolig arwain at gynnydd mewn traffig yn yr hirdymor, gan arwain at effeithiau negyddol o'u cymharu â'r amcan hwn, ond mae hyn yn ansicr. Hefyd, er y nodir rhai 'o ansawdd uchel' yn y thema 'Creu Lleoedd', nid yw hwn wedi'i gynnwys yn y polisiâu strategol, a allai arwain at ansicrwydd posibl o ran cyflawni. Argymhellir y dylid cynnwys cyfeiriad at gynllun cynaliadwy datblygiadau adeiledig yn yr Opsiwn a Ffeirif. Argymhellir y gallai'r Strategaeth a Ffeirif gynnwys gofyniad bod adeiladu ffyrdd newydd yn cynnwys mesurau i liniaru unrhyw effeithiau hirdymor, gan geisio peidio â dweud yn groes i amcanion iechyd a llesiant a newid yn yr hinsawdd yr NDF. Gweler argymhellion sy'n ymwneud ag arallgyfeirio'r economi o dan Amcan 4 yr ACI.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae'r Opsiwn a Ffeirif yn cydnabod mai lleoedd cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Ymhelaethir ar yr elfennau o gyflawni lleoedd cynaliadwy yn y cam nesaf ac maent wedi eu cwmpasu ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cyd-fynd â'r NDF. Ystyrir y dylid darllen yr Opsiwn a Ffeirif yn ei gyfanrwydd a cheisio cyflawni datblygiadau cynaliadwy gan gynnwys seilwaith sydd a'r bwriad o ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth a gwella ansawdd aer er enghraifft polisi PE8. Nid oes angen newid ar y cam hwn. Ceir ymateb i'r argymhelliad ar gyfer Amcan 4 yn Amcan 4.
7: Cyfranu at leihau a rheoli'r risg o lifogydd	+	Pwyslais allweddol i'r Opsiwn a Ffeirif yw'r thema 'Creu Lleoedd', sef darparu sylfaen ar gyfer yr holl ddewisiadau gofodol. Rhan o hyn yw y bydd yr NDF yn sicrhau bod y system gynllunio yn helpu i ddatblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys y risg o lifogydd. Hefyd, dylai testun sy'n ymwneud â chymunedau cydlynus sy'n pennu cynlluniau datblygu sicrhau bod cymunedau yn gallu gwrthsefyll bygythiadau amgylcheddol fel

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r effaith ar lechyd, Newid yn yr Hinsawdd		llyfogydd. Mae polisi strategol DN2 yn benodol yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn gallu gwrthsefyll y risg o lifogydd. Gallai hyn arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn i gymunedau lle gallai datblygiadau newydd ddigwydd. Gallai hyn gynnwys y mesurau sy'n benodol i'r adeilad, yn ogystal â mesurau i wrthsefyll llyfogydd i'r gymuned ehangach, a allai fod o fudd i'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, ni nodir yr agweddau hyn yn y polisi ar hyn o bryd oherwydd ei natur strategol. Gellid rhoi mwy o fanylion yn y polisi ynghylch seilwaith gwyrdd, yn nodi y gallai datblygu a gwella seilwaith gwyrdd mewn cymunedau helpu i leihau risg o lifogydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys mewn cymunedau sydd eisoes yn bodoli, nid dim ond datblygiad newydd. Gweler hefyd argymhellion o dan Amcan 6 yr ACI. Gallai cynllunio adeiladau mewn modd cynaliadwy hefyd helpu i leihau'r risg o lifogydd.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae polisi DN2 wedi ei ailddrafftio er mwyn cynnwys osgoi risg. Cynhwysir y gallu i wrthsefyll y risg o lifogydd hefyd yn y polisi creu lleoedd a pholisi DN2. Ymdrinnir â seilwaith gwyrdd drwy'r Opsiwn a Ffeirif. Ymhelaethir ar DN5 a AS4 yng ngham nesaf yr NDF, sef y cynllun drafft. Nid oes angen newid ar y cam hwn. Ceir ymateb i'r argymhelliad ar gyfer Amcan 6 yn Amcan 6 uchod.
8: Creu cyfleoedd i annog diogelu a gwella ansawdd aer Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r effaith ar iechyd, Newid yn yr Hinsawdd	+	Un o egwyddorion allweddol yr Opsiwn a Ffeirif yw gweithredu agenda Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Dylai mesurau fel gwella cysylltedd cymunedau yn genedlaethol (AS1, AS4, rhan o PE8, R3 a R4), seilwaith gwyrdd (DN5) a mesurau gwella amgylcheddol (DN3 a DN4), a darparu fframwaith i ddarparu trafndiaeth gynaliadwy (AS4 a rhan o PE8) a chynhyrchu ynni carbon isel (PE1 a PE2) arwain at effeithiau cadarnhaol yn ymwneud ag ansawdd aer ac felly effeithiau iechyd cysylltiedig, gan gynnwys buddion i iechyd pobl. Mae sicrhau bod cymunedau yn gallu gwrthsefyll bygythiadau amgylcheddol fel ansawdd aer gwael yn elfen allweddol o'r thema 'Creu Lleoedd' yn ogystal â pholisi strategol DN2. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol presennol ac ymestyniadau iddo, ond gallai lleihau tagfeydd yn y tymor byr a'r tymor canolig arwain at gynydd mewn traffig yn yr hirdymor, gan arwain at effeithiau negyddol o'u cymharu â'r amcan hwn. Fodd bynnag, mae'r effaith hwn yn ansicr. At ei gilydd, gallai fod mân effeithiau cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer ansawdd aer yn lleol, lle gallai adeiladu ffyrdd helpu i wella ansawdd aer mewn cymunedau. Argymhellir y gallai'r Strategaeth a Ffeirif gynnwys gofyniad y dylai cynlluniau adeiladu ffyrdd newydd gynnwys mesurau i liniaru unrhyw effeithiau hirdymor, gan geisio peidio â mynd yn groes i amcanion iechyd a llesiant a newid yn yr hinsawdd yr NDF.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Ystyrir y dylid darllen yr Opsiwn a Ffeirif yn ei gyfanrwydd ac mae'n ceisio darparu datblygiadau cynaliadwy gan gynnwys seilwaith sy'n ceisio datgarboneiddio'r sector trafndiaeth a gwella ansawdd aer, er enghraifft polisi PE8. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
9: Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella	+	Dylai polisiâu sydd wedi eu cynnwys yn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', gan gynnwys diogelu a gwella tirweddau, morweddau, safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd sydd o bwys cenedlaethol (DN3), yn ogystal â

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r effaith ar iechyd, Newid yn yr Hinsawdd		chryfhau cadernid ecosystemau (DN4), hybu effeithlonrwydd adnoddau (DN1) a hwyluso seilwaith gwyrdd (DN5), arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Dylai gweithredu Ardaloedd Adnoddau Strategol y Cynllun Morol Cenedlaethol (polisi strategol PE10) arwain at gefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran yr amgylchedd morol. Dylai mesurau fel gwella cysylltedd cymunedau'n genedlaethol a darparu fframwaith i gyflawni trafndiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio drwy wella cysylltedd (a chynhyrchu ynni carbon isel (PE1 a PE2)), a chefnogi'r newid i economi carbon isel a'r economi gylchol (PE4, PE8, AS1, AS4, R3 a R4) arwain hefyd at effeithiau cadarnhaol ar gyfer adnoddau dŵr yn gyffredinol. Awgrymir y gallai Polisi DN2 gael ei wneud yn fwy cadarnhaol, gan geisio lleihau/osgoi 'risgiau' amgylcheddol yn hytrach na datblygu'r gallu i'w gwrthsefyll. Argymhellir symud Polisi PE10 i adran Lleoedd Unigryw a Naturiol yr Opsiwn a Ffeirif, gan nad yw'n glir pam y mae'n dod o dan Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Hefyd, argymhellir y dylid cyfeirio at Bolisi Adnoddau Naturiol Cymru, sy'n cynnwys yr egwyddorion ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gallai Polisi DN1 fod yn fwy penodol ynghylch yr 'adnoddau naturiol' y mae'n cyfeirio atynt gan eu defnyddio yn fwy effeithlon, a allai gynnwys defnyddio dŵr, yn rhan o wasanaethau ecosystemau ehangach a dull o allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae polisi DN2 wedi ei ailddrafftio i gynnwys osgoi'r risg o lifogydd. Mae lleoliad Polisi PE10 yn adlewyrchu strwythur Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio. Diffinnir y term Adnoddau Naturiol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
10: Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau sylfaenol, gwasanaethau ac amwynderau ar gyfer pob grŵp Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar	++	Ystyrir creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau, y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a mynediad cynaliadwy at gyfleusterau yn yr Opsiwn a Ffeirif ac maent yn darparu'r sylfaen ar gyfer llawer o'r polisiâu strategol, gan arwain at fuddion sylweddol posibl o'u cymharu â'r amcan hwn. Dylai polisiâu sy'n ymwneud â darparu seilwaith gwyrdd (DN5); seilwaith digidol (PE3); datgarboneiddio'r sector trafndiaeth (PE8); tai a seilwaith cysylltedd (AS1); seilwaith teithio llesol cenedlaethol (AS4); ardaloedd dinas-ranbarth a bargaen twf (R3); ac ardaloedd gwledig a chysylltedd (R4), i gyd gyfrannu at gyflawni nodau'r amcan hwn o'r ACI. Ailadroddir y gofyniad i nodi 'Ffyrdd o Bwys Cenedlaethol' yn PE8 a AS5. Awgrymir symud cynnwys AS5 i'r thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, gan yr ystyrir na fyddai'r rhwydwaith ffyrdd strategol cenedlaethol o reidrwydd yn cyfrannu at wella lleoedd egniol. Gallai'r thema 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus' hefyd ystyried swyddogaeth teithio yn yr awyr ac ar y môr yn yr NDF. Argymhellir y gellid ychwanegu cyfleoedd i wella hygyrchedd at gyfleusterau diwylliannol a hamdden i'r polisiâu

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd		strategol, i gryfhau buddion o'u cymharu â'r amcan hwn.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae Polisi AS5 wedi'i ddileu gan ei fod wedi'i gwmpasu ym Mholisi PE8. Ceir nifer o bolisiâu yn yr Opsiwn a Ffeirif gan gynnwys Creu Lleoedd, DN6, AS1 a AS4 sy'n ymdrin â chysylltedd a mynediad at gyfleusterau diwylliannol a hamdden drwy hybu asedau a darparu seilwaith. Mae Polisi PE8 eisoes yn ymdrin â phorthladdoedd a meysydd awyr. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
11: Creu cyfleoedd i gyflawni gwelliannau mewn cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant	++	Ystyrir bod egwyddorion yr Opsiwn a Ffeirif yn gyffredinol yn unol ag Amcan yr ACI hwn ac nad yw rhoi rhagor o fanylion penodol o reidrwydd yn briodol ar y lefel hon o wneud cynllun. Mae'r thema 'Creu Lleoedd' cyffredinol yn ogystal â'r Opsiwn a Ffeirif yn fwy cyffredinol, yn cynnwys manylion yn ymwneud â phenderfyniadau cymunedau cydlynus, a allai gynnwys agweddau fel y Gymraeg, yr angen am dai, cysylltedd a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Ystyrir y gallai mesurau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru, gan gynnwys y bydd y pwyslais rhanbarthol yn caniatáu ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, arwain at effeithiau cadarnhaol. Hefyd, dylai mesurau penodol i wella cydlyniant cymunedol a sicrhau bod cymunedau presennol a chymunedau'r dyfodol yn deg i bawb; bod gwasanaethau a chyfleusterau ar gael i bob aelod o gymdeithas; ac y darperir tir ar gyfer tai sy'n diwallu anghenion pob cymdeithas (yn y thema Creu Lleoedd a pholisi strategol AS2), arwain at fuddion sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â phob grŵp cydraddoldeb, yn enwedig o ran anghydraddoldeb oedran posibl, pan fo grwpiau hŷn neu iau; yn ogystal â'r rhai hynny ag anableddau, cyflyrau iechyd penodol neu incwm isel, o bosibl yn llai abl i deithio i gael gwasanaethau a chyfleusterau. Mae Polisi Strategol R4 yn ceisio cadw a denu pobl i gymunedau gwledig, a allai arwain at fuddion eraill o'u cymharu â'r amcan hwn. Gallai'r NDF gyfeirio at agweddau eraill ar gydlyniant cymunedol, fel gwella diogelwch personol ac ymadweithio ac integreiddio cymdeithasol. Er y nodir 'diogel' yn y trydydd paragraff o'r NDF, ni chaiff ei nodi eto o dan Strategaeth a Ffeirif yr NDF. Hefyd, nid yw'n glir beth a olygir gan 'diogel' gan y gallai hefyd olygu diogel o ran yr economi. Gellid gwneud mwy o'r angen i leihau anghydraddoldeb yn sgil tlodi ac amddifadedd, gan gynnwys y rheini sy'n effeithio ar blant, yn ogystal ag ystyried integreiddio cymunedau gan gynnwys y rhai hynny â gwahanol hunaniaeth ddiwylliannol neu ethnig. Nodir tlodi yn gysylltiedig â thlodi tanwydd yn yr Opsiwn a Ffeirif, ond ni chaiff ei nodi'n benodol yn unrhyw le arall.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae rhan gyntaf yr Opsiwn a Ffeirif sy'n nodi'r cyd-destun wedi ei adolygu a'i ailddrafftio a thrwy'r ail ddrafft ni cheir

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
		cyfeiriadau at 'ddiogel' bellach. Ceir nifer o bolisïau yn yr Opsiwn a Ffeifrif gan gynnwys P3 sy'n ymdrin â chydlyniant cymunedol yr ymhelaethir arno yng ngham nesaf yr NDF, sef y cynllun drafft. Mae Polisi R1 yn ymdrin ag amddifadedd ac anghydraddoldeb ac ymhelaethir ar hyn yng ngham nesaf yr NDF, sef y cynllun drafft. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
12: Creu cyfleoedd i ddarparu tai diogel, fforddiadwy o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant	+	Dylai'r Polisiâu Strategol sydd wedi eu cynnwys o dan y thema 'Lleoedd Egniol a Chymdeithasol' yn yr Opsiwn a Ffeifrif, arwain at rai effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r Amcan hwn o'r ACI. Mae Polisi Strategol AS2 yn ceisio sicrhau y bydd polisiâu'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai strategol ddiwallu anghenion pawb a bod y mathau o dai sydd eu hangen yng nghyd-destun ystyriaethau lleoliad a niferoedd yn cael eu hystyried, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn, sef y dylai ddiwallu anghenion tai. Gallai polisiâu ynghylch gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, leihau tlodi tanwydd, gan arwain at ragor o effeithiau cadarnhaol. Mae polisi AS3 yn datgan y caiff rhagamcanion poblogaeth a thai yn seiliedig ar bolisïau cenedlaethol eu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae Polisi R2 yn nodi y bydd polisiâu'r NDF yn nodi rhagamcanion poblogaeth a thai yn seiliedig ar bolisi rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth. Dylid egluro'r dull er mwyn sicrhau effeithlonrwydd wrth gyflawni. Mae'r thema Creu Lleoedd yn nodi'r angen i ddarparu tai o ansawdd uchel, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y polisiâu strategol. Gweler yr argymhelliad o dan amcan 6 yr ACI.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Dylid darllen yr Opsiwn a Ffeifrif yn ei gyfanrwydd ac mae polisiâu AS3 a R2 yn berthnasol. Ystyrir bod geiriad a lleoliad y polisiâu yn y polisi AS cyffredinol a pholisi R2 rhanbarthol yn egluro'r gwahanol ddulliau ac nid oes angen unrhyw newid ar y cam hwn. Mae'r Opsiwn a Ffeifrif yn cydnabod mai lleoedd cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Ymhelaethir ar elfennau cyflawni lleoedd cynaliadwy yn y cam nesaf ac mae Polisi Cynllunio Cymru yn eu cwmparu sy'n cyd-fynd â'r NDF. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
13: Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella hynodrwydd ein tirweddau, trefluniau a morweddau Asesiadau Effaith Perthnasol: Asesiad o'r effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig,	+/-	Dylai polisiâu a gynhwysir yn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', gan gynnwys diogelu a gwella tirweddau, morweddau, safleoedd a chynefinoedd cadwraeth natur (DN3), yn ogystal â chryfhau cadernid ecosystemau (DN4) a hwyluso seilwaith gwyrdd (DN5), arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a'i ymestyn (AS5), ond gallai lleihau tagfeydd yn y tymor byr a'r tymor canolig arwain at gynydd mewn traffig yn yr hirdymor gan arwain at effeithiau negyddol o'u cymharu â'r amcan hwn, yn enwedig o ran llygredd sŵn yn ne-ddwyrain Cymru. Gallai Polisi R3 sy'n ymwneud â datblygu dinas-ranbarthau ac ardaloedd twf ddwysáu hyn, oherwydd gallai hefyd fod ag effeithiau treflun negyddol. Fodd bynnag, gallai'r polisi seilwaith gwyrdd (DN5) leihau effeithiau datblygiadau ar drefluniau a thirweddau i ryw raddau. Gallai fod rhagor o effeithiau negyddol posibl ar y

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Newid yn yr Hinsawdd		dirwedd yn sgil prosiectau seilwaith trafnidiaeth neu ynni adnewyddadwy o bwys cenedlaethol. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r rhain ar lefel y prosiect neu drwy bolisiau cynllunio mwy penodol. Yn ogystal â hyn, gallai polisiau yn ymwneud â datblygu ardaloedd mwy gwledig, fel R1, R2, a R4, arwain at effeithiau negyddol o'u cymharu â'r meysydd awyr dywyll a mannau tawel. <i>Gweler yr argymhelliad o dan amcan 6 yr ACI.</i>
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Gweler yr ymateb i Amcan 6.
14: Creu cyfleoedd ar gyfer diogelu, cadwraeth a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u safleoedd Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	+	Gallai polisiau sydd wedi eu cynnwys yn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', gan gynnwys diogelu a gwella tirweddau sydd o bwys cenedlaethol (DN3), arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn, o ran tirweddau hanesyddol. Mae polisi strategol DN6 yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu, hybu a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol a hwyluso cyflawni datblygiadau diwylliannol newydd, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. <i>Awgrymir y gellid gwella arwyddocâd effeithiau cadarnhaol drwy gynnwys yr angen am welliannau diwylliannol yn y thema 'creu lleoedd' cyffredinol, i'w gwneud yn fwy amlwg. Hefyd, gellid cynnwys adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y polisi adfywio (PE9).</i>
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Ystyrir bod polisi DN6 a PE6 yn ymdrin â hyn drwy eu drafft presennol. Ni fyddai'r naill na'r llall yn nacáu adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Dylid darllen y polisiau yn yr Opsiwn a Ffeifrif yn eu cyfanrwydd ac ni chaiff un ei flaenoriaethu dros un arall. Nid oes angen newid ar y cam hwn.
15: Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	+	Mae Polisi Strategol DN6 yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu, hybu a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol a hwyluso datblygiadau diwylliannol newydd, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. <i>Argymhellir y dylid cynnwys cydnabod, diogelu, hybu a gwella Diwylliant Cymru yn y thema 'Creu Lleoedd' gyffredinol yn rhan o bwyslaes cyffredinol yr NDF. Hefyd, ystyrir y gellid cynnwys mynediad at asedau diwylliannol yn rhan o'r polisiau sy'n ceisio gwella cysylltedd cenedlaethol. Hefyd, gellid cynnwys adfywio a arweinir gan ddiwylliant yn y polisi adfywio (PE9).</i>
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Ystyrir bod polisiau DN6 a PE6 yn ymdrin â hyn drwy eu drafft presennol ac ni fyddai'r naill na'r llall yn nacáu adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Mae DN6 hefyd yn ceisio hybu asedau hanesyddol a diwylliannol, ac ymhelaethir ar hyn yng ngham nesaf yr NDF, y cynllun drafft. Mae strwythur yr Opsiwn a Ffeifrif yn adlewyrchu strwythur Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio a dylid darllen y polisiau yn yr Opsiwn a Ffeifrif yn eu cyfanrwydd. Nid oes blaenoriaeth i un dros un arall.
16: Creu cyfleoedd ar	+/-	Dylai'r polisiau a gynhwysir yn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', gan gynnwys diogelu a gwella tirweddau,

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Asesiadau effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig, Newid yn yr Hinsawdd		morweddau, safleoedd a chynefinoedd cadwraeth natur o bwys cenedlaethol, yn ogystal â chryfhau cadernid ecosystemau a hwyluso seilwaith gwyrdd, arwain at effeithiau cadarnhaol o'u cymharu â'r amcan hwn. Yn benodol, gallai cryfhau cadernid ecosystemau o bwys cenedlaethol drwy wella amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr ac addasrwydd, arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol, a galluogi rhywogaethau i addasu i hinsawdd sy'n newid. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad i wella ac ehangu'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol, ond gallai lleihau tagfeydd yn y tymor byr a'r tymor canolig arwain at gynydd mewn traffig yn yr hirdymor, a fyddai'n achosi effeithiau negyddol o'u cymharu â'r amcan hwn. Mae'r thema 'Creu Lleoedd' yn rhoi'r egwyddor gyntaf ar gyfer ystyried pob dewis gofodol yn y man cyntaf. O fewn y testun hwn ceir cyfeiriad at seilwaith gwyrdd i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Awgrymir y gellid amlygu buddion ehangach a photensial rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn y thema 'Creu Lleoedd', er mwyn rhoi mwy o statws iddo ac i sicrhau yr amlygir yr ystod o welliannau amgylcheddol sydd i'w cyflawni. Gellid cysylltu hyn ag ystod o bolisiau strategol, gan gynnwys teithiol llesol a chysylltedd cymunedau gan gynnwys iechyd a llesiant a mynediad at fannau gwyrdd, rheoli'r risg o lifogydd, rheoli tymheredd, ansawdd aer a sŵn, ansawdd dŵr a phridd a chysylltedd ecosystemau. Gweler yr argymhelliad o dan amcan 9 yr ACI ynglŷn ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Argymhellir y gallai polisiau DN2 a DN4 ystyried swyddogaeth gwasanaethau ecosystemau yn fwy eang, nid dim ond canolbwyntio ar gynllunio ardaloedd penodol fel rhai 'o bwys cenedlaethol' oherwydd gallai hyn ddileu'r cysylltedd, yr amrywiaeth a'r rhyng-gysylltedd y mae'r NDF yn ceisio eu cryfhau. Gallai hyn hefyd helpu i wella camau lliniaru o'u cymharu ag effeithiau posibl datblygiad ar yr amgylchedd naturiol a chynnwys diogelu daeareg a phriddoedd.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Mae strwythur yr Opsiwn a Ffeirif yn adlewyrchu strwythur Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio a dylid darllen y polisiau yn yr Opsiwn a Ffeirif yn eu cyfanrwydd. Nid oes blaenoriaeth i un dros un arall.
17: Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid Asesiadau Effaith perthnasol: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Prawfesur Gwledig,	++	Mae Polisi Strategol DN1 yn nodi y bydd polisiau'r NDF yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ac yn lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol cymaint â phosibl. Ystyrir bod hyn yn debygol o arwain at fuddion o'u cymharu â'r amcan hwn. Mae Polisi R5 yn nodi y bydd polisiau'r NDF yn rhoi fframwaith ar gyfer ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o ymadael â'r UE dros gyfnod y cynllun, gan gynnwys cefnogi amaeth a busnesau. Gallai hyn helpu i gyfrannu at reoli ffermdir, fforestydd a chefn gwlad ehangach yn gynaliadwy. Mae Polisi PE4 yn benodol yn ceisio sicrhau y nodir ardaloedd cyflogaeth, mwynau a gwastraff, gan geisio hybu newid i economi gylchol carbon isel. Gallai hyn arwain at fuddion sylweddol o'u cymharu â'r amcan hwn.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Amcan ACI	Sgôr	Sylwadau
Newid yn yr Hinsawdd, yr Economi		Nid yw'n glir a yw Polisi DN1 yn cyfeirio at 'adnoddau naturiol' yn unig ac felly yn cynnwys mwynau a gwastraff yn ogystal â phŵer gwynt a dŵr, ymhlith llawer, neu a yw'n gyfyngedig i fathau penodol. Gallai egluro hyn wella'r potensial i weithredu'r polisi'n llwyddiannus.
Sylwadau Llywodraeth Cymru		Diffinir Adnoddau Naturiol yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Nid oes angen newid ar y cam hwn.

Argymhelliad cyffredinol

- Byddai'r Opsiwn a Ffefrif yn gliriach pe byddai'r testun a ddarperir o dan 'cyfeiriad gofodol' yn cynnwys manylion cyson drwy'r ddogfen. Gallai hyn gynnwys canllawiau ar sut y dylid dehongli'r elfennau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae manylion a maint y testun a ddarperir o dan 'cyfeiriad gofodol' yn adlewyrchu graddfa ofodol y polisi ac mae'r manylion yn briodol ar gyfer ei ddefnydd. Nid oes angen newid felly.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrif:
Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Arcadis (UK) Limited

Arcadis Cymru House

Caerdydd

CF3 0EY

Y Deyrnas Unedig

[arcadis.com](https://www.arcadis.com)

